

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 6ed Gorffennaf, 2021
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Rhithiol – i gael mynediad dilynwch y linc: https://gwynedd.public-tv/core/portal/webcast_interactive/581818
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWYG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 15 MAI 2021			4 - 12
6	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24	Cyng. Nia Jeffreys	Delyth Williams	13 - 87
7	POLISI CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT	Cyng. Nia Jeffreys	Delyth Williams	88 - 113
8	DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021	Cllr. Nia Jeffreys	Geraint Owen a Iwan Evans	114 - 131
9	CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI TUA AT 2032 A THU HWNT	Cyng. Cemlyn Williams	Debbie Anne Williams Jones	132 - 182
10	PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD, ARBENNIG A DILYNOL MEDI 2021	Cyng. Cemlyn Williams	Owen Owens	183 - 185
11	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD	Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	186 - 189
12	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	Cyng Dafydd Meurig	Morwena Edwards	190 - 196

Y CABINET DYDD MAWRTH, 15 MEHEFIN 2021

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thoamas, Catrin Wager, Cemlyn Williams a Dewi Roberts (Aelod Lleol).

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasnaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

Eitem 7: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Dwyfor / Meirionnydd)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiehruiad gan Cyng. Gareth Thomas.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAI 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2021 fel rhai cywir.

6. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2020/21 ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yn y Cyngor Llawn ar yr 8 Gorffennaf 2021.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod yn bleser ei gyflwyno. Pwysleisiwyd fod y ddogfen yn un clir, darllenadwy sy'n rhoi darlun clir o waith yr holl gyngor. Eglurwyd fod un rhan a'r ddechrau'r adroddiad yn rhoi disgrifiad o'r gwaith a wnaethpwyd ar ddechrau'r cyfnod clo pan fu i waith y Cyngor gael ei gyfyngu o ganlyniad i'r rheoliadau covid. Eglurwyd fod staff y Cyngor wedi ymateb yn ystwyth a hyblyg i gyfarch y sefyllfa ac wedi gweithio i greu ffordd newydd o weithio. Diolchwyd i'r holl staff am fod mor barod i addasu ac i ymateb mor gyflym ac effeithlon i'r cyfnod clo.

Nodwyd fod yr adroddiad yn amlygu blaenoriaethau'r Cyngor gan bwysleisio'r angen i barhau i drafod y maes twristiaeth gynaliadwy. Nodwyd y bydd yr Adran Addysg yn parhau i weithio i wella'r ddarpariaeth addysg o fewn y sir, gan nodi fod gwaith wedi ei wneud yn Ysgol Godrau'r Berwyn ac Ysgol y Garnedd a bod ysgol newydd ar ei ffordd yng Nghricieth.

Mynegwyd yn wyneb yr argyfwng tai fod y Cynllun Gweithredu Tai yn ei le. Nodwyd fod y cynllun hwn yn uchelgeisiol ac arloesol a bod ymrwymiad o £77miliwn o arian ar gyfer cyfnod y cynllun.

Esboniwyd fod rhai adrannau yn anweledig gan drigolion y sir ac wedi ei effeithio dros y blynyddoedd gan doriadau. Amlygwyd adran Gwarchod y Cyhoedd sydd wedi delio gyda nifer o newidiadau o ganlyniad i argyfwng Covid-19. Diolchwyd i staff am ymroi i'r drefn Profi, Olrhain a Diogelu sydd wedi amlygu gallu Llywodraeth Leol i wneud y gwaith heb wastraffu arian ar gwmnïau allanol.

Mynegwyd mai dyma Adroddiad Blynyddol olaf y tymor yma ac y bydd trefn newydd i'r dyfodol. Ychwanegwyd fod y drefn herio perfformiad mewnol o fewn y Cyngor yn ail gychwyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn edrych ar ei gwendidau ac yn gwella yn barhaus.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i staff yr adran Blant a Chefnogi Teuluoedd am barodrwydd a hyblygrwydd yn ystod y cyfnod. Diolchwyd i'r holl rieni maeth sydd wedi bod mor barod i lenwi'r bwlch. Ychwanegwyd fod yr adran yn ymwybodol o'u heriau wrth symud yn eu blaenau a bod y cynllun awtistiaeth am fod yn un o'r flaenoriaeth am eleni.
- Diolchwyd i staff yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant am ddyfalbarhau mewn blwyddyn anodd. Nodwyd fod eleni wedi amlygu cryfder y staff.

- Tynnwyd sylw at un cywiriad bychan i'w addasu, fod 8 blaenoriaeth gwella bellach nid 7.
- Cydnabuwyd y gwaith arbennig sydd wedi ei wneud yn yr ysgolion i ymateb i'r her o ddysgu o adref.
- Diolchwyd i staff yr adran gyllid a technoleg gwybodaeth am ei gwaith i gefnogi yr adrannau eraill.
- Diolchwyd i staff yr adran Economi am siarad gyda busnesau yn ystod yr holl gyfnod ac i ddyrannu grantiau cofid.

7. YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet, yn dilyn ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb yr Adran Addysg i'r sylwadau hynny

- i. Gymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai pwrpas yr adroddiad yw adrodd yn ôl yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol ar yr opsiwn i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Mynegwyd nad oedd y penderfyniad i ddod a'r adroddiad i'r Cabinet wedi bod yn rhwydd ond fod yr adran yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Pwysleisiwyd ei bod yn anodd iawn cyflwyno'r adroddiad hwn, ond fod dyletswydd sicrhau addysg a phrofiadau ac amgylchedd gorau posib i blant. Mynegwyd fod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r holl opsiynau posib i'r ysgol. Diolchwyd i'r holl unigolion, disgyblion, athrawon a llywodraethwyr ar roi eu hamser i ymateb i'r ymgynghoriad statudol.

Mynegwyd fod yr angen wedi codi i edrych ar ddyfodol Ysgol Abersoch y dilyn gostyngiad yn nifer y disgyblion. Nodwyd fod niferoedd Ysgol Abersoch wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf a bellach fod 76% o gapsiti'r ysgol yn wag gyda rhag amcanion am y blynyddoedd nesaf yn dangos fod y niferoedd am barhau yn isel.

Bu i'r Pennaeth Addysg nodi yn ôl yn Mai 2019 y bu i'r Cabinet gytuno i gefnogi cynnal trafodaeth ffurfiol gyda chorff llywodraethol yr Ysgol i drafod opsiynau

posib yn dilyn lleihad yn y nifer y disgyblion. Bu i 3 cyfarfod ei gynnal a oedd yn gyfle i egluro'r angen i drafod opsiynau, i gyflwyno a thrafod yr opsiynau cyn dod i benderfyniad ar yr opsiwn ffarfredig.

Yn ôl ym Medi 2020 nodwyd y bu i'r Cabinet ymgymryd â'r proses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Abersoch Awst 2021, gan gynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. Bu i'r penderfyniad gan ei gadarnhau yn y Cabinet ar y 5ed o Dachwedd wedi i'r penderfyniad gael ei alw mewn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Hydref.

Amlygodd y Pennaeth Addysg y prif heriau oedd yn wynebu'r ysgol a oedd yn cynnwys niferoedd disgyblion wedi gostwng ers 2016. Mynegwyd fod 8 disgybl yn yr ysgol yn llawn amser ar hyn o bryd gyda 2 ddisgybl yno rhan amser. Ychwanegwyd fod y rhagolygon yn nodi y bydd 10 disgybl yn 2021, a 12 yn 2022 a 2023. Esboniwyd fod data yn amlygu fod 21 o blant yn nalgylch Abersoch yn mynychu ysgolion arall a bod 3 disgybl o du hwnt i ddalgylch Aberoch yn mynychu'r ysgol. Mynegwyd fod niferoedd isod yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr ysgol yn derbyn arian ychwanegol o ganlyniad i niferoedd isel i sicrhau staff. Mynegwyd fod Ysgol Abersoch yn derbyn £50,000 ychwanegol ar ben eu cyllidebau a olygai fod cost y disgybl oddeutu £17,000 y plentyn o'i gymharu ag oddeutu £4,000 y plentyn yn sirol.

Nodwyd fod y Cabinet yn Rhagfyr 2019 wedi ymrwymo i Egwyddorion Addysg i Bwrpas sydd yn sail i weledigaeth yr adran i sicrhau cyfundrefn addysg. Mynegwyd yn ogystal fod ysgolion cynradd yn dilyn Strategaeth Addysg Gynradd a bod yr egwyddorion ar strategaeth wedi bod yn wreiddiol yn yr holl broses.

Bu i'r Swyddog Addysg amlygu'r opsiynau a gafodd ei ystyried a oedd yn cynnwys addasu'r ystod oedran i 3-9 oed neu 3-11oed. Mynegwyd y buasai manteision i wneud hyn ond nad oedd yn gynaliadwy i'r dyfodol. Amlygwyd fod 3 math o ffedereiddio wedi eu cynnig fel opsiynau i sicrhau presenoldeb o fewn yr ardal ond pwysleisiwyd nad oedd hyn yn cyfarch yr her o niferoedd yn lleihau. Cyflwynwyd yr opsiwn o gau a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn bach a oedd yn cynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion ac addysg o'r ansawdd uchaf ynghyd a chysondeb o ran niferoedd o fewn dosbarthiadau. Ychwanegwyd fod y pellter daearyddol yn bellter teg ac y buasai gan rieni'r gallu i ddewis ysgol i'w plant.

Yn dilyn hyn bu i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal rhwng y 12 Ionawr a 23 Chwefror. Bu i ddogfennau ymgynghorol gael ei anfon ar e-bost ynghyd a chopïau caled a bu i sesiynau galw mewn rhithiol gael eu cynnal. Derbyniwyd 154 ymateb. Mynegwyd fod mwyafrif o'r ymatebion yn gwrthwynebu gyda'r opsiwn i gau ac amlinellwyd y prif bwyntiau.

Mynegwyd fod nifer o ymatebion yn nodi anfodlonrwydd gyda chynnal yr ymgynghoriad o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Pwysleisiwyd o ran gofynion rheoliadau yn nodi nad oes gofyn cynnal cyfarfodydd cyhoeddi ac felly fod y drefn a ddilynwyd yn briodol. Amlygwyd fod pryderon wedi codi o ran amserlen ac nad oedd cau ar 31 Awst 2021 yn rhoi digon o amser i rieni benderfynu ar yr ysgol i anfon eu plant iddo, o ganlyniad i hyn mae'r Adran Addysg wedi gwrthio'r dyddiad ymlaen i Ragfyr 2021. Tynnwyd sylw at y sylwadau nad oedd y Mudiad Meithrin

a'r Cylch Meithrin wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Mynegwyd fod yr adran wedi sylwi nad oedd yr e-bost wedi eu hanfon atynt a bu i'r adran ymestyn y cyfnod ymateb i'r mudiad hyd Ebrill 21 ond ni dderbyniwyd unrhyw ymatebiad.

Nodwyd fod nifer o sylwadau wedi ei derbyn am yr opsiynau amgen. Tynnwyd sylw at y sylwad am oedi'r broses i roi cyfle i'r ysgol gynyddu'r nifer, mynegwyd nad oedd modd ymrwymo i oedi gan fod niferoedd wedi disgyn yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf ac nad oedd yn hyfyw i'r dyfodol. Wrth ymateb i'r ymatebiadau oedd yn holi pam nad oedd adolygiad dalgylch, esboniwyd nad yw adolygiad dalgylch yn rhan o'r strategaeth ac mai ymateb i heriau penodol un ysgol yw'r penderfyniad hwn.

Eglurwyd fod nifer o ymatebion yn nodi fod gormod i bwyslais ar niferoedd yn yr ysgol ac yn cwestiynu'r rhagamcanion. Eglurwyd nad oedd y rhagamcanion yn rhai gwyddonol ond fod yr adran yn credu y buasai'r niferoedd yn parhau yn isel dros y 5 mlynedd nesaf. Nodwyd yn ogystal y buasai safon yr addysgu yn disgyn drwy symud i ysgol arall, ond pwysleisiodd yr adran fod ymateb Estyn yn amlygu fod safon y ddwy ysgol yn debyg iawn ac felly na fuasai gwahaniaeth arwyddocaol i addysg y plant.

Tynnwyd sylw at ôl ddefnydd o adeilad yr ysgol yn dilyn cau, mynegwyd fod gan y cyngor Bolisi Ôl Ddefnyddio Ysgolion ac y bydd trafodaethau cyfreithiol yn cael ei chynnal i sicrhau na fydd ymrwymadau addysg i'r adeilad.

Amlygwyd pryderon nad yw'r llwybr teithio i Ysgol Sarn Bach yn addas i blant gerdded i'r ysgol, ond nodwyd fod bws ysgol yn weithredol ar hyn o bryd ac y bydd lle i'r disgyblion ychwanegol ar y bws hwn. Eglurwyd fod ymatebion yn amlygu fod bywyd y pentref yn cael ei ddylanwadu gan yr ysgol. Nodwyd y bydd disgwyliad i Ysgol Sarn Bach drin Abersoch fel rhan o'i hardal gan sicrhau fod y gwaith agos gyda'r pentref yn parhau. Ychwanegwyd fod nifer o ddisgyblion Abersoch yn mynychu Ysgol Sarn Bach fod cyswllt gyda'r pentref i'w gweld yn barod.

Mynegwyd fod pryderon amlwg wedi ei nodi yn yr ymgynghoriad ar lechyd a Lles y disgyblion a phwysleisiwyd ei bod wedi bod yn gyfnod anodd ac y bydd y cyfnod y trosglwyddo yn anodd yn ogystal. Ond pwysleisiwyd bydd yr adran yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i weithio gyda hwy ar y cyfnod pontio.

Derbyniwyd nifer o ymatebion yn amlygu effaith negyddol ar yr iaith a diwylliant gan fod yr ysgol yr adnodd pwysicaf o fewn y pentref ar gyfer yr iaith. Pwysleisiwyd fod gwaith da yn cael ei wneud yn yr ysgol ond fod disgwyl i bob ysgol fod yn gweithio i hybu defnydd o'r iaith yn yr ysgol ac yn gymdeithasol ac o ganlyniad bydd disgwyliad i Ysgol Sarn Bach barhau gyda'r gwaith da sydd yn cael ei wneud.

Nodwyd fod ymatebion wedi holi be fydd yn digwydd i'r Cylch Meithrin a Ti a Fi os yr ysgol yn cau. Mynegwyd ei fod o ddwylo'r adran ond y gall gael ei ystyried ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad. Pwysleisiwyd ar y cyfan fod plant Ysgol Abersoch yn anhapus ac yn codi pryderon am y profiadau y gallent eu colli fel ymweliadau i'r traeth a'r Pendref a bod disgyblion Ysgol Sarn Bach yn cydymdeimlo ond yn

awyddus i groesawu'r disgyblion i'w hysgol.

Tynnodd y Swyddog Addysg at yr opsiynau amgen gan nodi eu bod wedi edrych ar Ysgol Aml Safle a dau fath o ffederasiwn ysgolion. Esboniwyd fod yr opsiynau wedi bod yn fodel all weithio os y pellter daearyddol yn sylweddol. Ond, mynegwyd gan nad oedd y pellter yn un helaeth eglurwyd nad oeddent yn ddatrasiad i'r dyfodol ac na fuasai yn ateb i'r heriau sydd yn wynebu Ysgol Abersoch.

Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn siomedig iawn nad oedd modd i'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd ymuno a'r cyfarfod. Mynegwyd fod yr adroddiad yn helaeth a gofynnwyd pa mor annibynnol yw'r adolygiad gan ei fod yn cael ei arwain gan yr adran addysg. Pwysleisiwyd fod yr ymateb yn gryf yn erbyn y penderfyniad, a bod y gymuned yn unfrydol yn erbyn cau'r ysgol. Eglurodd y buasai ychwanegu un flwyddyn ysgol i gynnwys blwyddyn 3 yn gwneud llawer o wahaniaeth i Ysgol Abersoch a gofynnwyd pam nad oedd yr adran wedi cymryd unrhyw gamau yn gynt i ddatrys y broblem o gapasiti.

Ychwanegodd nad oedd unrhyw sylw wedi ei wneud i'r ymgyrch i gael tai i bobl leol o fewn y pentref, ac y buasai cau'r ysgol cyn y cynlluniau hyn yn gynamserol. Eglurwyd fod y Cylch Meithrin a Ti a Fi wedi llwyddo i dynnu plant i mewn ac nad oedd digon o amser wedi mynd heibio i weld pe bai yn gwneud gwahaniaeth i'r niferoedd. Eglurwyd fod disgyblion yr ysgol gyda pherthynas agos gyda'r pentref ac o'i gau buasai yn cau'r berthynas yma gyda'i chynefin. Ychwanegwyd fod nifer o deuluoedd wedi nodi eu bod yn awyddus i droi ei ail gartref i fod yn gartref llawn amser yn dilyn y cyfnod cofid ac felly buasai posibilrwydd y byd niferoedd yn codi. Gofynnodd i'r Cabinet i ohirio'r penderfyniad am flwyddyn i weld os bydd newid i'r niferoedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i athrawon, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned am fod yn barod i ymateb i'r ymgynghoriad.
- Tynnwyd sylw at y broses sydd wedi ei dilyn ers 2019 a'i bod wedi bod yn dryloyw ac yn dilyn prosesau cywir. Eglurwyd y bydd effaith ar gymuned ond fod y plant yn barod yn symud i Ysgol Sarn Bach pan yn 8 oed ac felly fod cysylltiad yno yn barod. Mynegwyd mai safon addysg i blant Gwynedd yw'r flaenoriaeth.
- Mynegwyd fod y ffigwr o £17,000 y plentyn yn drawiadol i gymharu £4,000 dros y sir i gyd. Amlygwyd fod yr Asesiad Ardrawiad Ieithyddol wedi ei herio yn yr ymatebion a gofynnwyd am ymateb yr adran i hynny. Yn ogystal holwyd beth fydd yr adran yn ei wneud i sicrhau'r cyswllt gydag Ysgol Sarn Bach a'r pentref. Nododd y Swyddog Addysg fod sail y pryderon yn deillio o'r ffaith nad yw'r adran yn cymharu tebyg wrth debyg, ond pwysleisiwyd fod yr adran yn credu fod yr adroddiad yn gywir. O ran ymarferoldeb y gwaith i ddod ar ddwy gymuned at ei gilydd bydd angen edrych ar y cynllun yn y siarter iaith a gafael yn y strategaethau sydd wedi gweithio yn Abersoch a'i pharhau yn Ysgol Sarn Bach.
- Nodwyd fod ymatebion wedi amlygu teimladau cryf am yr ysgol a bod angen eu hystyried. Tynnwyd sylw at yr effaith ar y gymuned a'r iaith ond mynegwyd mai ansawdd addysg a llesiant plant sydd yn flaenoriaeth. Gofynnwyd am gadarnhad os bydd yr ysgol yn cau y bydd llesiant plant yn

cael sylw mewn Ysgol newydd. Yn ogystal o ran ddyfodol y safle, eglurwyd fod yr adnodd yn bwysig i'r gymuned a bod y gymuned a llais cryf dros ddyfodol y safle. O ran y symud, nododd y Swyddog Addysg fod angen cynllunio gofalus i sicrhau fod profiadau yn digwydd yn y ddwy ysgol cyn i'r ysgol gau i ddisgyblion ddod i adnabod eu hunain. Ychwanegwyd y buasai gwasanaethau arbenigol ar gael yn ogystal i sicrhau llesiant y plant.

- Nodwyd rôl ysgol o fewn cymuned fel hwb ac yn lle ble mae rhieni yn cymdeithasu a phlant yn magu gwreiddiau ac yn gweld gwerth ei gael yn ganol cymuned. Ond, nodwyd fod nifer uchel o blant yn mynychu ysgol tu allan i'r dalgylch yn drawiadol, a holwyd a yw ysgol un ystafell ddsbarth am roi datrysiad llawn i'r problemau sydd yn wraidd i broblemau'r ysgol. Gofynnwyd i'r adran gysidro llwybr saff i Ysgol Sarn Bach, er mwyn tynnu'r gymuned i mewn drwy gysylltu'r pentref a'r ysgol newydd. Eglurwyd y bydd y Cyngor yn drawsadrannol yn edrych i mewn i'r posibiladau o greu llwybr cerdded.
- Diolchwyd i'r aelod lleol am fanteisio ar bob cyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth ac i leisio barn dros y trigolion.

8. YMATEB I'R ADRODDIAD "AIL GARTREFI - DATBLYGU POLISIAU NEWYDD YNG NGHYMURU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn.

PENDERFYNIAD

Cytunwyd ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru" fel y nodir yn rhan 9 o'r adroddiad gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes.

Cytunodd yr Arweinydd i gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadau a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd.

.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen ymatebiad i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru" gan y Dr Simon Brooks, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg. Mynegwyd fod Dr Brooks wedi cysylltu â'r Cyngor a bod nifer o'r argymhellion wedi dod o adroddiad a gyflwynwyd gan yr Adran Amgylchedd i'r Cabinet yn ôl ym mis Rhagfyr.

Eglurwyd fod deuddeg argymhelliad yn yr adroddiad a bod angen i'r Cyngor ymateb i'r adroddiad. Amlygwyd mai dim ond un argymhelliad mae'r Cyngor yn anghytuno a hi sef argymhelliad 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes. Mynegwyd yr angen i bob annedd gael ei gyfrif fel annedd ac yn cael

ei orfodi i dalu treth Cyngor ac unrhyw bremiwm sydd yn cyd-fynd ar annedd hwn. Nodwyd fod yr adroddiad yn un clodwiw ac o bwys ac ategwyd yr awydd i yrru neges at y Llywodraeth at ymateb y Cyngor i'r adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad wedi tynnu ar lawer o ffynonellau a'i bod yn holl bwysig i'r Cyngor ymateb gan fod problem ail gartrefi yng Nghywydd ar ei gwaethaf. Amlygwyd y camau mae'r Cyngor wedi ei wneud yn barod i dacio'r broblem a oedd yn cynnwys mabwysiadu Polisi Gosod Newydd fel bod y flaenoriaeth ar bobl leol, gwneud defnydd o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi gan fuddsoddi'r arian ychwanegol mewn Cynllun Gweithredu Tai. Pwysleisiwyd fod y Cyngor wedi gwneud popeth o fewn eu gallu ar gyfer y sefyllfa ynghyd a chomisiynu gwaith penodol er mwyn edrych i'r broblem. Cefnogwyd adroddiad Dr Simon Brooks gan bwysleisio fod nifer o argymhellion a wnaethpwyd gan y Cyngor yn y gwaith comisiwn i'w gweld yn yr adroddiad.

Eglurwyd i wneud gwahaniaeth mwyaf mae angen canolbwyntio ar yr argymhellion sydd am wneud gwahaniaeth ac amlygwyd 3 argymhelliad. Y cyntaf oedd Argymhelliad 7, gan ei fod wedi ei amlygu fel un o brif broblemau'r trigolion sef fod ail gartrefi ddim yn talu treth Cyngor wrth symud i dreth fusnes bach. Pwysleisiwyd yr angen i rwystro hyn rhag digwydd fel eu bod yn cyfrannu i'r Cyngor ac efallai gyda'r premiwm yn rhwystro eraill rhag prynu ail gartref. Yr ail flaenoriaeth oedd sicrhau fod dosbarth derbyn penodol er mwyn newid cartref o fod yn annedd i fod yn ail gartref a drwy hyn fod angen cais cynllunio. A'r trydydd er mwyn cael y dystiolaeth ar gyfer y ceisiadau cynllunio od angen cynllun trwyddedu ar gyfer dai gwyliau felly bod modd cadw golwg ar niferoedd o fewn cymunedau, ac yna gwrthod ceisiadau cynllunio os niferoedd yn uchel mewn cymuned. Eglurwyd heb fabwysiadu'r argymhellion rhain ni fydd modd tacio'r broblem.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y Cyngor mewn argyfwng tai, a bod y Cyngor yn ddyddiol yn edrych ar ôl trigolion Gwynedd. Pwysleisiwyd yn ystod y flwyddyn eithriadol ddiwethaf fod y Cyngor wedi parhau i edrych ar ôl trigolion a pharhau i berfformio yn arbennig o dda. Eglurwyd dros y ddwy flynedd diwethaf fod y Cyngor wedi gwneud pob dim o fewn ei gallu i ddatrys y broblem ond nad oes grym gan y Cyngor i ddatrys y problemau go iawn. Mynegwyd nad yw'r broblem hon yn broblem newydd a bod Llywodraeth San Steffan wedi bod yn ymwybodol ohoni ers y 1970au, ac er bod Tai wedi ei ddatganoli i Gymru dim ond yr adroddiad hwn sydd wedi ei wneud. Pwysleisiwyd fod yr atebion i gyd yn yr adroddiad ond fod angen bellach i'r Llywodraeth weithredu.
- Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud adroddiadau ugain mlynedd yn ôl ond heb weithredu ar yr argymhellion. Yn ôl ym mis Rhagfyr, mynegwyd fod yr adroddiad yn gweiddi ar Lywodraeth Cymru i weithredu. Eglurwyd fod yr adroddiad diweddaraf ganddynt yn gweiddi am weithredu.
- Pwysleisiwyd fod angen gweithredu gan fod pryderon am ble mae pobl am fyw heddiw, heb sôn am ble fydd plant y sir yn byw. Eglurwyd bob dydd fod achosion y yn amlygu'r argyfwng tai yn codi ar draws Gwynedd.

- Eglurwyd nad yw hon yn broblem newydd a chwestiynwyd pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywbeth ynghynt. Codwyd fod gormod o argymhellion yn cael ei amlygu gan yr adroddiad a bod posibilrwydd i'r Llywodraeth ddewis un syml i'w weithredu, ac o ganlyniad ddim yn gwneud gwahaniaeth.
- Croesawyd yr adroddiad gan bwysleisio ei bod yn amser i adroddiadau ddod i ben ac i weithredu. Gofynnwyd i fudiadau gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i roi'r neges i'r Llywodraeth yn cwyno am ei gilydd.
- Amlygwyd fod ail gartrefi bellach i'w gweld yn bob ward yn y sir a bod y broblem bellach yn ehangu o'r adroddiadau traddodiadol ac i ardaloedd difreintiedig.
- Pwysleisiwyd fod angen bod yn glir fod talu treth Cyngor yn angenrheidiol. Eglurwyd fod codi premiwm yn amlygu fod y Cyngor wedi ei wneud beth mae yn gallu.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.15 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 6

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	6 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679708
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol 2020-21, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet nodi cynnwys a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2020/21, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud i Gynllun Gweithredu'r 5 Amcan Cydraddoldeb rydym yn gweithio tuag atynt yn ystod 2020-21 fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd yna. Mae adrodd yn flynyddol yn ddyletswydd Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

3

CYNNWYS

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb (sef y Cynllun Cydraddoldeb) wedi ei adnabod fel un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor gan y Cabinet.

Hwn yw Adroddiad Blynyddol cyntaf Cynllun Cydraddoldeb 2020-24. Mae'r flwyddyn dan sylw, 2020-21, wedi bod yn un anarferol iawn. O ganlyniad i'r pandemig, a'r cyfyngiadau cysylltiedig, bu'n rhaid i ni edrych ar ffyrdd wahanol i gyflawni nifer o'r gweithgareddau megis y gwaith ymgysylltu lle nad oedd modd gwneud llawer o'r hyn y bwriadwyd ei wneud. Er fod hyn wedi golygu rhywfaint o lithriad rydym yn ffyddiog o allu cyflawni'r Cynllun Gweithredu o fewn yr amserlen.

Derbyniwyd arweiniad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y dylem asesu addasrwydd yr amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb yn sgil y pandemig. Rydym wedi gwneud hynny ac rydym o'r farn eu bod yn addas.

Y pump amcan yw:

- Amcan 1: Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir.
- Amcan 2: Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.
- Amcan 3: Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.
- Amcan 4: Gweithredu i leihau'r bwch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.
- Amcan 5: Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y rhain yn eu tro, fel yn y Cynllun ei hun. Yn unol a chanllawiau, mae hefyd yn cynnwys manylion ar sut mae'r Cyngor yn casglu a defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb. Pwysig hefyd yw'r adnabod nad na fydd gweithio ar Amcanion y Cynllun yn unig yn sicrhau cydraddoldeb, rhaid gwreiddio'r egwyddorion yn ein gwaith bob dydd. Felly rydym yn edrych ar esiamplau o waith y Cyngor yn y maes o ddydd i ddydd.

4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae asesiad effaith cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb wedi ei ddiweddarau yn sgil y sefyllfa newydd a'r data o gwmpas Covid-19.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol



i) Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ii) Swyddog Priodoldeb

Rwy'n croesadwy'r Adroddiad Blyneddol ar berfformiad yn erbyn dyletswydd sydd yn berthnasol i holl weithgareddau'r Cyngor

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2020-21



@CyngorGwyneddCouncil



@CyngorGwynedd



01766 771000



www.gwynedd.llyw.cymru Tud. 14



Rhagair

Mae'n rhaid cyfaddef fod y flwyddyn o Ebrill 2020 i Fawrth 2021 wedi bod yn un anarferol iawn! Pan nes i ddod â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 at y Cabinet ddechrau Mawrth 2020 er mwyn ei gymeradwyo 'doedd gan neb unrhyw syniad beth oedd o'n blaenau.

Mae'r pandemig wedi dangos fod llawer o annhegwch yn dal i fodoli yng Ngwynedd fel yng ngweddill Cymru. Mae Covid-19 wedi taro rhai pobl yn galetach na'i gilydd, gan gynnwys pobl hŷn a phobl â chyflyrau neu salwch penodol. Gwelwyd hefyd ei fod wedi cael mwy o effaith ar bobl o leiafrifoedd ethnig sydd, yn ôl ystadegau, yn fwy tebygol o fod yn dioddef o anfantais economaidd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf daeth nifer o ffactorau eraill i'r amlwg e.e. gwaith y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, problemau economaidd, twf mewn cyflyrau iechyd meddwl ac unigrwydd, a'r ffordd wych y mae gweithwyr allweddol a gwirfoddolwyr wedi cefnogi cymunedau yn ystod y pandemig.

Gan fod pwysigrwydd materion cydraddoldeb wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y flwyddyn dwi'n falch o ddweud ein bod wedi gallu symud ymlaen gyda'r gwaith o fewn Amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb. Er ein bod wedi gorfod gwneud nifer o bethau mewn ffordd wahanol i'r hyn a fwriadwyd, pleser gennyf yw cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 sy'n dangos y gwaith da sydd wedi digwydd er gwaetha'r problemau.

Edrychwn ymlaen rwan at fyd sy'n raddol wella oherwydd y brechiad ond fyddwn ni ddim yn anghofio'r gwersi sydd wedi eu dysgu yn ystod y cyfnod unigryw yma.



Y Cynghorydd Nia Jeffreys,
Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol
Cyngor Gwynedd.



1. Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24' (y Cynllun) er mwyn parhau gyda'r gwaith o sicrhau tegwch i bawb. Mae hyn yn bodloni dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i leihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau penodol drwy ofyn i gyrrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddi-ddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Cynllun yn edrych ar degwch o ran g o nodweddion gwarchoddedig sef:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhywedd
- Hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Mae'r Cynllun gosod ac yn disgrifio'r gwaith fyddai o flaenoriaeth i'r Cyngor yn y maes yma am y bedair blynedd dan sylw, ac rydym wedi rhannu'r gwaith i bum amcan sef:

- **Amcan 1:** Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir.
- **Amcan 2:** Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.
- **Amcan 3:** Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.
- **Amcan 4:** Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.
- **Amcan 5:** Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Wrth gwrs, mae llawer wedi digwydd ers i'r ddogfen gael ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020. Er bod argyfwng Covid-19 ar droed, a'r Clo Mawr ar fin cychwyn, prin fyddai neb wedi meddwl y byddai wedi parhau i gael cymaint o effaith am y flwyddyn gyfan a thu hwnt.

Mae'n amlwg fod yr argyfwng wedi amlygu nifer o anghydraddoldebau ac mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ein gwasanaethau yn sgil hyn i sicrhau ein bod yn deg.

Rhywbeth arall dylanwadol yn ystod y flwyddyn fu'r ymgyrch "Mae bywydau du o bwys" yn sgil llofruddiaeth George Floyd yn Unol Daleithiau'r America. Fe amlygodd, wrth gwrs, yr angen i barhau i oresgyn unrhyw enghreifftiau o wahaniaethu ar sail hil.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dod â'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol i rym sy'n rhoi ddyletswydd arnom fel Cyngor i ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn golygu lleihau'r bwlch rhwng pobl sy'n byw gyda thlodi a gweddill cymdeithas. Mae golygu tlodi o bob math, boed hynny'n dlodi ariannol, tlodi digidol, anhawster i gael gwasanaethau oherwydd ble mae nhw'n byw neu unrhyw fath arall o dlodi.

Rydym wedi edrych ar 5 amcan y Cynllun yn sgil y digwyddiadau hyn. Er bod argyfwng Covid-19 wedi golygu ein bod yn gorfod gweithredu'n wahanol, e.e. rydym yn aml wedi gorfod gweithio ar-lein yn unig yn hytrach nag wyneb i wyneb, credwn fod ein hamcanion yn parhau i fod yn addas. Mae Amcan 2 - Canfod Barn - yn hollbwysig wrth symud ymlaen ac ystyried sut i weithredu. Byddwn yn sicrhau y bydd lle teitlwg yn cael ei roi i'r rhai sydd wedi eu heffeithio fwyaf, sef pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a gofalwyr, pobl ifanc, pobl hŷn a phobl sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae hyfforddi ein staff (Amcan 1) yn bwysig iawn wrth symud ymlaen a byddwn yn cynnwys gwybodaeth am effeithiau argyfwng Covid-19 ac anghenion grwpiau ethnig leiafrifol ayb. Felly hefyd efo'n hamcanion cyflogaeth (Amcan 4 a 5). Bydd Amcan 3 - Asesu Effaith - yn bwysig yn ogystal wrth symud ymlaen ac yn cynnwys yr wybodaeth uchod. Mewn ymateb i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol rydym fel rhanbarth wedi addasu ein dull o asesu sut effaith fydd newidiadau mewn polisiau a gwasanaethau yn ei gael. Bydd yn cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg er mwyn eu cryfhau ac osgoi dyblygu.

Er nad ydym wedi newid ein hamcanion mae ein dulliau o weithio a'r amserlenni yn anorfod wedi cael eu haddasu yn ystod 2020/21. Mae hyn yn golygu y bydd nifer o bwyntiau gweithredu yn cael eu cyflawni rhai misoedd yn ddiweddarach na'r bwriad gwreiddiol. Mae mwy o wybodaeth am hyn wrth i ni edrych ar yr amcanion mewn mwy o fanylder isod.

Mae'r adroddiad yma yn amlinellu, fesul amcan, beth yw'r pwyntiau gweithredu rydym wedi ymrwymo iddynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, beth oedden ni'n gobeithio'i gyflawni yn ystod 2020/21 a beth y wnaethom lwyddo i'w wneud mewn gwirionedd. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar y math o wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb ac yn dangos sut mae cydraddoldeb wedi gwreiddio o fewn gwaith dydd i ddydd y Cyngor.



Amcan 1:

Cryfhau a dyfnhau
capasiti ac ymrwymiad
staff ac Aelodau
Etholedig Cyngor
Gwynedd ym maes
Cydraddoldeb, trwy
sicrhau eu bod yn
derbyn yr hyfforddiant
cywir.

Fel nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb nid yw'r Cyngor yn credu fod pob aelod o staff yn llawn deall yr angen i flaenoriaethu ystyriaethau cydraddoldeb neu'n ansicr sut i wneud hynny'n iawn. Yn ogystal, mae ein deunydd hyfforddiant wedi dyddio ac rydym wedi adnabod yr angen i ail-edrych arnynt er mwyn eu gwneud yn fwy pwrpasol a sicrhau fod pobl yn fwy parod i'w cwblhau. Rydym hefyd wedi adnabod yr angen i blethu egwyddorion cydraddoldeb i mewn i hyfforddiant perthnasol arall hefyd, er mwyn gwreiddio cydraddoldeb yn ddyfnach o fewn gwaith y Cyngor.

Ein bwriad wrth wneud hyn ydi i sicrhau fod gan y gweithlu, beth bynnag eu swyddi, ddealltwriaeth drylwyr o'r maes a'u bod yn hyderus i weithredu ar eu dyletswydd tuag at unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr Aelodau Etholedig hefyd yn deall ac yn fwy hyderus yn eu dyletswydd i herio a gwneud penderfyniadau.

Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn creu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb fel maes craidd fydd yn amrywiol, blaengar, penodol ac o'r ansawdd uchaf. Bydd wedi ei deilwra'n briodol ar gyfer pob aelod o staff ar bob lefel, ynghyd ag Aelodau Etholedig, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u dyletswydd tuag at gydraddoldeb.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

- ystyried effeithiolrwydd ein hyfforddiant presennol a darganfod beth fyddai'n helpu staff i ddeall mwy am y maes
- cydweithio gyda Rheolwyr y Cyngor er mwyn darganfod pa ddulliau cyflwyno fyddai fwyaf addas ar gyfer anghenion staff amrywiol, e.e. staff rheng flaen, rheolwyr
- comisiynu darparwyr hyfforddiant gyda phrofiad bywyd o'r maes i ddarparu hyfforddiant arbenigol wyneb yn wyneb i'n staff yn ôl yr angen.

Beth wnaethom ni?

Yn anffodus, ni fu'n bosib gwneud unrhyw hyfforddiant yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn o ganlyniad i argyfwng Covid-19 gan nad oedd ein dulliau o weithredu wyneb-yn-wyneb arferol yn bosibl yn unol â'r canllawiau iechyd cyhoeddus newydd. Mae'n deg dweud hefyd fod blaenoriaethau wedi newid yn ystod y cyfnod. Bu'n rhaid i Wasanaethau roi blaenoriaeth i wasanaethu pobl Gwynedd drwy'r argyfwng Covid-19 yn hytrach na thrafod darpariaeth hyfforddiant briodol i staff. Mae'r amserlen ar gyfer hyn felly wedi llithro.

Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymgysylltu gyda staff i adnabod rhwystrau a rhesymau pam nad ydi pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant sydd ar gael yn y maes cydraddoldeb. Oherwydd argyfwng Covid-19, nid oeddem yn gallu gwneud unrhyw weithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff, felly gwahoddwyd staff i lenwi'r holiadur ar-lein. Lansiwyd yr holiadur ym mis Mawrth, gyda'r cyfnod ymgysylltu ar agor am 8 wythnos. Yn ogystal, buom yn gwneud gwaith i asesu sgiliau a mynediad Technoleg Gwybodaeth staff.

Rydym hefyd wedi bod yn treialu ystod o dechnegau dysgu o bell gan greu adnodd ar-lein ADoB (Amgylchedd Dysgu o Bell) sy'n llawer mwy nac 'e-ddysgu.' Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer yr hyfforddiant yw ein bod yn medru creu 'gofod dysgu' sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu (gan gynnwys dysgu ffurfiol, modiwlau, sesiynau Teams, Webinarau ayyb) yn ogystal ag adnoddau (dogfennau, llyfrau, fideo, clipiau awdio, dolenni i erthyglau) a fforymau trafod (fforymau ar-lein gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol). Gall unigolion reoli a theilwro eu dysgu eu hunain a chymryd cyfrifoldeb dros beth i'w astudio yn ogystal â sut a phryd. Mae'r amgylchedd yn 'fyw' ac yn esblygu, gan dyfu'n barhaus.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn symud ymlaen i ddatblygu'r rhaglen a deunyddiau dysgu, gan gynnwys diweddarau'r modiwl e-ddysgu yn ogystal ag adnabod hyfforddwr arbenigol gyda phrofiad uniongyrchol o'r maes cydraddoldeb, fel y bwriadwyd ei wneud yn 2020/21. Rydym yn adnabod nad ydi'r un datrysiad yn addas i bawb a fod aelodau staff sydd heb fynediad a gyfrifiaduron y Cyngor. Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaethau i'w helpu gyda'u cyfrifoldeb i sicrhau fod pob un o'u gweithwyr yn gallu elwa ar hyfforddiant. Byddwn yn gwneud hynny drwy baratoi dulliau amrywiol, sy'n addas i'r Gwasanaeth, fel fideos y gellir eu gwyllo ar ffonau clyfar, sesiynau wyneb-yn-wyneb neu ddarparu llechen ar fenthig.

Pwynt Gweithredu 2:

Mae gan Aelodau Etholedig fynediad i Borth Aelodau, sef mewnrwyd electroneg, sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a digwyddiadau sy'n berthnasol iddynt. Dros gyfnod y Cynllun byddwn yn diweddarau'r Porth gyda chanllawiau hyfforddi a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch hyrwyddo gan ddefnyddio e-newyddlen yr Aelodau, "Rhaeadr", i wella dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael ar y Porth.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

- Diweddarau'r Porth Aelodau gan roi gwybodaeth am gydraddoldeb megis gwybodaeth am hygyrchedd neu fudiadau sy'n gweithio efo pobl anabl. Byddem hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch dyletswyddau'r Cyngor e.e. yr angen i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb wrth wneud unrhyw newidiadau i wasanaethau neu bolisi.
- Gwneud gwaith er mwyn cynnwys gwybodaeth am y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd ar y Porth Aelodau hefyd.

Beth wnaethom ni?

Mae rhannau o'r gwaith yma wedi llithro oherwydd yr angen i gael arweiniad terfynol ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru cyn cychwyn y gwaith. Gohiriwyd cyhoeddi'r ddyletswydd o Ebrill 2020 i Ebrill 2021 ac felly gohiriwyd y gwaith yma yn ei sgil.

Rydym, drwy weithio â'n partneriaid yn rhanbarthol, wedi creu templed asesu effaith cyfansawdd newydd (gweler Amcan 3, Pwynt Gweithredu 1) ac rydym yn y broses o'i addasu ar gyfer defnydd y Cyngor.

Hefyd, bydd y Porth Aelodau yn cael ei lansio ar ei newydd wedd, fel Mewnrwyd Aelodau, yn fuan yn 2021/22. Bydd yr wybodaeth berthnasol yn cael ei osod ar y fewnrwyd newydd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn.

Pwynt Gweithredu 3:

"Ffordd Gwynedd" yw'r enw a roddwyd ar y "ffordd" y byddwn ni yng Nghyngor Gwynedd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Yn y pen draw, llwyddiant Ffordd Gwynedd fydd sefyllfa lle bydd profiadau unigolion wrth iddynt ddod i gyswllt â'r Cyngor yn rai positif ac yn cwrdd â'u hanghenion. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i weithio ar gryfhau'r elfen cydraddoldeb fel rhan o hyfforddiant "Ffordd Gwynedd". Felly hefyd gyda'r drefn Croesawu i'r Cyngor ar gyfer aelodau o staff newydd.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

- addasu'r hyfforddiant Ffordd Gwynedd i gynnwys mwy o ystyriaeth o faterion cydraddoldeb, ac
- addasu'r drefn Croesawu i'r Cyngor i gynnwys mwy am gydraddoldeb

Beth wnaethom ni?

Gwnaethpwyd gwaith er mwyn addasu hyfforddiant Ffordd Gwynedd ac mae'r hyfforddiant ar ei newydd wedd wedi dechrau cael ei gyflwyno i'n staff.

Rydym hefyd wedi gweithio ar gynnwys y drefn Croesawu i'r Cyngor, ac yn falch o ddweud fod cydraddoldeb bellach yn rhan greiddiol ohono.

Amcan 2:

Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.

Mae rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud yn gonglfaen i'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithio, ac mae hynny wrth gwrs yn cynnwys pobl gyda nodweddion gwarchoddedig gwahanol. Nid yw'n bosib gwneud hynny heb dderbyn a gweithredu ar farn arbenigol y bobl dan sylw. Er bod gwybodaeth wedi ei gasglu am bobl Gwynedd rydym wedi adnabod nad ydym fel Cyngor yn gwneud digon i sicrhau fod llais y bobl gyda nodweddion gwarchoddedig yn cael ei gynnwys yn naturiol o ddydd i ddydd wrth wneud penderfyniadau.

Ein bwriad wrth wneud hyn yw cael gwell dealltwriaeth o'r anghenion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n derbyn ein gwasanaethau oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig, a gallwn ddefnyddio hynny i wella ein gweithdrefnau. Gallwn ddefnyddio ein grwpiau rhwydweithio presennol er mwyn manteisio ar gyfarfodydd a digwyddiadau sydd eisoes wedi eu rhaglennu.

Pwynt Gweithredu 1:

Er mwyn deall unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig wrth iddynt ymwneud â'r Cyngor, byddwn yn cynnal arolwg cyhoeddus trylwyr. Bydd yr arolwg yn adnabod beth yw'r rhwystrau hynny a'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn ymateb. Bydd y gwaith yma'n cynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau er mwyn cyrraedd croestoriad o bobl, yn enwedig y rhai sydd ddim fel arfer yn cymryd rhan. Byddwn yn sicrhau cyfrinachedd y rhai sy'n cymryd rhan.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

- Cwblhau'r arolwg dan sylw erbyn diwedd Mawrth 2021.

Beth wnaethom ni?

Er bod argyfwng Covid-19 wedi golygu y bu'n rhaid addasu ein ffordd o weithio'n sylweddol, llwyddwyd i ymgymryd â gwaith ymchwil ar yr wybodaeth rydym yn ei ddal o arolygon blaenorol. Llwyddwyd hefyd i lunio cynllun prosiect, mapio budd-ddeiliaid a chysylltu â grwpiau a mudiadau i ddwyn eu sylw i'r ymarferiad.

Bu'r arolwg cyhoeddus ar agor rhwng 22 Chwefror a 30 Ebrill felly roedd ar agor i unrhyw un ei gwblhau am 10 wythnos. Nod yr ymarferiad oedd canfod os oedd pobl Gwynedd yn wynebu rhwystrau neu annhegwch wrth ymwneud â'r Cyngor. Agorwyd arolwg ar-lein/papur gyda Phanel Trigolion Gwynedd i'r un perwyl hefyd.

Yn ogystal, agorwyd arolwg i staff oedd yn anelu at gael gwybodaeth i'r un nod a'r arolwg cyhoeddus, gan hefyd gynnwys cwestiynau am weithio i'r Cyngor ac am yr hyfforddiant sydd ar gael.

Gwnaethom hefyd ymgymryd ag ymgyrch gynhwysfawr i annog unigolion i fanteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud drwy gynhyrchu deunyddiau megis clipiau fideo, clipiau BSL, copïau papur, datganiadau i'r wasg, erthyglau a thudalennau gwefan i hyrwyddo'r ymarferiad. Cynhyrchwyd a hyrwyddwyd copïau papur o'r holiadur ar gyfer yr unigolion hynny nad oedd ganddynt fynediad at y we a chopïau hawdd-eu-darllen hefyd.

Mae'r angen i ail-flaenoriaethu adnoddau ac edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio oherwydd argyfwng Covid-19 wedi arwain at rywfaint o lithriad yn yr amserlen o 2020/21 i 2021/22.

Oherwydd hyn, fe wnaethom ymestyn yr amser yr oedd yr holiadur ar agor hyd at ddiwedd Ebrill 2021 yn hytrach na Chwefror 2021. Roedd hyn yn caniatáu i fwy o drigolion Gwynedd ddweud eu dweud. Bwriedir cynnal ymarferion ymgysylltu amrywiol hefyd gydag unigolion a grwpiau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y dyfodol, os fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny.

Pwynt Gweithredu 2:

Byddwn yn gweithio i ddatblygu mwy o gyswllt gyda grwpiau neu unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy barhau i weithio efo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'i ehangu a gwneud cyswllt gyda grwpiau ychwanegol o bobl gyda nodweddion gwarchoddedig penodol er mwyn parhau i dderbyn barn amrywiol. Byddwn hefyd yn cymryd camau pellach i sicrhau fod ein Panel Trigolion yn cynnwys amrywiaeth o bobl gyda nodweddion gwarchoddedig, drwy dargedu yn ôl yr angen.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Mae hwn yn waith parhaol felly nid oedd unrhyw waith penodol wedi ei nodi ar gyfer y cyfnod yma.

Beth wnaethom ni?

Rydym wedi cyfathrebu gyda nifer o fudiadau i godi ymwybyddiaeth o'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb. Fodd bynnag, mae cyfathrebu gyda rhai mudiadau wedi bod yn heriol yn ystod y flwyddyn am nifer o resymau'n cynnwys nad oedd staff wrth eu gwaith oherwydd argyfwng Covid-19 neu fod unigolion heb fynediad i'r we.

Bydd y gwaith yma'n parhau yn ystod 2021/22 gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o gyfathrebu. Hefyd, os fydd y sefyllfa yn parhau i wella dylai fod pobl yn dychwelyd i'w gwaith a bydd yn haws i gysylltu gyda phobl.

Pwynt Gweithredu 3:

Drwy weithio gyda rheolwyr a phenaethiaid byddwn yn sicrhau fod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor yn deall anghenion pobl gyda nodweddion gwarchoddedig penodol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella ein gwasanaethau a chreu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Bydd angen adolygu ein Polisi Mynediad/Cydraddoldeb gan ystyried hefyd argymhellion gweithredol y Grŵp Craidd Cydraddoldeb.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Roedd y pwynt gweithredu yma'n waith parhaol ond fe wnaethom osod nod o adolygu'r Polisi Mynediad/Cydraddoldeb erbyn Medi 2021.

Beth wnaethom ni?

Mae'r gwaith i gyfarch y pwynt gweithredu hwn yn mynd yn ei flaen. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi bod yn rhoi cymorth i reolwyr wrth addasu gwasanaethau i gyd-fynd â chyfyngiadau argyfwng Covid-19. Mae hefyd wedi bod yn sicrhau fod gwybodaeth ar gael am effaith Covid-19 ar grwpiau nodwedd gwahanol.

Rhagwelir y bydd y Polisi Mynediad/Cydraddoldeb wedi ei gwblhau erbyn Medi 2021 fel y bwriadwyd.

Amcan 3:

Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Aseuadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

Er bod nifer ac ansawdd ein hasesiadau wedi gwella yn ystod cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2016-20 mae lle i wella ymhellach. O gyflawni'r asesiadau i'w llawn botensial gallwn sicrhau ein bod yn rhoi pob un o bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud fel Cyngor, drwy roi sylw dyledus i faterion cydraddoldeb. Mae'r Amcan yma'n clymu'n agos i Amcan 2 gan y bydd angen defnyddio'r gwaith ymgysylltu i wneud yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

Ein bwriad wrth wneud hynny yw sicrhau fod penderfyniadau wedi eu gwneud ar sail gadarn ar bob lefel yn y Cyngor gan fod staff ac Aelodau Etholedig yn llawn ddeall eu dyletswyddau ac yn gallu gweithredu arnynt.

Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn creu hyfforddiant ychwanegol penodol ar gyfer staff perthnasol ac Aelodau Etholedig. Bydd yn canolbwyntio ar fanteision Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac yn darparu arweiniad a chynghor ar eu cynnal er mwyn ystyried yn drylwyr unrhyw effeithiau posib ar bobl Gwynedd. Bydd cynnwys yr hyfforddiant yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Creu hyfforddiant penodol ar asesu effaith polisi neu weithdrefn newydd/wedi'i haddasu ar gyfer Aelodau.

Beth wnaethom ni?

Fel yn y sefyllfa gydag hyfforddiant Amcan 1 mae'r dyddiad cwblhau arfaethedig wedi llithro i Ebrill 2022 oherwydd yr angen i ganfod dulliau newydd o'i gyflwyno. Byddwn yn gweithio i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn 2021/22.

Pwynt Gweithredu 2:

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn cryfhau trefniadau drwy sicrhau fod Aelodau Etholedig yn gynyddol hyderus i herio ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel rhan naturiol o'u gwaith wrth dderbyn adroddiadau/gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd Cabinet, Pwyllgorau Craffu a chyfarfodydd Herio Perfformiad. Bydd yr hyfforddiant uchod yn allweddol i sicrhau llwyddiant y drefn hon a byddwn yn darparu canllawiau ar gyfer y cyfarfodydd gwahanol.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Cwblhau'r canllawiau ar gyfer Aelodau sy'n aelodau o wahanol gyfarfodydd erbyn Medi 2020.

Beth wnaethom ni?

Roedd llithriad hyd at Ebrill 2021 yn amserlen Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. O ganlyniad, gan fod angen cynnwys gwybodaeth ynghylch y ddyletswydd yn y canllawiau bu llithriad yn yr amserlen hwn hefyd - o Ebrill 2020 i Ebrill 2021. Mae'r gwaith wedi llithro ymhellach wedyn gan ein bod wedi penderfynu creu ffurflen Asesiad Effaith Cyfansawdd newydd wedi ei selio ar ffurflen ranbarthol newydd ac nad oedd hwnnw'n barod erbyn diwedd y flwyddyn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cwblhau'r gwaith yma'n ystod 2021/22.

Pwynt Gweithredu 3:

Byddwn yn parhau i gydweithio ag Adrannau'r Cyngor i sicrhau y caiff sylw dyledus ei roi i anghenion cydraddoldeb mewn unrhyw gyfundrefn i adnabod arbedion neu doriadau. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn byddwn yn sicrhau fod Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb amserol ac o ansawdd yn cael eu cynnal ac yn cyfrannu at y broses o adnabod unrhyw gynlluniau. Gobeithiwn y byddwn drwy hynny'n ymwybodol o unrhyw oblygiadau negyddol fyddai penderfyniad am doriad mewn cyllideb yn ei gael ar grwpiau lleiafrifol penodol yng Ngwynedd, a'u lleihau lle'n bosib.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Mae'r gwaith yma'n barhaol ac yn digwydd yn ôl yr angen.

Beth wnaethom ni?

Gan nad oedd angen adnabod arbedion neu doriadau o'r newydd yn y cyfnod dan sylw arbedion y tro hyn nid oedd angen gweithredu ar y pwynt penodol yma. Fodd bynnag, mae staff ac adrannau'r Cyngor wedi derbyn cymorth a chefnogaeth barhaol gydag aseidiadau effaith mewn meysydd eraill.

Amcan 4:

Gweithredu i leihau'r
bwlch tâl rhwng y
rhywiau ac adnabod
unrhyw fwlch tâl ar sail
unrhyw nodwedd arall.

Er bod y ddau awdit diweddaraf wedi dangos fod y cyngor yn rhoi tâl cyfartal i ferched a dynion fel ei gilydd, mae'r bwlch tâl ar gyfartaledd yn parhau, fel ymhob awdurdod lleol arall. Mae hyn, ar y cyfan, oherwydd bod merched yn llai tebygol o ymgeisio ac felly o gael cynnig swyddi ar raddfeydd cyflog uwch o fewn y Cyngor. Rydym eisoes wedi adnabod hyn fel mater o flaenoriaeth sydd angen sylw, a dyna pam fod y prosiect 'Merched mewn Arweinyddiaeth' wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

Er bod tystiolaeth genedlaethol yn dangos fod bylchau cyflog eraill yn bodoli, megis y gwahaniaeth rhwng pobl anabl a gweddill unrhyw weithlu, mae'n profi'n anodd casglu digon o wybodaeth o fewn y Cyngor gan ein bod yn ddibynnol ar aelodau staff i wirfoddoli'r wybodaeth. Fel ymhob sefydliad cyhoeddus arall, mae'r niferoedd sy'n gwneud hynny'n isel.

Ein bwriad wrth weithredu'r amcan yma yw i gael mwy o ferched yn ymgeisio am swyddi arweiniol, monitro a lleihau'r bwlch tâl yn ôl rhyw ac adnabod bylchau eraill gan gychwyn ar y gwaith i'w lliniaru.

Pwynt Gweithredu 1:

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar annog mwy o staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb dewisol er mwyn cynyddu faint o wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu gwaelodlin, adnabod bylchau yn ein gweithlu ac i gynnal archwiliadau ar sail nodweddion gwarchodedig eraill. Byddwn yn gwneud hyn drwy amrywiol dulliau yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys cynnal ymgyrch hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth yr aelodau staff sy'n newydd i'r system hunanwasanaeth.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Mae hyn yn waith fydd angen sylw parhaol am beth amser ac felly nid oedd gwaith penodol wedi ei nodi am y flwyddyn yma.

Beth wnaethom ni?

Yn debyg i sefydliadau eraill mae'r niferoedd sydd wedi rhoi'r wybodaeth yma'n isel. Mae'r niferoedd yn codi'n araf ond er gwaetha'r ymdrechion ychwanegol mae'r nifer dal yn isel gydag ychydig dros 40% wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Credwn mai'r prif reswm yw ei fod yn ddewisol a bod yr wybodaeth rydym ni'n holi amdano yn wybodaeth na fyddai bawb o bosib yn gyfforddus yn ei rannu.

Rydym wedi bod yn annog staff i lenwi holiadur er mwyn adnabod nodweddion gwarchodedig ein gweithlu ers i'r holiadur gael ei ddiweddarau rhyw dair blynedd yn ôl. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi:

- cyhoeddi erthygl yn Gair o Gyngor (newyddlen fewnol y Cyngor)
- sicrhau fod y Prif Weithredwr yn ei godi ac yn sôn amdano yn ystod sesiwn byw rhithiol ganddo ef i unrhyw staff y cyngor fyddai'n dymuno mynychu ar 17eg o Ragfyr
- annog staff sy'n newydd i'n system hunanwasanaeth i'w lenwi

Byddwn yn parhau i annog staff i gwblhau'r holiadur dros y flwyddyn nesaf trwy wahanol ddulliau megis:

- rhannu neges ddwywaith y flwyddyn i atgoffa pobl fod modd newid yr wybodaeth, e.e. mewn sefyllfa lle y bydd aelod o staff wedi priodi neu wedi cael salwch hirdymor
- atgoffa'r sawl sydd heb ei lenwi o'r angen i wneud hynny
- trafod gyda Phenaethiaid unigol i ganfod y dulliau gorau o gyrraedd eu gweithlu.

Pwynt Gweithredu 2:

Byddwn yn parhau i gynnal archwiliad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched, a thrwy gasglu'r data yn unol â Phwynt Gweithredu 1, yn gweithio i ddatblygu'n gallu i gynnal archwiliad o'r fath mewn perthynas â nodweddion eraill sydd wedi'u gwarchod. Yn ogystal, byddwn yn cynnal awdit tâl bob tair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dalu cyflog cyfartal. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at gael cynlluniau mewn lle i leihau unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr awdit.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

- Cynnal awdit ar y gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched (gender pay gap)
- Cynnal awdit tâl ar sail rhyw (equal pay audit)

Beth wnaethom ni?

Mae llithriad wedi bod yn yr amserlen ar gyfer cynnal y ddau awdit. Y bwriad yw ein bod ni'n cynnal yr awdit ar y gwahaniaeth cyflog yn fewnol yn y Cyngor, tra ein bod yn ôl yr arfer a'r angen yn talu ymgynghorydd allanol i gwblhau'r awdit tâl ar sail rhyw. Mae'r ddau ddarn gwaith yn dibynnu i raddau ar gynhyrchu'r un set o ddata, ac mae angen symleiddio'r drefn gyfrifiadurol o gynhyrchu'r wybodaeth. Mae peth oedi wedi bod ar yr elfen hon, sydd yn ei dro wedi taro'r amserlen. Ein bwriad yn y tymor byr yw parhau i geisio datrys y broblem fewnol wrth symud ymlaen gyda'r awdit allanol. Gobeithiwn allu cyflawni hyn erbyn canol yr Haf.

Pwynt Gweithredu 3:

Mae gwaith hefyd wedi bod yn digwydd fel rhan o brosiect Merched mewn Arweinyddiaeth (sy'n un o brosiectau Cynllun y Cyngor 2018-23). Rydym wedi adnabod bod y nifer o ferched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur o isel o ystyried mai merched sy'n ffurfio 70% o'r gweithlu cyfan. Prif amcan y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi arweiniol o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith i ddenu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

- Adolygu amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog Merched Mewn Arweinyddiaeth ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.
- Gweithredu rhaglen waith sy'n cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Beth wnaethom ni?

Trefnwyd cyfres o fforymau trafod i ferched y cyngor ac Aelodau Etholedig gyda rhai o uwch swyddogion benywaidd y Cyngor yn hwyluso. Trafodwyd pynciau megis profiadau o arwain a rheoli yn ystod yr argyfwng Covid-19 a chafwyd trafodaeth am baratoi ar gyfer swyddi uwch. Mynychodd cyfanswm o 40 o ferched. Cafwyd adborth cadarnhaol am y sesiynau a mynegwyd y byddai cynnal mwy ohonynt o fudd.

Mae'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r "sgyrsiau dros baned" hyn wedi eu cofnodi ac o ganlyniad trefnwyd gweithgareddau pellach - sef sesiynau ar "imposter syndrome" ble bu i gyfanswm o 79 o staff, a 18 o Aelodau Etholedig fynychu. Mae trefniadau pellach ar y gweill ar gyfer cyflwyno rhaglen fentora i arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd y Cyngor fel rhan o'r rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched tra bo'r "sgyrsiau dros baned" wedi'i sefydlu fel trefniant parhaus.

Mae'r gwaith o adolygu trefniadau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol wedi llithro yn ystod y flwyddyn ond mae'r Grŵp Prosiect wedi derbyn cyflwyniad ar faterion i'w hystyried ymhellach gan y Rheolwr Adnoddau Dynol.

Amcan 5:

Gweithredu i ddenu
amrediad o ymgeiswyr
er mwyn cynyddu
amrywiaeth ein gweithlu.

Mae'r Cyngor yn un o brif gyflogwyr y sir. Mae'n bwysig felly ein bod yn gweithio tuag at sicrhau fod ein gweithlu'n adlewyrchu poblogaeth oed gweithiol Gwynedd cymaint ag y mae'n bosib. Mae'r Cabinet wedi nodi hyn fel un o'u prif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun yn eu trafodaeth gychwynnol. Rydym eisoes wedi nodi bod diffyg data am nodweddion gwarchoddedig ein gweithlu, ac yn anffodus mae'r diffyg yma'n creu problemau wrth i ni geisio gweithredu'n addas. Er mwyn cyflawni Amcan 5 felly, bydd llwyddiant y gwaith sydd wedi'i amlinellu uchod o dan Amcan 4 yn greiddiol. Dylid nodi nad oes gennym unrhyw fwriad i wneud y gwaith mewn ffordd artiffisial. Yn hytrach byddwn yn mynd ati i amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl o wahanol gefndiroedd, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu denu'r dewis mwyaf posib o ymgeiswyr. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn canfod y person gorau ar gyfer pob swydd er mwyn ein galluogi i gynnig y gwasanaeth gorau a chyson ar draws y sir ac ateb anghenion y boblogaeth.

Ein bwriad wrth wneud hynny yw sicrhau gwell amrywiaeth ymysg yr ymgeiswyr am swyddi fydd yn arwain at weithlu sy'n adlewyrchu ein poblogaeth.

Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu o'r holiadur cydraddoldeb (gweler Amcan 4, Pwynt Gweithredu 1) ac yn cynnal ymchwil ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a'n staff er mwyn canfod unrhyw ffactorau sy'n rhwystro carfannau penodol o bobl â nodweddion gwarchoddedig rhag ymgeisio am swyddi. Byddwn hefyd yn gweithio er mwyn darganfod ffyrdd o'u hannog i ymgeisio e.e. drwy hysbysebu swyddi'n ehangach nag ar wefan y Cyngor yn unig er mwyn denu ystod ehangach o geisiadau.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Mae'r gwaith yma'n barhaol ond roeddem yn anelu i gwblhau'r arolwg cyhoeddus er mwyn adnabod beth yw'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd â gwahanol nodweddion (yn unol ag Amcan 2, Pwynt Gweithredu 1) cyn diwedd y flwyddyn.

Beth wnaethom ni?

Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o ymgysylltu â staff a'r cyhoedd er mwyn deall beth sydd yn rhwystro pobl â nodweddion gwarchoddedig rhag ymgeisio am swyddi â'r Cyngor fel rhan o'r gwaith a amlinellir yn Amcan 2. Fodd bynnag, fel eglurwyd o dan Amcan 2, mae'r angen i ail-flaenoriaethu adnoddau ac edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio oherwydd bod argyfwng Covid-19 wedi arwain at lithriad yn yr amserlen o 2020/21 i 2021/22.

Oherwydd hyn, penderfynwyd ymestyn yr amser yr oedd yr holiadur ar agor i roi rhagor o amser i drigolion Gwynedd allu cyfrannu a dweud eu dweud. Roedd hyn hefyd yn caniatáu mwy o amser i gyrraedd grwpiau sy'n ddim yn aml yn cael eu clywed. Gobeithiwn hefyd allu cynnal ymarferion ymgysylltu amrywiol gydag unigolion a grwpiau ar lein neu wyneb yn wyneb os fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny.

Pwynt Gweithredu 2:

Gweithio ar y cyd gyda chyrff cyhoeddus eraill o fewn ein rhanbarth megis Heddlu Gogledd Cymru neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cyfarch unrhyw rwystrau a amlygir. Gallai hyn ddarparu mynediad at amrywiaeth ehangach o bobl hefyd, o gofio nad yw proffil cydraddoldeb bob gweithlu'n debygol o fod yr un fath.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Mae'r gwaith yma'n barhaol felly nid oedd gwaith penodol wedi ei glustnodi ar gyfer y flwyddyn yma.

Beth wnaethom ni?

Roeddem yn bwriadu cydweithio ar draws Gogledd Cymru i gynnal digwyddiadau fyddai'n annog pobl o gefndiroedd amrywiol i geisio am waith yn y sector cyhoeddus. Byddai'r cyfarfodydd yn delio gyda'r rhagdybiaethau anghywir sydd gan rhai pobl ynglŷn â gweithio yn y sector ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol megis cymorth ar sut i lenwi ffurflen gais yn effeithiol. Ni fu'n bosib symud y gwaith yma ymlaen gan ei fod yn cael ei drefnu gan is-grŵp o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru a bod gwaith yn ymwneud â'r argyfwng wedi golygu na fu'n bosib iddynt gyfarfod. Bydd y Rhwydwaith yn ail ystyried eu blaenoriaethau i'r dyfodol ac yn penderfynu a fydd y gwaith yma'n parhau ar yr un ffurf.

Pwynt Gweithredu 3:

Blaenoriaethu gweithio tuag at gyrraedd Lefel 2 y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' er mwyn bod yn 'Gyflogwr Hyderus' ac edrych ar ddod yn Bencampwr Stonewall.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2020/21?

Nid oedd unrhyw waith penodol wedi ei nodi ar gyfer y flwyddyn yma.

Beth wnaethom ni?

Mae'r gwaith o gyrraedd Lefel 2 yn mynd yn ei flaen a rhagwelir y byddwn yn cyrraedd yr amserlen (Medi 2022). Rydym eisoes wedi adnabod yr hyn fydd angen ei gyflawni er mwyn cyrraedd Lefel 2 y cynllun, gyda'r camau yn cwmpasu'r themâu canlynol:

- Ceisio dylanwadu ar sefydliadau eraill i fod yn hyderus o ran anabledd
- Sicrhau fod gan staff y mynediad at hyfforddiant pwrpasol yn y maes
- Parhau i gymryd camau i gael gwared ar rwystrau allai fod yn atal datblygiad mewn swydd ar gyfer staff anabl
- Datblygu ymhellach y cyfleoedd sydd yna i staff anabl allu rhoi adborth, trwy annog sgysiau rhwng rheolwyr a staff ond hefyd trwy ddatblygu rhwydweithiau penodol.
- Datblygu ymhellach sut rydym yn recriwtio a phenodi staff anabl.

Nid ydym eto wedi cwblhau'n llawn y dasg o ddeall aelodaeth Stonewall yn well; mae'r gwaith hwnnw yn parhau, gyda phenderfyniad ynghylch a ydym am ddilyn y trywydd penodol hwn ai peidio i ddod yn ystod y flwyddyn hon.

Gwybodaeth

Mae hi'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adrodd ar yr wybodaeth rydym yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb yn flyneddol.

Monitro Manylion Cydraddoldeb Staff

Oherwydd bod llenwi'r ffurflen yn ddewisol (yn unol â'r canllawiau) nid oes digon o bobl wedi ei llenwi. Rydym wedi adnabod hyn, ac wedi addo gweithio i annog mwy o bobl i wneud (Amcan 4, Pwynt Gweithredu 1). Pan fydd gennym wybodaeth ddigonol byddwn yn gallu adnabod bylchau cyflog, yn gyntaf rhwng y rhywiau, ac yna'n fwy eang (Amcan 4, Pwynt Gweithredu 2) a gweld os oes angen gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu (Amcan 5). Bwriad hyn fydd adnabod a delio ag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, gan hybu cyfleoedd cyfartal a chreu perthynas well rhwng pobl hefo nodwedd warchoddedig penodol a phobl sydd heb y nodweddion yna.

Mae'r wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu i'w weld yn Atodiad 1.



Cwynion a phryderon

Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhoi cyngor ar unrhyw gwyn sy'n cael ei wneud ar sail nodwedd warchoddedig neu ddyletswydd cydraddoldeb. Rydym hefyd yn edrych am batrymau'n flynyddol fydd hyn yn ein galluogi i adnabod a dysgu gwersi. Mae'n sicrhau ein bod yn gallu adnabod a delio ag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfleoedd cyfartal a hybu perthnasau da rhwng pobl sydd â nodwedd benodol a'r rhai sydd ddim.

Roedd y rhan fwyaf o'r cwynion a phryderon ar sail cydraddoldeb y flwyddyn yma yn gwneud honiadau o hiliaeth yn erbyn y Cyngor neu swyddogion penodol. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini yn ymwneud ag argyfwng Covid-19 ac yn honni nad oedd y Cyngor wedi gweithredu yn addas oherwydd eu cenedligrwydd. Derbyniwyd 2 hefyd oedd yn honni hiliaeth ar sail eu bod o grŵp ethnig leiafrifol, gan gynnwys un aeth at yr Ombwdsmon. Ymchwiliwyd i'r cwynion hyn i gyd a chanfod nad oedd sail iddynt oherwydd bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth neu ganllawiau. Mae'r Cyngor yn ystyried pa gamau i'w cymryd yn sgil y patrwm yma.

Derbyniwyd cwynion hefyd ar sail anabledd ond nid oedd unrhyw batrymau i'w adnabod.



Ymgysylltu

Er bod y Cyngor yn ymgysylltu'n aml gyda'r cyhoedd am bob math o bynciau rydym wedi sylweddoli nad oes gennym ddigon o wybodaeth benodol am yr union rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd wrth ymwneud â'r Cyngor. Mae Amcan 2 yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â hyn. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i asesu effaith ein gwasanaethau sy'n bodloni tri nod y ddyletswydd (sef cael gwared ar wahaniaeth, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfle cyfartal a hybu perthnasau da).



Data

Bu i Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, ar y cyd gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, greu dogfen ddata rhanbarthol yn 2019/20 ar yr un llinellau ag *A yw Cymru'n Decach?* Llywodraeth Cymru ar gyfer creu'r Cynllun Cydraddoldeb 2020-21. Mae'n dangos fod diffyg gwybodaeth ar gael mewn rhai meysydd craidd ar lefel sirol neu ranbarthol. Mae'n debygol fod hyn yn deillio yn rhannol o'r niferoedd isel. Ond mae gwybodaeth ddefnyddiol sy'n dangos sut fod y rhanbarth neu'r sir yn cymharu gyda Chymru yn ei gyfanrwydd mewn meysydd fel addysg, tai ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar gyfer creu asesiadau effaith sy'n bodloni tri nod y ddyletswydd (sef cael gwared ar wahaniaeth, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfle cyfartal a hybu perthnasau da). Ond rydym yn ymwybodol fod bylchau yn yr wybodaeth yma yn enwedig ar lefel sirol ac mae hyn yn rhywbeth fyddwn ni'n edrych arno'n symud ymlaen.



Gwaith dydd i ddydd

Oherwydd bod bob un ohonom yn berchen ar o leiaf 5 nodwedd warchoddedig nid oes unrhyw ran o waith y Cyngor sydd ddim yn cyfrannu tuag at lesiant ar sail cydraddoldeb. Ond mae dipyn o waith dydd i ddydd y Cyngor hefyd yn ymwneud â diwallu anghenion pobl hefo nodweddion gwarchoddedig penodol ac ymateb i'r 3 dyletswydd gyffredinol. Er bod pethau wedi bod yn anodd dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i wneud hynny, ac mae gweithio gyda phartneriaid o bob math wedi bod yn greiddiol. Mae'r Cyngor yn ddyledus iawn i bob mudiad ac unigolyn sydd wedi bod ynghlwm a'r gwaith yma, yn enwedig yr holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi gwasanaeth amhrisiadwy yn ystod y Cyfnodau Clo.

Ceir esiamplau o'r gwaith o dan y 3 dyletswydd isod:

a) Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf.

Mae gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i ymateb i'r ddyletswydd yma. Mae gennym bolisiau i wahardd aflonyddu ac erledigaeth e.e. polisi canu'r gloch a pholisi urddas yn y gwaith ynghyd â rhai i atal gwahaniaethu yn y gweithle e.e. polisi menopôs a pholisi trawsryweddol. Mae gennym hefyd wrth gwrs weithdrefnau i sicrhau parch ac urddas tuag at ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Bydd y Polisi Cydraddoldeb a'r Polisi Mynediad yn cael eu diweddarau yn ystod 2021/22 yn unol ag Amcan 2 uchod.

Mae'r asesiadau effaith sy'n cael eu gwneud ar newidiadau i bolisiau neu brosiectau yn ein helpu i adnabod gwahaniaethu anghyfreithlon posib a'u lliniaru. Gan ein bod wedi gorfod addasu ein ffyrdd o weithio er mwyn diogelwch dros gyfnodau clo roedd asesu'r effaith yn gymorth i sicrhau nad oedd y newidiadau'n gwahaniaethu yn erbyn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb penodol.

Ceisiwyd sicrhau fod y tudalennau ar wefan y Cyngor oedd yn rhoi gwybodaeth am Covid-19 mor hygyrch â phosib, drwy gynnwys clipiau sain mewn Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal bu'r Cyngor yn gweithio gyda chwmni *Recite* er mwyn gwneud yn siŵr fod yr wybodaeth sydd ar y wefan yn y fformat mwyaf addas iddyn nhw - roedd yn bosib newid maint y testun, newid lliw a chyferbyniad y testun a'r cefndir. Roedd yna hefyd ddarlennydd sgrin mewn sawl iaith wahanol ynghyd â fersiwn hawdd ei ddarllen.

b) Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

Er mwyn gwella'r cyfleoedd addysgol i ddysgwyr a'u teuluoedd defnyddiodd Storiell ym Mangor yr adnoddau hanesyddol sydd ganddyn nhw yn yr amgueddfa ar gychwyn i greu taflenni gwybodaeth ar gyfer y teulu cyfan ac i helpu efo addysgu gartref.

Mae tlodi bwyd yn gallu effeithio rhai carfannau hefo nodweddion cydraddoldeb yn fwy nag eraill, ac yn sicr daeth yr argyfwng Covid-19 a'r gwahaniaethau l'r amlwg fel sydd wedi ei ddatgan eisoes. Roedd y Cyngor yn falch o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, cwmnïau ac unigolion eraill i helpu i ddosbarthu bwyd mewn gwahanol ffyrdd:

- Bu'r Cyngor yn cefnogi gwaith y banciau bwyd yn ystod y Cyfnod Clo drwy ddosbarthu bwyd o geginau ysgolion, a fyddai wedi mynd yn wastraff fel arall. Yn ogystal, defnyddiwyd dwy o ysgolion y sir, Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon ac Ysgol Hafod Lon ym Mhenrhyndeudraeth, fel hwb i gasglu a dosbarthu rhoddion gan gwmnïau ac unigolion, ynghyd â bwyd wedi ei archebu o'r newydd gan y Cyngor. Rhannwyd y bwyd i'r Banciau Bwyd ar draws y sir gan Adra, darparwr tai cymdeithasol Gwynedd a gogledd Cymru.
- Bu'r Cyngor hefyd yn rhan allweddol o gynllun dosbarthu bocsys bwyd Llywodraeth Cymru i'r bron i 3,500 o bobl ar draws y sir oedd yn gorfod gwarchod a hunan ynysu, gan sicrhau nad oedd unrhyw unigolyn yn wynebu rhwystr i dderbyn bwyd oherwydd ei amgylchiadau personol.
- I'r bobl hynny nad oedd yn syrthio i gategori gwarchod a hunan-ynysu Llywodraeth Cymru, ond yn dal i fethu a chael mynediad at fwyd, fe sefydlodd y Cyngor gynllun pwrpasol o'r enw Neges ar y cyd â Menter Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a chwmni Dylan's. Dosbarthwyd pecyn bwyd wythnosol i bobl ifanc oedd newydd adael amgylchiadau gofal, pobl ddi-gartref mewn llety dros dro, a phlant a'u teuluoedd gydag angen gofal ychwanegol.



Hefyd i sicrhau diogelwch pobl yn ystod y Cyfnod Clo bu'r Cyngor yn cynnig cefnogaeth i'r grwpiau cyfaill oedd yn gwneud y gwaith amhrisiadwy yn eu bröydd o wneud pob math o gymwynasau i'r trigolion oedd yn hunan ynysu e.e. siopa, nôl meddyginiaeth a mynd â'r ci am dro. Y brif gefnogaeth oedd drwy ganfod cyfarpar diogelu personol (PPE) iddynt, yn enwedig ar amser pan roedd prinder mawr ohono. Adra oedd yn dosbarthu'r cyfarpar yma hefyd.

Fel modd o dactlo tlodi mislif ymysg merched, roedd Cyngor Gwynedd yn gallu rhedeg ymgyrchoedd i sicrhau mynediad at nwyddau mislif gydag urddas, diolch i grant gan Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn siawns i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau amgylcheddol cynnyrch y gellir ei ail-ddefnyddio. Roedd y gwaith yn cynnwys dargyfeirio'r cyflenwad fyddai mewn llyfrgelloedd fel arfer, fel bod cyflenwad am ddim ar gael yn y banciau bwyd a dosbarthwyd nwyddau o'r ysgolion i'r disgyblion oedd eu hangen. Bu hysbysebion ar y gwefannau cymdeithasol i annog pobl ifanc difreintiedig sydd ddim mewn cyswllt â'r gyfundrefn addysg brif-ffrwd i gysylltu i gael nwyddau mislif hefyd a pharhaodd y drefn o'u ddosbarthu drwy 6 canolfan cefnogi teuluoedd Canolfannau Dechrau'n Deg.



I wireddu ei weledigaeth o sicrhau bod pob un o ddisgyblion y sir yn medru cyflawni ei llawn botensial mae Cabinet Cyngor Gwynedd yn anelu i ddarparu gliniaduron neu ddyfeisiau electronig i holl ddisgyblion ysgol y sir. Y bwriad yw rhoi gliniadur i ddisgyblion blwyddyn 3 i fyny a llechen i blant cyfnod sylfaen dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu'n rhannol yn y blynyddoedd cynnar gan Lywodraeth Cymru. Disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 fydd y cyntaf i dderbyn y cyfarpar, gyda'r broses yn cychwyn yn ystod 2020/21. Yna bydd y rhaglen yn cael ei ymestyn i weddill disgyblion Gwynedd.

Mae delio â digartrefedd yn rhan bwysig o sicrhau cydraddoldeb gan fod perthynas rhwng rhai nodweddion cydraddoldeb penodol fel anabledd ac ethnigrwydd leiafrifol a digartrefedd. Mae cynnydd o bron i 40% wedi bod yng nghanran digartrefedd yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Gyda chynnydd mewn achosion Credyd Cynhwysol eleni a cholli gwaith o ganlyniad i argyfwng Covid-19, mae yna alw am lety a gwasanaeth fel hyn yn fwy nag erioed. Fel rhan o weithredu Strategaeth Tai Gwynedd 2019-22 ymgwymerwyd â nifer o gynlluniau ar gyfer diwallu'r anghenion cynyddol ym maes digartrefedd:

- Cychwynnodd cynllun tai newydd arloesol yn Hydref 2020, y prosiect adeiladu cartrefi cyntaf gan Gyngor Gwynedd ers dros chwarter canrif. Adeiladwyd pedair uned ecogyfeillgar (fydd yn defnyddio 90% yn llai o ynni na chartrefi traddodiadol, gan gadw costau'n isel i denantiaid) ar safle hen adeilad Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon. Eu pwrpas yw cartrefu'r rhai sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd yn ein cymunedau.
- Mewn cynllun ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Adra, darparwr tai gogledd Cymru, cynigwyd cartrefi cysurus ac addas i bobl hŷn lleol yn ardal Llŷn ym mis Tachwedd 2020. Roedd yn golygu datblygu 28 o fflatiau pwrpasol ar hen safle adeiladau Cyngor Gwynedd yn Frondeg, Pwllheli, lleoliad cyfleus gerllaw canol y dref. Mae'r datblygiad yn ymateb i'r prinder llety addas i bobl leol 55 oed a hŷn a/neu ar gyfer unrhyw un sydd ag anghenion gofal.
- Ym mis Rhagfyr derbyniwyd caniatâd cynllunio er mwyn ail ddatblygu'r safle segur ym Mangor i fod yn 12 o fflatiau gyda chefnogaeth i atal digartrefedd yng Ngwynedd. Adra sy'n arwain ar y datblygiad, tra y bydd yr adeilad yn cael ei reoli mewn partneriaeth gan Gyngor Gwynedd a Thai Gogledd Cymru.
- Ym mis Ionawr mi wnaeth Cabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo adroddiad sydd yn gofyn am ganiatâd i fenthycu £15.4 miliwn er mwyn prynu oddeutu 100 o dai er mwyn eu gosod ar rent fforddiadwy i bobl lrol dros y chwe blynedd nesaf.
- Er mwyn cynnig llety a chyfleoedd i bobl ifanc bregus i ddatblygu eu sgiliau bywyd mae cyllid sylweddol wedi ei sicrhau ar gyfer cynllun adfywio arloesol i drawsnewid 2 adeilad amlwg ar y Maes yng Nghaernarfon. Mae'r cynllun gwerth £950,000 yn cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd â'r elusen cefnogi pobl ifanc GISDA gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn creu pedwar o fflatiau ar gyfer hyd at bump o bobl ifanc bregus, gofod hyfforddi a swyddfeydd i GISDA. Bydd y caffî hyfforddi presennol yn cael estyniad i gefnogi mwy o bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ymuno â'r gweithlu lleol. Mae'r prosiect yn cefnogi ymdrechion y Cyngor i wneud yn siŵr fod pobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad i'r gefnogaeth maen nhw eu hangen gan weithwyr profiadol GISDA fel eu bod yn medru byw'n annibynnol a chyflawni eu llawn botensial yn eu cymunedau.



Datblygiad Frondeg, Pwllheli

I gynorthwyo i gynnal llesiant ac iechyd meddwl eu disgyblion dechreuodd ysgolion cynradd y Cyngor, ar ddiwedd 2020, ddefnyddio cyfres o fideos dyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y fideos wedi eu paratoi gan Leisa Mererid, athrawes yoga ac ymwybyddiaeth ofalgar ac wedi eu hariannu gan Hunaniaith: Menter Iaith Gwynedd.

Er mwyn cychwyn 2021 mewn ffordd bositif gan gefnogi llesiant meddyliol yn dilyn blwyddyn digon anodd i bawb cynigwyd gweithgareddau creadigol ar-lein gan Dîm Llesiant Cyngor Gwynedd a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r prosiect 'Llesiant i Mi', wedi'i seilio o amgylch y 'pum ffordd at les', sef pum gweithred sy'n cyfrannu'n bositif tuag at lesiant meddyliol - cysylltu, dal i ddysgu, bod yn actif, sylwgar a rhoi. Roedd y rhaglen yn cael ei gynnis drwy grŵp Facebook caeedig gyda thîm bychan yn rhannu eu profiadau a'u syniadau o ran creadigrwydd a llesiant. Nid rhaglen o driniaeth na therapi mohono ond yn hytrach mae'n gynllun i ysbrydoli a rhannu syniadau a all fod o gefnogaeth i bobl Gwynedd.

Oherwydd cyfyngiadau diogelwch yn ystod yr argyfwng mae'r Cyngor wedi gorfod addasu ei ffyrdd o weithio yn sylweddol. Wrth wneud hynny rydym wedi ceisio sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn y ffordd mwyaf addas posib ar gyfer pobl gydag amrywiol anghenion. Dyma gwpl o esiamplau:

- Yn dilyn rhai misoedd ar gau oherwydd y Clo Mawr ail-gychwynwyd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar ddiwedd mis Mehefin mewn ffyrdd diogel oedd yn addas ar gyfer pawb. Roedd yn rhaid cysylltu gyda'r llyfrgell ymlaen llaw i archebu llyfrau a'r llyfrgell wedyn yn cysylltu gyda'r defnyddwyr pan oedd y llyfrau yn barod i'w casglu. Gan adnabod na fyddai hynny'n addas i bawb trefnwyd i lyfrau gael eu cludo i'r cartref hefyd. Gan fod y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref, sy'n gweithio mewn ffordd ychydig yn wahanol, yn fwy addas i rai pobl, bu'n bosib ei ailsefydlu yn ddiweddarach hefyd.

- Tua'r un pryd cychwynnodd sesiynau byw ar-lein i bobl ifanc gan nad oedd Gwasanaethau Ieuencid yn gallu cyfarfod wyneb-yn-wyneb. Cofrestrodd 100 o bobl ifanc o fewn yr wythnos gyntaf yn unig. Mae'r sesiynau'n cael eu rhedeg gan weithwyr ieuencid Gwynedd sydd wedi eu hyfforddi i gynnal sesiynau ar-lein gyda phobl ifanc.

c) Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

Dathlodd y Cyngor Wythnos Gofalwyr ar 8-14 Mehefin 2020 mewn ffordd wahanol i'r arfer. Yn hytrach na chyfarfodydd ar draws y sir, postiwyd cyfres o fideos ar wefannau cymdeithasol er mwyn dathlu a chydabod cyfraniad gwerthfawr y gofalwyr. Amcangyfrifir bod oddeutu 12,500 o ofalwyr yng Ngwynedd. Dyma'r bobol sydd yn edrych ar ôl aelod o'r teulu neu ffrindiau (yr hyn a elwir weithiau yn ofalwyr di-dâl) ac yn aml iawn maent yn ofalwyr cudd.

Roedd gan Fis Hanes Pobl Dduon ym Medi 2020 ing ychwanegol y flwyddyn yma hefyd yn sgil marwolaeth George Floyd a'r ymgyrch "Mae Bywydau Pobl Ddu o Bwys". Gofynnodd Cyngor Gwynedd i bobl anfon straeon ysbrydoledig, lluniau ac atgofion am bobl ddu, ac o'r cymunedau lleiafrif ethnig eraill, sydd wedi cyfoethogi ein cymunedau mewn sawl ffordd. Bydd y rhain yn cael eu coladu'n electronig ac yn cael eu cadw fel sylfaen ar gyfer mentrau yn y dyfodol i ddathlu amrywiaeth Gwynedd.

Er nad oedd hi'n bosib i fynychu digwyddiad y tro hyn, nododd Cyngor Gwynedd Diwrnod Coffau'r Holocaust ar 27 Ionawr 2021 drwy roi neges ar y gwefannau cymdeithasol. Credwn fod angen nodi'r diwrnod yma yn fwy nag erioed. Mae'r diwrnod yn gyfle i gymunedau fyfyrion ar sut y gall pob un ohonom wneud dyfodol gwell, a mwy diogel, i bawb trwy ddysgu o'r gorffennol. Mae'n bwysig cofio fod ystod o bobl wedi eu heffeithio gan gynnwys Iddewon, Tystion Jehova, dynion hoyw, pobl o dras sipsiwn a Roma a phobl anabl.

Mae DementiaGo yn rhaglen gweithgaredd corfforol ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael diagnosis a'u gofalwyr, teulu a ffrindiau. Gyda dyfodiad argyfwng Covid-19 roedd yn rhaid i sesiynau wyneb yn wyneb ddod i ben gan gynnwys 13 o ddsbarthiadau ymarferion ledled Gwynedd, digwyddiadau chwaraeon cymunedol, anturiaethau awyr agored, dawnsfeydd, sesiynau ymwybyddiaeth a digwyddiadau arbennig. Ymatebodd y tîm i'r argyfwng gan gynnig cefnogaeth barhaus i aelodau yn cynnwys gweithgareddau ar-lein gan gynnwys gwefan newydd hawdd ei ddefnyddio. Roedd yn cynnwys gweithgareddau cefnogol, ac yn rhoi pobl mewn cyswllt â gwasanaethau a sefydliadau yng Ngwynedd all eu helpu a'u cefnogi. Er mwyn cyfleu'r holl wahanol agweddau, dewisodd y tîm, mewn ymgynghoriad â'u haelodau, enw newydd - Dementia Actif Gwynedd. Ariannwyd y wefan trwy roddion gan deuluoedd er cof am anwyliaid ac mae'r Cyngor yn hynod ddiolchgar amdanynt.

Mae Blaentroed yn gynllun arloesol cyffrous, sy'n cynnig cyfnod o waith a hyfforddiant i bobl ifanc yng Ngwynedd sydd heb swydd, a chyfle i fusnesau lleol gael help heb gost wrth iddynt ail-agor ac adfer. Amcan y prosiect ydi ychwanegu gwerth i gynllun Kickstart Llywodraeth Cymru, gwerth £2bn, sy'n anelu i greu miloedd o gyfleoedd gwaith am chwe mis i bobl ifanc heb fod angen i'r cyflogwr gyfrannu unrhyw arian. Ond gan y gall fod yn anodd i fusnesau llai eu maint fanteisio ar y cynllun a bod cynifer o fusnesau bach yng Ngwynedd, sefydlwyd partneriaeth rhwng mentrau cymdeithasol yn Nantlle, Ogwen a Bro Ffestiniog ynghyd â Chyngor Gwynedd a Grŵp Llandrillo Menai i'w wneud yn haws i bobl ifanc a busnesau lleol gymryd rhan.

Mae Cyngor Gwynedd, ar ran ystod o fudd-ddeiliaid, yn datblygu enwebiad i geisio sicrhau statws safle treftadaeth y byd i dirwedd llechi gogledd orllewin Cymru sy'n cynnwys chwe ardal allweddol. Ochr yn ochr â hyn mae'r Cyngor wedi sicrhau arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cynllun Lle Arbennig, Cronfa Partneriaeth Eryri ac Arloesi Gwynedd Wledig, i greu Cynllun 'LleCHI' sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu cymunedol, grymuso lleol, gwella cyrchfannau, adfywio cymunedol a chodi balchder. Enghraifft ddiweddar o'i waith mewn ysgolion cynradd ydi'r gwaith celf disgyblion Ysgol y Felinheli ar wal amddiffyn rhag llifogydd yn y pentref. Ar y lefel uwchradd mae 15 o bobl ifanc ardaloedd Llechi Cymru wedi dod at ei gilydd, ar y cyd ag Amgueddfa Lechi Cymru, i gael llu bo brofiadau amrywiol megis dod yn Lysgenhadon Ifanc i'r Cais Treftadaeth Byd. Mae profiadau eraill yn cynnwys creu blogs, dylunio logo, cyfarfod rhithiol gydag Asesydd i'r cais Safle Treftadaeth y Byd a holi'r gôlgeidwad rhyngwladol Owain Fôn Williams am sut mae tirwedd chwarelyddol Dyffryn Nantlle yn ysbrydoli ei waith celf.



Gwybodaeth Cyflogaeth 2020-21

Mae gan y Cyngor ddyletswydd, yn ôl Cynllun Cydraddoldeb 2010, i ddarparu gwybodaeth cyflogaeth yn flynyddol. Dyma'r wybodaeth am 2020-21.

I. Manylion y gweithlu yn gyffredinol

Mae **41.3%** o staff y Cyngor wedi llenwi'r holiadur cydraddoldeb dewisol, ac mae'r ffigyrau isod wedi eu selio ar y rhain os nad ydym yn nodi'n wahanol. Mae'r wybodaeth am y nodweddion cydraddoldeb fel â ganlyn:

Rhyw :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Benyw	71.2	29.4
Gwryw	27.9	11.5
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	0.1	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	0.8	0.3
Cyfanswm	100.0	41.3

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Albanwr / Albanes	0.3	0.1
Cymro / Cymraes	89.1	36.8
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	0.1	0.1
Prydeiniwr / Prydeines	5.7	2.3
Sais / Saesnes	2.9	1.2
Arall	1.0	0.4

Gwell gennyf beidio â dweud	0.9	0.4
Cyfanswm	100.0	41.3

Hil :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Gwyn	98.1	40.5
Du – Caribiaidd	-	-
Du - Affricanaidd	0.04	0.02
Du – Arall	-	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	0.04	0.02
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	0.1	0.03
Cymysg – Arall	0.1	0.1
Asiaidd – Indiaidd	-	-
Asiaidd - Pacistanaidd	0.04	0.02
Asiaidd – Bangladesiaidd	0.1	0.03
Asiaidd – Tseinieg	0.04	0.02
Asiaidd – Arall	0.2	0.1
Arall	0.3	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	1.0	0.4
Cyfanswm	100.0	41.3

Cyfeiriadedd Rhywiol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Deurywiol	0.2	0.1
Dyn Hoyw	0.5	0.2
Dynes Hoyw / Lesbian	0.3	0.1
Heterorywiol neu 'Strêt'	95.9	39.6
Arall	0.3	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	2.8	1.2
Cyfanswm	100.0	41.3

Crefydd :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Anffyddiwr	2.2	0.9
Bwdhaidd	0.1	0.03
Cristion	57.4	23.7
Dim Crefydd	32.6	13.4
Mwslim	0.1	0.1
Iddewig	-	-
Hindw	-	-
Arall	2.3	0.9
Gwell gennyf beidio â dweud	5.3	2.2
Cyfanswm	100.0	41.3

Statws Priodasol :

Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	40.6	16.7
Ydw	55.9	23.1
Gwell gennyf beidio â dweud	3.5	1.5
Cyfanswm	100.0	41.3

Anabledd :

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	95.4	39.4
Ydw	2.1	0.9
Gwell gennyf beidio â dweud	2.5	1.0
Cyfanswm	100.0	41.3

Hunaniaeth Rhywedd :

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydi	97.1	40.1
Ydi	1.4	0.6
Gwell gennyf beidio â dweud	1.5	0.6
Cyfanswm	100.0	41.3

Oedran :

	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
16-19	0.4	0.2
20-24	4.3	1.8
25-29	10.0	4.1
30-34	10.8	4.5
35-39	11.7	4.8
40-44	12.8	5.3
45-49	13.4	5.5
50-54	14.3	5.9
55-59	12.5	5.2
60-64	6.4	2.6
65-69	1.7	0.7
70-74	0.2	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	1.5	0.6
Cyfanswm	100.0	41.3

2. Natur Swyddi

Dim ond nodwedd cydraddoldeb **rhyw** sydd angen ei nodi yma.

a) Y nifer â gyflogir yn ôl swydd :

Dadansoddiad ddim ar gael

b) Nifer â gyflogir yn ôl graddfa cyflog :

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Graddfa Sylfaenol (GS)	31.3	7.0	0.04	0.3	38.7	16.0
Swyddogion (S)	15.7	9.2	0.04	0.3	25.3	10.4
Uwch Swyddogion (PS)	10.8	6.8	0.04	0.2	17.8	7.3
Uwch Reolwyr (UR)	0.4	0.8	0.04	-	1.2	0.5
Prif Swyddogion	0.1	0.2	-	-	0.4	0.2
Athrawon (Cynnwys heb gymhwyso a llanw)	9.5	2.3	-	-	11.7	4.8
Prifathrawon / Dirprwy Brifathrawon	1.9	0.9	-	-	2.9	1.2
Soulbury	1.6	0.6	-	-	2.1	0.9
Cyfanswm	71.2	27.9	0.1	0.8	100.0	41.3

c) Nifer â gyflogir fesul amrediad cyflog :

Hyn ar sail cyflog pe byddai'r unigolion yn Gyfwerth Amser Llawn (FTE), ac nid o reidrwydd y gwir gyflog maent yn ei dderbyn.

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
£10,000 - £19,999	31.4	7.0	0.04	0.3	38.7	16.1
£20,000 - £29,999	14.4	6.9	-	0.2	21.4	8.8
£30,000 - £39,999	20.1	9.8	0.1	0.2	30.1	12.4
£40,000 - £49,999	2.8	2.3	0.04	0.1	5.3	2.2
£50,000 - £59,999	2.1	1.2	-	-	3.3	1.3
£60,000 - £69,999	0.4	0.5	-	-	0.8	0.3
£70,000 - £79,999	0.1	0.2	-	-	0.2	0.1
£80,000+	0.1	0.1	-	-	0.2	0.1
Cyfanswm	71.2	27.9	0.1	0.8	100.0	41.3

ch) Nifer â gyflogir yn ôl math o contract

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Cyfnod Penodol	2.1	0.7	-	-	2.7	1.1
Achlysurol	4.2	1.1	-	-	5.3	2.2
Parhaol	64.9	26.1	0.1	0.8	92.0	38.0
Cyfanswm	71.2	27.9	0.1	0.8	100.0	41.3

d) Nifer â gyflogir yn ôl patrwm gwaith

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Llawn Amser	37.3	23.6	0.1	0.6	61.6	25.4
Rhan Amser	33.9	4.3	-	0.2	38.4	15.9
Cyfanswm	71.2	27.9	0.1	0.8	100.0	41.3

3. Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Nodyn : ymgeiswyr sydd wedi ceisio am swydd ar lein yn unig ydi'r rhain - ddim yn cynnwys y rhai sydd wedi gwneud cais ar bapur. Mae'n cynnwys pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod yn ogystal ag ymgeiswyr allanol. Gall person fod wedi ymgeisio am fwy nac un swydd ac felly yn ymddangos dwywaith yn y data.

Rhyw	Nifer
Benyw	1,791
Gwryw	996
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	17
Cyfanswm	2,810

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	3
Cymro / Cymraes	2,322
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	4
Prydeiniwr / Prydeines	268
Sais / Saesnes	103
Arall	87
Gwell gennyf beidio â dweud	23
Cyfanswm	2,810

Hil	Nifer
Gwyn	2,699
Du – Caribiaidd	1
Du – Affricanaidd	18
Du – Arall	1
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Asiaidd – Indiaidd	13
Asiaidd - Pacistanaidd	2
Asiaidd – Bangladesiaidd	4
Asiaidd – Tseinieg	7
Asiaidd – Arall	15
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	7
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	6
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	4
Cymysg – Arall	9
Arall	4
Gwell gennyf beidio â dweud	20
Cyfanswm	2,810

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	29
Dyn Hoyw	33
Dynes Hoyw / Lesbian	23
Heterorywiol neu ‘Strêt’	2,641
Arall	11

Gwell gennyf beidio â dweud	73
Cyfanswm	2,810

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	51
Bwdhaidd	13
Cristion	1,165
Dim Crefydd	1,322
Hindŵ	6
Iddewig	3
Mwslim	13
Arall	67
Gwell gennyf beidio â dweud	170
Cyfanswm	2,810

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	1,818
Ydw	901
Gwell gennyf beidio â dweud	91
Cyfanswm	2,810

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	2,653
Ydw	87
Gwell gennyf beidio â dweud	70
Cyfanswm	2,810

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	2,771
Ydi	17
Gwell gennyf beidio â dweud	22
Cyfanswm	2,810

Oedran	Nifer
16-19	79
20-24	602
25-29	549
30-34	409
35-39	374
40-44	224
45-49	179
50-54	164
55-59	119
60-64	45
65-69	7

70-74	-
75+	-
Gwell gennyf beidio â dweud	59
Cyfanswm	2,810

4. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am swydd wahanol o fewn yr awdurdod

Rhan o'r ffigurau uchod.

5. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer fu'n llwyddiannus

O'r 2,904 aelod o staff wnaeth gais am hyfforddiant, ni fu i 3 aelod o staff fod yn llwyddiannus gyda **un** o'u ceisiadau am hyfforddiant. Nid yw'n bosib dadansoddi'r 3 achos yma ymhellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

6. Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn llwyddiannus

Bu i 2,904 aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, boed yn hyfforddiant traddodiadol neu yn fodiwl e-ddysgu. O'r rhain 1,392 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	1,025
Gwryw	352
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	4
Gwell gennyf beidio â dweud	11
Cyfanswm	1,392

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	3
Cymro / Cymraes	1,237
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	1
Prydeiniwr / Prydeines	80
Sais / Saesnes	48
Arall	11
Gwell gennyf beidio â dweud	12
Cyfanswm	1,392

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	0
Asiaidd – Tseinieg	1
Asiaidd – Indiaidd	0
Asiaidd – Bangladesiaidd	1
Asiaidd – Arall	2
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	0
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	0
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	2
Cymysg – Arall	2
Gwyn	1,362
Du – Caribiaidd	0
Du - Affricanaidd	1
Du – Arall	0

Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	0
Arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	15
Cyfanswm	1,392

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	6
Dyn Hoyw	8
Dynes Hoyw / Lesbian	5
Heterorywiol neu 'Strêt'	1,323
Arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	44
Cyfanswm	1,392

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	28
Bwdhaidd	1
Cristion	784
Dim Crefydd	470
Mwslim	0
Iddewig	0
Hindw	0
Arall	35

Gwell gennyf beidio â dweud	74
Cyfanswm	1,392

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	558
Ydw	781
Gwell gennyf beidio â dweud	53
Cyfanswm	1,392

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	1,329
Ydw	22
Gwell gennyf beidio â dweud	41
Cyfanswm	1,392

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	1,350
Ydi	16
Gwell gennyf beidio â dweud	26
Cyfanswm	1,392

Oedran	Nifer
16-19	5
20-24	60
25-29	139
30-34	157
35-39	168
40-44	188
45-49	206
50-54	193
55-59	167
60-64	75
65-69	13
70-74	0
Gwell gennyf beidio â dweud	21
Cyfanswm	1,392

7. Aelodau o staff sydd wedi bod yn rhan o'r weithdrefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel y sawl y gwnaethpwyd cwyn yn eu herbyn

Mae 10 unigolyn wedi bod yn rhan o weithdrefn gwyno. O rhain dim ond 3 oedd wedi cwblhau yr holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

8. Aelodau staff sydd wedi bod drwy'r weithdrefn ddisgyblaethol

Mae 56 achos o ddisgyblu wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. O rhain dim ond 16 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

9. Aelodau staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor

Bu i 477 unigolyn adael cyflogaeth y Cyngor yn ystod 2020/21. O'r rhain, 121 ohonynt oedd wedi ateb yr holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	70
Gwryw	50
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	0
Gwell gennyf beidio â dweud	1
Cyfanswm	121

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	1
Cymro / Cymraes	106
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	1
Prydeiniwr / Prydeines	8
Sais / Saesnes	3
Arall	1
Gwell gennyf beidio â dweud	1
Cyfanswm	121

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	-

Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Bangladesiaidd	-
Asiaidd – Tseinieg	-
Asiaidd – Arall	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	-
Cymysg – Arall	-
Gwyn	119
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	-
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	2
Cyfanswm	121

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	3
Dyn Hoyw	-
Dynes Hoyw / Lesbian	-
Heterorywiol neu ‘Strêt’	112
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	6
Cyfanswm	121

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	4
Bwdhaidd	-
Cristion	62
Dim Crefydd	41
Mwslim	-
Iddewig	-
Hindŵ	-
Arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	8
Cyfanswm	121

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	51
Ydw	66
Gwell gennyf beidio â dweud	4
Cyfanswm	121

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	113
Ydw	3
Gwell gennyf beidio â dweud	5
Cyfanswm	121

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	114
Ydi	1
Gwell gennyf beidio â dweud	6
Cyfanswm	121

Oedran	Nifer
16-19	1
20-24	10
25-29	15
30-34	11
35-39	7
40-44	8
45-49	8
50-54	7
55-59	16
60-64	21
65-69	12
70-74	3
Gwell gennyf beidio â dweud	2
Cyfanswm	121

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

Ers Ebrill 1af 2021 mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol. Ceir cwestiynau penodol isod sy'n cyfarch y ddyletswydd yma sy'n gofyn i ni ystyried sut rydym yn lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas y Cynllun wrth ei weithredu ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

Pan baratowyd y Cynllun yma nid oeddem yn ymwybodol o gwbl o'r hyn oedd i ddod, sef yr argyfwng Covid-19. Rhaid cydnabod rwan fod pethau wedi newid, mae amserlenni wedi llithro wrth i wasanaethau gau i lawr neu wynebu galwadau gwahanol ar eu hamser. Rydym hefyd yn gorfod ystyried ffyrdd gwahanol iawn o weithredu'r

amcanion sydd, yn ei dro, yn effeithio ymhellach ar yr amserlen. Mae Adroddiad Blynyddol 2020-21 yn rhoi manylion am hyn

Rhywbeth sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg i bawb gyda'r firws ydi pa mor bwysig ydi fod anghenion pobl gyda nodweddion gwahanol yn cael eu hystyried. Bydd yn rhaid sicrhau ein bod yn gweithredu'n addas er mwyn cynnwys pawb wrth symud ymlaen gyda'r Amcanion.

Ffactor arall sydd wedi codi yn ystod y cyfnod yma ydi'r protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod fel Cyngor yn edrych ar ein gweithdrefnau i sicrhau tegwch i bawb. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac mae Cyngor Gwynedd yn gwerthfawrogi'r siawns i edrych ar ein gweithdrefnau a sicrhau tegwch i bobl o grwpiau ethnig leiafrifol.

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi dod i rym dechrau mis Ebrill felly mae'n cael ei gynnwys yn yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb yma. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y problemau economaidd sy'n dod yn sgil y pandemig. Bydd Brexit hefyd yn cael effaith ar y ddyletswydd yma.

Hwn ydi'r aseiad sy'n drosolwg ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae aseidiadau effaith ar wahân wedi eu datblygu ar gyfer bob un o'r Amcanion ac maent yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr aseiad yma?

- Dewi Jones, Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor ac Arweinydd Prosiect Gweithredu'r Cynllun Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb, Rheolwr Prosiect ac Arweinydd Amcan 3
- Carey Cartwright, Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Gweithlu ac Arweinydd Amcan 1
- Sion Gwynfryn Williams, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac Arweinydd Amcan 2
- Eurig Williams, Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol ac Arweinydd amcan 4 a 5

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr aseiad? Pa fersiwn yw hwn?

Hwn ydi'r 5ed fersiwn ac mae'n cael ei wneud ym mis Gorffennaf 2021

- Cychwynwyd ar y gwaith yn 27 Chwefror 2019 gan baratoi drafft cychwynnol
- Fersiwn 2 wedi ei gychwyn 26 Medi 2019 er mwyn paratoi'r Cynllun ar gyfer ymgysylltu.

- Fersiwn 3 wedi ei gychwyn 11 Chwefror 2020. Dyma'r fersiwn aeth at y Cabinet er mwyn iddynt wneud y penderfyniad terfynol i gymeradwyo'r Cynllun.
- Addaswyd yr asesiad ymhellach yng Ngorffennaf 2020 (Fersiwn 4). Hwn oedd yr addasiad cyntaf wrth weithredu ond yn bwysicach hwn ydi'r addasiad cyntaf yn sgil Covid-19 sydd wedi newid cymaint ar ein ffordd o weithio.
- Mae'r fersiwn yma yn cyd-fynd hefo gwneud Adroddiad Blynyddol 2020-21, sef Adroddiad Blynyddol cyntaf y cyfnod 4 blynedd sy'n esbonio'r newidiadau anorfod sydd wedi eu gwneud yn sgil y pandemig, ac yn cyfarch Mae Bywydau du o Bwys a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Y Cyhoedd, yn arbennig pobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol
- Mudiadau sy'n cefnogi neu'n cynrychioli pobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol, gan gynnwys y Grŵp Craidd Cydraddoldeb
- Staff y Cyngor
- Cabinet ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd dau sesiwn cychwynnol gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb er mwyn llunio cynllun drafft. Yna cynhaliwyd ymgynghoriad mwy eang ar y drafft rhwng 16 Rhagfyr a 7 Chwefror trwy holiadur ar bapur (gan gynnwys hawdd i'w ddarllen) ac ar-lein Hysbyswyd tua 150 o fudiadau am yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd amryw gyfarfod gyda dau grŵp penodol hefyd.

Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth o ymgynghoriadau eraill y Cyngor wrth symud ymlaen.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

.

Roedd y Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn gefnogol o gyfeiriad y cynllun fel roedd yr atebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd nifer o sylwadau defnyddiol fel rhan o'r ymgynghoriadau. Wrth symud ymlaen i weithredu byddwn yn ystyried y sylwadau perthnasol i'r gwahanol Amcanion:

Amcan 1

- Pwysig sicrhau bod y bobl iawn yn hyfforddi
- Angen rhywbeth bob 2-3 mlynedd ond fod o ddim yn ymarferiad 'ticio bocs'.
- Angen codi ymwybyddiaeth o anabledd 'anweladwy'
- Angen derbyn y 'model cymdeithasol'
- Eisiau cyhoeddi rhestr mynychu hyfforddiant Aelodau Etholedig gael ei wneud (fel presenoldeb mewn Cyngor llawn / cyfarfodydd)
- Gwella dealltwriaeth fod pawb â nodweddion
- Dealltwriaeth nid ymwybyddiaeth o gydraddoldeb
- Rhaid teilwra'r hyfforddiant
- Hyfforddi pobl fel eu bod yn gallu dysgu eraill am fynediad ayb
- Sicrhau adnoddau
- Sicrhau adborth e.e. siopwr dirgel
- Angen bod yn ofalus o'r costau
- Dylid fod yn gwneud hyn yn barod
- Cyrsiâu rheoli i weithwyr benywaidd
- Cyrsiâu arbenigol i reolwyr i gefnogi'r amcanion
- Helpu gweithwyr i ledaenu cydraddoldeb drwy boblogaeth Gwynedd

Amcan 2

- Angen gwella dealltwriaeth o wir anghenion pobl - dim 'ticio blychau'
- Dysgu gan eraill e.e. BIPBC
- Pryder am breifatrwydd a sensitifrwydd y nodweddion - fydd y Cyngor yn ymdrin â fo'n addas?
- Bod yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd gennych yn barod
- Mesur y defnydd o wasanaethau cyhoeddus gan grwpiau lleiafrifol

Byddwn yn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth gawsom am wahanol wasanaethau'r Cyngor yn ystod yr ymgysylltiad fel man cychwyn ar gyfer ymgynghori.

Amcan 3

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd asesiad effaith - ei godi i'r un statws ag Asesiadau Diogelwch.
- Oes modd cael person dynodedig sy'n gyfrifol am hyn yn bob adran?
- Ddyla fo ddim bod yn ymarferiad ticio bocsys

Amcan 4

- Angen edrych pa rwystrau sy'n achosi bwllch cyflog e.e. oes angen system 'fflecsi' fwy hyblyg?
- Efallai na fydd pobl anabl yn gallu gweithio llawn amser
- Rhaid sicrhau nad yw hyn yn achosi colli swyddi yn y pendraw
- angen i adnabod y rhesymau tu ôl i'r bwllch

- Adnabod y posibilrwydd y gallai gael ei leihau'n 'artiffisial' gan hunan-adnabyddiaeth rhyw

Amcan 5

- Pam fod y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' ddim yn digwydd tan Fedi 2022?
- Gwella mynediad yn gyffredinol
- Cofio am Gynllun Mynediad i Waith
- Eisiau sicrhau swyddi i bobl lleol
- Dylid cael y person iawn am y swydd beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig
- Angen talu pobl anabl yn hytrach na'u cael i wneud gwaith gwirfoddol
- Teimlad bod rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu heithrio o gyfleoedd gwaith o fewn y Cyngor.
- Edrych ar wneuthuriad grwpiau a phwyllgorau o safbwynt nodweddion cydraddoldeb
- Siawns i bobl hŷn rannu profiad gyda gweithwyr ifanc
- Mwy o hyblygrwydd o fewn y gweithlu

Yn gyffredinol

- Gormod o ffocws ar staff y Cyngor yn lle pobl Gwynedd - lle mae cydraddoldeb i bobl ifanc a phobl hŷn ynddo?
- Angen sicrhau fod hi dal yn bosib cyflawni'r cynllun beth bynnag fo'r sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol
- Cydraddoldeb rhwng ardaloedd yng Ngwynedd
- Cofio fod ecwiti'r un mor bwysig â chydaddoldeb a bod 9 nodwedd. Peidio hybu rhai nodweddion yn fwy na'i gilydd.
- Angen cynllun gweithredu manwl gyda targedau mesuradwy. .
- Sut mae Brexit am effeithio cydraddoldeb

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Y prif ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd wrth greu'r Cynllun Cydraddoldeb yw ['A yw Cymru'n Decach? 2018'](#) (adroddiad cyflwr-y-genedl diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol). Mae hwn yr un mor bwysig wrth i ni symud ymlaen.

Mae'r Ddogfen Data Rhanbarthol yn rhoi gwybodaeth fwy lleol i ni.

Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ymateb Awdurdodau Cymru i'r Ddyletswydd Gyffredinol

[Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn](#)

Gwybodaeth am effeithiau Covid-19 e.e.

[Adroddiad: is-Grŵp Economaidd Gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig](#)

Tystiolaeth sydd yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae yna fylchau yn y data sydd ar gael yn lleol, mae'n debyg oherwydd niferoedd isel. Bydd angen gweld os yw'n bosib cael mynediad at, neu gasglu'r wybodaeth yma.

Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth ar farn pobl ar ein gwasanaethau drwy weithredu Amcan 2.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cyffredinol	Positif	<p>Bwriad y Cynllun yw sicrhau fod ymwybyddiaeth o anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu gwreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor. Gan fod pawb gyda nodweddion megis hil, oedran a rhyw bydd hyn yn sicrhau fod gwasanaethau'n cael eu gwella ar gyfer pawb o bobl Gwynedd. Wedi dweud hynny, bydd angen rhoi mwy o sylw i rai carfannau na'i gilydd wrth gwrs, ac felly byddent yn elwa mwy.</p> <p>Byddwn yn gwneud Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y gwahanol brosiectau o fewn y Cynllun a bydd y gwaith o ymgysylltu a chasglu gwybodaeth sydd wedi ei nodi yn y Cynllun yn greiddiol.</p> <p>Mae'r newidiadau i'n ffordd o fyw a gweithio yn sgil Covid-19, yn arbennig diffyg cyfarfodydd a'r siawns i</p>

		<p>gyfarfod gyda phobl, am eu gwneud yn fwy anodd i ni gysylltu ac ymgysylltu gydag unigolion. Mae'n anorfod i ni newid ein dulliau gweithio a newid ein hamserlen (fel nodwyd yn 1.2 ac sy'n cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn Adroddiad Blynyddol 2020-21) fydd yn golygu y byddwn yn cymryd mwy o amser i gasglu'r wybodaeth a gwneud y newidiadau. Gall hyn arwain at oedi cyn gweithredu fydd yn cael effaith anorfod ar ddefnyddwyr gyda nodweddion gwarchoddedig. Rydym wedi asesu os oedd angen newid yr Amcanion, neu'r pwyntiau gweithredu, fel sydd wedi eu cyhoeddi yn y Cynllun Cydraddoldeb yn sgil y materion sydd wedi codi yn ystod y cyfnod. Rydym yn teimlo fod ein Hamcanion a'n pwyntiau gweithredu yn parhau'n ddilys. Bydd yr wybodaeth rydym yn casglu wrth wneud yr ymgysylltiad yn ddefnyddiol iawn wrth symud ymlaen ac mae'r gwaith yn y 4 amcan arall, asesu effaith, hyfforddiant a chyflogaeth, yn bwysig iawn. Byddwn yn addasu'r gwaith yn unol â'r data diweddaraf.</p>
<p>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</p>	<p>Positif / negyddol / dim</p>	<p>Mae rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi adnabod rhai materion hil yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Teimlir fod polisi iaith y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ddi-Gymraeg sydd o dras leiafrifol (h.y. y rhan fwyaf ohonynt yn ymfudwyr un ai o Loegr neu o wledydd eraill).</p> <p>Rydym yn cydnabod bod hyn yn bryder iddynt, ond hefyd yn nodi ein dyletswydd statudol i roi statws cyfartal ac i warchod y Gymraeg fel iaith leiafrifol yng Nghymru.</p> <p>Mae'r effaith o gael Covid-19 yn llawer gwaeth i rai pobl, yn arbennig pobl ddu neu o dras Pacistanaid neu Fagladeshaidd. Rydym yn sicrhau fod y dulliau rydym yn defnyddio wrth wneud y gwaith yn cymryd hyn i ystyriaeth.</p> <p>Bydd Brexit yn cael effaith ar y nodwedd yma hefyd, gan gynnwys mwy o drosedd casineb.</p> <p>Mae'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn rhoi pwyslais ychwanegol ar y nodwedd yma ac rydym yn croesawu ymgais Llywodraeth Cymru i ddod i'r afael a hyn drwy eu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.</p> <p>Mae Cymunedau Cymraeg wedi teimlo dan bwysau oherwydd y gwahaniaeth yn y cyfyngiadau rhwng y gwledydd y Deyrnas Unedig ac yna sefyllfa'r farchnad</p>

		dai ac mae hynny wedi achosi tensiynau allai gael eu gweld fel tensiynau hiliol.
Anabledd	Positif	<p>Mae materion ynglŷn ag anabledd wedi eu hadnabod yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y Gwasanaethau ac fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gweithredu.</p> <p>Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Nodwyd fod y lluniau yn y ddogfen yn rhy lachar felly addawyd darparu fersiwn du a gwyn yn ogystal â fformatau eraill. Nid oedd hynny wedi digwydd pan gyhoeddwyd y Cynllun oherwydd ei fod ar gychwyn y Clo Mawr ac roedd blaenoriaethu gwaith eraill yn sgil Covid-19.</p> <p>Mae'r Cyngor yn derbyn y model cymdeithasol o anabledd.</p> <p>Mae Covid-19 yn ffactor mawr i'w ystyried gyda'r nodwedd yma achos fod pobl gyda chyflyrau arbennig yn cael eu heffeithio'n llawer mwy o ddal Covid-19. Mae'r argyfwng Covid-19 wedi effeithio ar gynlluniau'r Cyngor i weithio mewn ffyrdd gwahanol, ond rydym yn bwriadu gweithredu fel hyn wrth symud ymlaen.</p> <p>Rhaid cydnabod hefyd fod yr argyfwng wedi effeithio pobl anabl mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae wedi golygu unigedd, gorfod cael gwasanaethau mewn gwahanol ffydd a phryder mawr.</p> <p>Mae'r argyfwng hefyd wedi achosi cynnydd mewn problemau iechyd meddwl mewn pobl ymysg y gymuned yn gyffredinol. Bydd hyn yn rhoi pwysau mawr ar ein gwasanaethau wrth symud ymlaen a bydd ein gwaith ymgysylltu yn gymorth i adnabod sut mae hyn yn effeithio pobl.</p>
Rhyw/Rhywedd	Positif	<p>Mae cyfraniad merched ym myd gwaith ac fel cynrychiolwyr wedi cael ei godi yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cael sylw pellach wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Mae ystadegau'n dangos fod merched yn fwy tueddol o fod â chyfrifoldebau gofalu, un ai am blant neu am oedolion anabl neu hŷn. Mae'r argyfwng wedi</p>

		cynyddu hyn yn fawr. Byddwn yn edrych am effeithiau hyn wrth symud ymlaen
Oedran	Positif	<p>Mae materion ynglŷn ag oedran wedi eu hadnabod ac rydym yn rhoi sylw iddynt o fewn y gwasanaethau ac wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Mae Covid-19 yn cael effaith mawr ar y nodwedd yma. Mae pobl hŷn yn llawer mwy tueddol o gael eu heffeithio yn waeth i'w gymharu â phobl ifanc. Maent hefyd yn llai tueddol o ddefnyddio technoleg fel gwefannau cymdeithasol, a bydd angen ffyrdd amgen o gysylltu gyda hwy. Felly mae wedi achosi unigedd, pryder a phroblemau iechyd meddwl a byddwn yn edrych am effeithiau hyn wrth symud ymlaen.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	<p>Mae materion ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol wedi eu hadnabod yn yr ymgynghoriad a byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y gwasanaethau ac wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Nid oes dim i'w ychwanegu am Covid-19 ar hyn o bryd</p>
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	<p>Mae un ymatebwr i'r ymgynghoriad wedi adnabod rhai mater crefydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Teimlai fod polisi iaith y Cyngor yn atal pobl ddi-Gymraeg a gallai hyn gynnwys pobl o rai crefyddau. Byddem yn dadlau mai mater hil yw hyn, ac nid crefydd. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Nid oes dim i'w ychwanegu am Covid-19 ar hyn o bryd.</p>
Ailbennu rhywedd	Positif	<p>Mae materion ynglŷn ag ailbennu rhywedd wedi eu hadnabod yn yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn cael sylw pellach yn cael ei wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Tybiwn fod pobl sydd eisiau derbyn triniaeth feddygol wedi cael eu heffeithio gan fod pob math o driniaethau wedi eu hoedi dros y flwyddyn ddiwethaf.</p>

Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	<p>Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Mae marched sydd yn disgwyl neu wedi cael babi yn ystod y cyfnod yma wedi eu heffeithio'n fawr gan y ffaith fod eu partneriaid heb allu cymryd rhan lawn yn y broses feddygol. Maent hefyd wedi profi unigrwydd gan nad ydynt wedi gallu ymwneud a theulu, ffrindiau na gweithwyr proffesiynol yn y ffordd arferol.</p>
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	<p>Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Nid oes dim i'w ychwanegu am Covid-19 ar hyn o bryd.</p>
Yr iaith Gymraeg		<p>Cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad i'r penderfyniad i ystyried iaith fel rhan o Gydraddoldeb ymysg y rhai o'r ymatebwyr gan eu bod yn teimlo ei fod yn sicrhau llai o gydraddoldeb i bobl sydd ddim yn siarad yr iaith. Rydym yn cydnabod fod hyn yn bryder ond, ar y llaw arall, gan fod 65% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Iaith sydd yn sicrhau "Bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser." Mae gallu gweithredu'r polisi hwn yn gyson ar draws y sir gyfan, a sicrhau bod unigolyn yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg os ydynt yn dymuno hynny (yn unol â'r gofyn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) yn golygu bod rhaid ysgytied y Gymraeg wrth recriwtio ac wrth ddatblygu gwasanaethau. Dylid cofio bod unrhyw siaradwr Cymraeg sydd yn cael ei benodi i swydd o reidrwydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg hefyd.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hystyried gyda'r ffactorau eraill. Hefyd gweler Hil, uchod.</p> <p>Cyfnod wedi lleihau'r cyfle sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg. O fewn y Cyngor roedd rhai gwasanaethau wedi eu hatal am gyfnod ac wedi dychwelyd mewn dulliau gwahanol mwy digyswllt sydd wedi effeithio ar hyn. Cynnydd yn y defnydd o dechnoleg yn mynd i effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg hefyd.</p>

Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	<p>Mae'r dystiolaeth yn dangos fod yr argyfwng wedi cynyddu amddifadedd economaidd-gymdeithasol, yn arbennig tlodi ariannol, tlodi digidol a'r effaith o fyw yng nghefn gwlad.</p> <p>Bydd angen gweld sut mae hyn yn effeithio pobl yn lleol dros y cyfnod nesaf.</p>
--	---------	--

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabled a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	<p>Mae tystiolaeth yn y sylwadau am faterion gweithredol yn dangos pryder am rai o'n gwasanaethau. Mae Cynllun Gweithredu'r Amcanion unigol yn ymdrin â hyn drwy wneud eu rhan i wella'r ffordd rydym ni'n gweithredu.</p> <p>Rydym yn y broses o gasglu gwybodaeth fydd yn rhoi gwybod i ni os oes camwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn digwydd er mwyn gweithredu arno.</p> <p>Mae'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi ei gwneud yn fwy amlwg fod trosedd casineb a gwahaniaethu yn dal i fodoli ond nid dyna'r unig drais casineb sy'n digwydd. Mae felly'n bwysig ein bod yn ystyried y ddyletswydd yma o ddifri wrth ystyried y 5 Amcan ar wahân.</p>
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	<p>Bwriad y Cynllun yw gweithio tuag at sicrhau tegwch i bawb. Mae tystiolaeth o'r ymgynghoriad yn dangos fod gennym waith i'w wneud i'r perwyl yma. Rydym felly'n casglu tystiolaeth bellach, yn unol â Phwyntiau Gweithredu'r Cynllun, ac yn gweithredu ar y canlyniad. Mae gennym hefyd Bwyntiau Gweithredu sy'n cychwyn ar y gwaith.</p> <p>Mae'r angen yma'n hyd yn oed yn fwy creiddiol oherwydd Covid19. Bydd angen sicrhau fod ein dulliau o weithredu'n addas i bawb yn y "normal newydd".</p>

Meithrin perthnasau da	Ydi	<p>Mae perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rannu yn dod o sicrhau tegwch i bawb.</p> <p>Trwy gwblhau'r Cynllun Gweithredu, a gweithredu'n bositif tuag at rhai nodweddion, os ydi'r dystiolaeth yn cyfiawnhau, byddwn yn sicrhau y bydd ein gwasanaethau'n deg. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn sgil yr argyfwng Covid-19 gan ei fod yn effeithio pobl mewn ffyrdd gwahanol.</p> <p>Mae yna hefyd waith ychwanegol i'w wneud wrth ystyried y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys ac wrth gwrs mae'r hyn sydd wedi ei ddweud am drosedd casineb yn bwysig yma hefyd.</p>
-------------------------------	-----	--

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Byddwn yn cyfarch hyn yn yr asesiadau manylach ar y 5 Amcan

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Gweler 3.3

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r Cynllun yn gweithio i leihau'r bwlch amddifadedd drwy adnabod y rhwystrau sy'n wynebu pobl hefo nodweddion gwarchoddedig penodol wrth ymwneud hefo'r Cyngor, ac yna gweithio i'w lliniaru. Bydd y gwaith yn Amcan 5 i wella amrywiaeth ein gweithlu, a

gweithio gyda phartneriaid i wneud hynny, yn gwneud gwahaniaeth. Mae Amcan 4 yn sicrhau ein bod lleihau unrhyw fylchau cyflog yn helpu hefyd. Wrth gwrs bydd gwneud asesiadau effaith gwell (Amcan 3) yn sicrhau fod ein gwasanaethau yn addas i bawb, fel bydd hyfforddi ein gweithlu (Amcan 1). Byddwn yn edrych ar hyn mewn mwy o fanylder yn yr asesiadau effaith unigol wrth symud ymlaen.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd--Gymdeithasol?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei gasglu wrth symud ymlaen gyda'r gwaith i adnabod unrhyw fesurau neu newidiadau eraill fydd yn cael eu hamlygu ac yn symud i weithredu arnynt.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bwriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd yw gwneud effaith sylweddol, bositif ar fywydau pobl Gwynedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau a hefyd ein staff. Rydym wedi defnyddio'r sylwadau perthnasol sydd wedi eu derbyn o'r ymgysylltiad i wella'r Cynllun. Bydd y materion gweithredol yn cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau. Byddwn yn ystyried y ffactorau ychwanegol fel Covid, Brexit ac Mae Bywydau Du o Bwys wrth symud ymlaen.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n drueni fod yr amserlen wedi gorfod llithro gan nad yw'n bosib gweithredu mor fuan ag oeddem ni wedi gobeithio. Bydd hyn yn golygu na fydd yn bosib gwella gwasanaethau o fewn yr amserlen ddisgwyliedig.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth ar hyn o bryd	

4.4 Os yn parhau 'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar bob amcan yn bositif ar hyn o bryd ond byddwn yn eu defnyddio i adnabod unrhyw effaith negyddol

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Dim yn berthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

- Rydym wedi creu aseidiadau effaith ar wahân i'r 5 Amcan er mwyn cael dealltwriaeth well o'r materion sy'n codi.
- Rydym hefyd wedi creu Cynlluniau Gweithredu i'r 5 Amcan ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd gan Grŵp Prosiect. Mae'r Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb yn eu hadolygu bob chwarter.



CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y cyfarfod: 6 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt: Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb
Rhif Ffôn Cyswllt: 01286 679708
Teitl yr Eitem: Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Nid yw cael Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn angen statudol, ond mae'n un o'r Pwyntiau Gweithredu bu i ni eu cyflwyno yn ein Cynllun Cydraddoldeb Statudol 2020-24, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 10 Mawrth 2020.

Mae'r Polisi yn cymryd lle ein Polisi Cydraddoldeb / Cyfle Cyfartal a'n Polisi Mynediad sydd wedi dyddio'n fawr erbyn hyn.

3 CYFLWYNIAD

Pwrpas y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant yw gosod egwyddorion fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb gan roi dinasyddion Gwynedd yn ganolog i'n gwaith. Mae'n declyn sy'n rhoi arweiniad ar sut rydym i weithredu i sicrhau fod cymaint o bobl â phosib yn cael mynediad llawn at ein gwasanaethau ac yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein gwaith.

Yn unol a'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'r Polisi yn rhoi arweiniad ar sut i roi sylw dyledus i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, boed hynny'n erbyn defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o staff neu aelodau o'r gymuned ehangach.

Bwriedir hefyd i sicrhau ein bod yn gweithio i feithrin cyfleon cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hynny.

Tanlinellir cyfrifoldeb pob aelod staff tuag at sicrhau cydraddoldeb i bawb beth bynnag eu rôl.

Yn ogystal mae'r Polisi yn cyfarch ein cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd sy'n weithredol ers dechrau Ebrill 2021.

Rydym wedi ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth wneud y polisi fel sydd yn cael ei nodi yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn dangos y bydd y Polisi yn cael effaith positif ar y nodweddion gwarchoddedig i gyd.

4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd yn cyd-fynd hefo'r Polisi yn defnyddio gwybodaeth o nifer o ymgynghoriadau blaenorol.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

i) Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon na fyddai mabwysiadu'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad newydd yn creu ymrwymadau gwariant newydd i'r Cyngor. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.

i) Swyddog Priodoldeb

Mae'r Polisi yma yn gosod allan cyfres o egwyddorion ymarferol i gefnogi y dyletswydd allweddol yma ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Cydnabyddir hefyd yn ychwanegol i hyn mewn meysydd penodol fod darpariaethau ac arweiniad manwl yn weithredol.

Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad

Rhagarweiniad

Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod sicrhau tegwch i bawb fel blaenoriaeth. Mae hefyd yn blaenoriaethu dod i'r afael â thlodi. Mae'r ddau flaenoriaeth yma'n perthyn yn agos I'w gilydd oherwydd mae pobl sydd a rhai nodweddion cydraddoldeb penodol yn dueddol o fod yn ystadegol dlotach na'r rhai sydd ddim â'r nodwedd yna e.e byddai teulu gydag aelod anabl yn fwy tlawd ar gyfartaledd na theulu cyffelyb heb aelod anabl. Bwriad y polisi hwn yw amlinellu rhai o'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau yna.

Yn ogystal mae'n ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i leihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd ddim yn rhannu'r nodweddion yna. Y nodweddion sydd wedi eu gwarchod ydi:

- Oedran
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Daeth Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn weithredol yng Nghymru ar 1 Ebrill 2021. Mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn golygu nid yn unig gwella pethau i bawb ond gweithredu'n benodol i leihau'r bwlch rhwng cymunedau ac unigolion dan anfantais economaidd a chymdeithasol a gweddill cymdeithas.

Rhan A – Ymrwymiad

- 1. Hyrwyddo Cydraddoldeb yn unol â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010 (y dyletswyddau cyffredinol a'r dyletswyddau penodol yng Nghymru)**
 - 1.1 Rhoddir sylw dyledus gan y Cyngor i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, boed hynny'n erbyn defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o staff neu

aelodau o'r gymuned ehangach. Ymrwymwn i wneud hynny'n ein gwaith o ddydd i ddydd ac wrth newid unrhyw bolisïau neu weithdrefnau.

- 1.2 Mae'r Cyngor yn gweithio i ddatblygu ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau ac unigolion penodol er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal a chael gwared ar, neu leihau, unrhyw anfanteision mae pobl yn eu profi mewn perthynas â'u nodwedd cydraddoldeb. Mae hyn yn golygu bodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion grwpiau eraill. Rydym hefyd yn annog pobl gyda nodweddion gwarchoddedig, lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel, i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
- 1.3 Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu ei gyfrifoldeb i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng y gwahanol gymunedau a grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig a'i gilydd, gan daclo gwahaniaethu a hyrwyddo dealltwriaeth. Gall hyn gynnwys cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion grwpiau eraill. Gall hefyd olygu trin rhai carfannau'n fwy ffafriol nag eraill, heb fynd yn groes i ddarpariaethau eraill y Ddeddf.
- 1.4 Yn ychwanegol, mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r ddyletswydd penodol i greu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob 4 blynedd sy'n cynnwys amcanion am y cyfnod hynny, gydag amcan ar wahaniaeth tâl bob tro. Ceir hefyd gynllun gweithredu sy'n amlinellu'r gwaith penodol y mae'r Cyngor am wneud yn ystod y cyfnod i hyrwyddo cydraddoldeb. Cyhoeddir adroddiad blynyddol bob blwyddyn i adrodd ar gynnydd.
- 1.5 Cesglir gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol er mwyn llywio ein gwaith a'i gyhoeddi'n achlysurol. Mae manylion nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol.
- 1.6 Gweler isod am fwriadau'r Cyngor ynglŷn ag ymgysylltu, asesu effaith, hyfforddiant a chaffael sydd hefyd yn ddyletswyddau penodol.

2. **Gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**

- 2.1 Y diffiniad o anfantais economaidd-gymdeithasol yw byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas. Nid yw'n golygu tlodi ariannol yn unig. Mae ymchwil wedi dangos bod mwy o risg o anfantais mewn ardaloedd gwledig os yw mynediad at wasanaethau yn cael ei gynnwys wrth fesur tlodi.

- 2.2 Wrth weithredu ar y ddyletswydd yma mae'n bwysig ystyried grwpiau sydd â phrofiad cyffredin. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, pobl sydd wedi bod yn ddigartref neu rai â phrofiad o un o wasanaethau'r Cyngor. Mae pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig yn gymuned buddiant hefyd.
- 2.3 Rhaid hefyd ystyried cymunedau lle, sef pobl sydd a chysylltiad a'i gilydd oherwydd ble maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser ynddo mewn ffyrdd eraill. Nid yw anfantais gymdeithasol-economaidd yn parchu ffiniau trefol a gwledig, ac mae sawl agwedd ar fywyd bob dydd yn gallu dwysáu'r anfantais honno. Mae'n bwysig ystyried tlodi cudd mewn cymunedau llai. Gall costau byw a mynediad at drafnidiaeth, addysg a chyflogaeth gael effaith fwy negyddol ar boblogaethau gwledig.
- 2.4 Mae'n bwysig rhoi sylw i groestoriadedd wrth ystyried yr uchod. Mae hyn yn golygu y ffordd mae ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth yn rhyngweithio a'i gilydd ac yn arwain at anfantais ychwanegol, e.e. byddai benyw du ifanc yn profi unrhyw anfantais mae merched, pobl du a lleiafrif a pobl ifanc yn eu profi mewn unrhyw sefyllfa.
- 2.5 Beth sy'n bwysig yma yw lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau. Mae hyn yn golygu y gwahaniaethau mesuradwy rhwng y canlyniadau ar gyfer y bobl hynny sydd wedi profi anfantais gymdeithasol-economaidd a gweddill y boblogaeth. Mae'n bwysig ein bod fel mudiad yn defnyddio data a llais trigolion i adnabod lle gallwn gael yr effaith gadarnhaol fwyaf.
- 2.6 Byddwn yn defnyddio ein trefn Asesiad Effaith Cydraddoldeb i adnabod effeithiau economaidd-gymdeithasol ein penderfyniadau strategol. Bydd yn ein caniatáu i adnabod tystiolaeth a gwella ein polisiau a gweithdrefnau a rhoi'r wybodaeth i'r penderfynwyr i sicrhau fod sylw dyledus yn cael ei roi i anfantais economaidd-gymdeithasol.

3. Cyfrifoldeb am weithredu ein dyletswydd tuag at gydraddoldeb

- 3.1 Mae Cabinet y Cyngor yn blaenoriaethu cydraddoldeb ac wedi enwebu aelod arweiniol yn y maes. Mae'n ddyletswydd ar Aelodau i sicrhau fod cydraddoldeb yn treiddio drwy'r broses ddemocrataidd, drwy sicrhau fod y sylw dyledus yn cael ei roi i'r materion yma.
- 3.2 Cyfrifoldeb bob Adran a Gwasanaeth, yn eu gwaith bob dydd, neu wrth wneud newidiadau i bolisi neu wasanaeth, yw adnabod unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar bobl neu grwpiau gydag un neu fwy o nodweddion cydraddoldeb a gweithredu'n addas. Rhaid iddynt hefyd ystyried anfantais economaidd-

gymdeithasol mewn materion strategol. Mae hyn yn cynnwys gwneud asesiad effaith cydraddoldeb (gweler pwynt 4) wrth wneud newidiadau perthnasol.

- 3.3 Ond yn anad dim, disgwyliad y Cyngor yw i bob aelod o staff drin eu cydweithwyr a'r cyhoedd gyda parch ac urddas. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod pob unigolyn yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion. Mae gan weithwyr y cyfrifoldeb dros addysgu eu hunain am gydraddoldeb a gwneud hyfforddiant addas.

Rhan B – Ffyrdd o Weithredu

4. Asesu Effaith, Cydweithio ac Ymgynghori

- 4.1 Y ffordd orau o gael gwared ar, neu leihau, rhwystrau ar gyfer pobl a nodweddion gwarchoddedig gwahanol yw holi eu barn am natur unrhyw rwystrau a sut i gael gwared arnynt. Mae hi'n hynod bwysig derbyn barn eang wrth wneud newidiadau i bolisiâu neu wasanaethau fydd yn eu heffeithio.
- 4.2 Mae'n bwysig cael tystiolaeth feintiol, fel ystadegau, canllawiau a data lleol a chenedlaethol ayb, er mwyn gwneud penderfyniadau am newidiadau hefyd.
- 4.3 Bydd angen defnyddio'r dystiolaeth yma i ddiwallu dyletswydd y Cyngor i wneud Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Rhaid ystyried gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cyfansawdd bob tro y ceir newid mewn polisi neu wasanaeth, pan fydd polisi neu wasanaeth yn dod i ben, neu wrth greu un newydd. Os yw'r newid yma'n cael effaith ar bobl Gwynedd neu ar aelodau staff mae'n angenrheidiol gwneud asesiad llawn.
- 4.4 Peth pwysig i'w gofio yw fod gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn rhan ganolog o greu neu newid polisi neu wasanaeth ac nid yn broses ar wahân. Ei fwriad yw rhoi cymorth i sicrhau fod y newid mewn polisi / gwasanaeth yn addas, effeithiol a chynaliadwy. Bydd hefyd yn gofnod o'r ymdrech fydd wedi ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effaith negyddol a all godi o'r newid. Mae felly'n bwysig iawn i'w wneud yn amserol. Ceir mwy o wybodaeth am wneud asesiad o effaith ar y dudalen fewnrwyd [yma](#).
- 4.5 Mae'r Cyngor yn adnabod yr angen i ddysgu ac esblygu. Mae'n rhaid adweithio'n gadarnhaol i unrhyw fethiant neu feirniadaeth gan ddysgu o unrhyw gamgymeriadau.

5. **Parch ac Urddas tuag at ddefnyddwyr ein gwasanaethau**

- 5.1 Mae'r Cyngor yn ymrwymo i drin pob un o bobl Gwynedd gyda'r parch ac urddas, beth bynnag eu cefndir, anghen neu nodweddion cydraddoldeb.
- 5.2 Rhaid i bawb wneud eu rhan i gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl anabl, beth bynnag eu hamhariad, rhag cymryd rôl lawn yn y gymdeithas a derbyn gwasanaethau'r Cyngor yn ddidrafferth. Mae hyn yn golygu fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.
- 5.3 Mae'r Cyngor yn credu fod gan unigolion trawsryweddol / trawsrywiol hawl i ymdriniaeth gyfartal, i gael eu gwarchod rhag camwahaniaethu, ac i dderbyn cefnogaeth lawn gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gwahaniaethau rhwng rhyw fiolegol a hunaniaeth o ran rhywedd. Ni fydd y Cyngor yn camwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail trawsryweddol, trawsrywiol, rhyngrywiol neu unrhyw broses o ailbennu rhywedd, sydd wedi'i gychwyn neu wedi'i gwblhau.
- 5.4 Mae'r Cyngor yn derbyn Iaith Arwyddion Prydeinig fel un o ieithoedd Cymru.
- 5.5 Yn ogystal mae'r Cyngor yn adnabod fod pobl deithiol, fel Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, Roma, Teithwyr Newydd yn ei chael yn anodd i gael mynediad at wasanaethau am amrywiaeth o resymau cymhleth. Bwriad y Cyngor yw adnabod y rhwystrau yma a gweithredu arnynt. Rydym hefyd yn ymwybodol fod aelodau'r gymuned yn agored iawn i drosedd hil.
- 5.6 Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un – aelodau eraill o staff, derbynwyr gwasanaeth neu aelodau eraill o'r cyhoedd. Nid oes unrhyw le i stereoteipio na rhagfarn yn erbyn unrhyw unigolyn neu grŵp.
- 5.7 Mae'r ffordd mae aelod o staff yn siarad gyda rhywun, a'r derminoleg sy'n cael ei ddefnyddio, yn hynod bwysig i sicrhau parch ac urddas.
- 5.8 Disgwylir i bob aelod o staff ac Aelod Etholedig wneud yr hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cael eu darparu ar eu cyfer gan y Cyngor.
- 5.9 Dylai'r lluniau sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor ar y we ac yn ei daflenni gwybodaeth ddangos delweddau positif o bobl gyda nodweddion cydraddoldeb.
- 5.10 Mae gan y Cyngor ddyletswydd i annog pobl o wahanol gefndiroedd, a gyda nodweddion cydraddoldeb gwahanol, i sefyll mewn etholiadau lleol ac i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yn gyffredinol.

6. Mynediad at Wybodaeth

- 6.1 Mae'r Cyngor yn adnabod fod paratoi gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei ddeall yn rhoi mynediad i bobl at wasanaethau'r Cyngor. Rydym yn anelu i ddarparu gwybodaeth mewn ffordd syml, ddealladwy ac mewn dulliau perthnasol i ofynion pobl yn ôl eu hangen.
- 6.2 Dylai unrhyw ddogfen ar gyfer y cyhoedd fod mewn Cymraeg a Saesneg clir, sef iaith bob dydd yn hytrach na iaith corfforaethol ac ni ddylai gynnwys jargon a thalfyriadau, Dylai fod mewn print o leiaf 12 pwynt ffont Arial (ond 14 fyddai orau) neu debyg. Rhaid hefyd fod yn ofalus hefo dewis lliw a chefnidir er mwyn sicrhau fod yr wybodaeth yn ddarllenadwy i bawb.
- 6.3 Mae'n gyfrifoldeb ar bob gwasanaeth unigol o fewn y Cyngor i ddarparu dogfennau'n unol ag angen unigolion e.e. iaith Arwyddion Prydeinig (BSL), print mawr, awdio, Hawdd-i-ddarllen ac ati.
- 6.4 Mae'n bwysig fod y Cyngor yn cofio fod pobl yn byw o fewn Gwynedd sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith. Rhaid ystyried eu hanghenion hwy wrth baratoi gwybodaeth, un ai drwy gyfieithu dogfennau'n ôl yr angen neu drwy defnyddio dulliau gwahanol o gyfathrebu.
- 6.5 Dylid anelu i ddefnyddio dehonglwyr a chyfieithwyr proffesiynol bob tro. Mae hyn yn sicrhau ansawdd er mwyn i chi fod yn hyderus fod pawb yn deall ei gilydd. Mae hefyd yn sicrhau cyfrinachedd ac urddas mewn cyfarfodydd a dogfennau sy'n delio â materion sensitif.
- 6.6 Mae sicrhau mynediad i bawb o'r cyhoedd at ein trefniadau democratiaeth, hynny yw i weld a chlywed y trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir mewn pwyllgorau, yn allweddol bwysig hefyd. Gan fod yr ardal ddaearyddol yn un eang, mae'n angenrheidiol addasu ein trefniadau hanesyddol o gynnig mynediad i'r cyhoedd yn y siambr yn unig, a hynny fel arfer yng Nghaernarfon. Bydd y Cyngor yn parhau i ymchwilio i ffyrdd amrywiol i'r cyhoedd gael mynediad i wrando ar y trafodaethau, yn benodol trwy gyfwng gwe-ddarlledu neu drefniadau eraill electroneg. Mae hyn wrth gwrs yn ymestyn ein darpariaeth bresennol ac yn fwy hwylus a hylaw i bawb. Bydd hyn yn mynd law yn llaw â hwyluso trefniadau i'r Aelodau wrth fynychu'r cyfarfodydd.
- 6.7 Rhaid i unrhyw un sy'n trefnu cyfarfod, cyfarfod cyhoeddus neu ddigwyddiad ddarparu cefnogaeth ychwanegol, fel cefnogaeth gyfathrebu (lŵp, offer PA, dehonglydd iaith Arwyddion Prydeinig (BSL), Palanteipydd, rhywun i gymryd nodiadau, adfocatiaeth, ayb) yn ôl yr angen. Mae'n bwysig gofyn i'r rhai fydd yn mynychu pa fath o gefnogaeth maent eu hangen, os ydi hynny'n bosib.

6.8 Byddwn yn gwella hygyrchedd ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru) yn barhaus ac ymdrechu i gyrraedd safon AA [Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We fersiwn 2.1 \(cyswllt allanol\)](#) lle bynnag bo hynny'n bosibl.

7. **Darparu Gwasanaethau**

7.1 Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn gwneud ac yn ceisio darparu'r gwasanaeth gorau posib ar gyfer ein dinasyddion. Prif fwriad y ddogfen yw sicrhau fod anghenion pawb yn cael eu hystyried beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig a'r rhwystrau maent yn wynebu.

7.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau mewn modd sy'n gyson ac yn deg, gan staff sydd wedi'u hyfforddi ac yn gweithredu'n ôl canllawiau ymarfer da ym maes cydraddoldeb.

7.3 Ceisiwn hwyluso mynediad at wasanaethau drwy adnabod, ac osgoi ble'n bosib, unrhyw rwystrau; boed y rheini'n ffisegol, diwylliannol, neu'n ymwneud â chanfyddiad a diffyg gwybodaeth.

7.4 Byddwn yn gwella ein gwasanaethau drwy annog cyfranogiad amserol ein defnyddwyr sydd ag amrywiaeth o nodweddion gwarchoddedig a chynnwys barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth gychwyn neu addasu trefn.

7.5 Byddwn yn ystyried unrhyw gwyn a honiad o gamwahaniaethu'n ofalus ac yn ymateb yn drwyadl a phrydlon yn unol â Threfn Gwyno'r Cyngor.

7.6 Os yw'r Cyngor yn darparu gwasanaethau mewn adeiladau sydd ddim yn berchen iddynt, rhaid gwneud yn siŵr fod y mynediad yn addas i bawb.

7.7 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau fod ei weithwyr, contractwyr, sefydliadau a phartneriaid sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor yn ymwybodol o'u dyletswydd i weithredu ar sail cydraddoldeb. Byddwn yn cynnwys unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb angenrheidiol wrth ysgrifennu manyleb ar gyfer gosod cytundebau. Rydym hefyd am fonitro trefniadau unrhyw gontract i sicrhau fod materion cydraddoldeb a chynhwysiad yn cael eu parchu.

8. Adeiladau ac Eiddo'r Cyngor

- 8.1 Mae eiddo'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth eang o adeiladau a mannau eraill, sy'n cynnwys swyddfeydd, ysgolion, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, mannau parcio, canolfannau ailgylchu ayb.
- 8.2 Rhaid i'r Cyngor ddarparu mynediad sy'n sicrhau y gall yr holl gwsmeriaid dderbyn gwasanaeth cyfartal, yn annibynnol, heb orfod dibynnu ar bobl eraill am gymorth os ydi hynny'n rhesymol bosib. Lle nad yw hyn yn bosibl bydd y Cyngor yn chwilio am ffyrdd eraill priodol o gynnig gwasanaeth.
- 8.3 Wrth ystyried hygyrchedd adeilad rhaid ystyried anghenion ystod amrywiol o bobl. Mae'n bwysig hefyd i gofio fod addasiadau sy'n cael eu gwneud i un carfan yn gallu helpu carfan arall e.e. bydd sicrhau mynediad ffisegol addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn yn sicrhau mynediad i deuluoedd gyda pramiau hefyd. Er fod mynediad ffisegol yn bwysig byddwn hefyd yn ystyried anghenion eraill e.e. lŵp ar gyfer pobl trwm eu clyw, arwyddion sy'n hawdd eu deall ar gyfer ystod o bobl, contrast lliw ar gyfer pobl rhannol ddall ayb.
- 8.5 Mi fydd pob adeilad newydd yn cael ei ddylunio er mwyn darparu mynediad a chyfleusterau cyfartal i bawb ac yn cynnwys ymgynghoriad gyda'i ddefnyddwyr.
- 8.6 Bydd unrhyw welliannau neu atgyweirio mae'r Cyngor yn ei wneud i'w adeiladau yn cynnwys gwaith ar wella mynediad, gan edrych yn arbennig ar fynediad, cyfleusterau toiled, mannau newid, dulliau cyfathrebu ayb, eto gydag ymgynghoriad addas.
- 8.7 Bydd y Cyngor yn gwirio'n aml fod ei adeiladau, yn enwedig y rhannau sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd, fel Siopau Gwynedd, yn parhau yn addas ac mor hygyrch â phosib. Mae'n bwysig cynnal a chadw unrhyw offer neu welliant sy'n cael ei ddarparu, e.e. systemau lŵp, rampiau, cerbiau gostyngol ayb.
- 8.8 Rhaid gwneud trefniadau amgen wrth ystyried gwacau'r adeilad mewn argyfwng. Bydd yn ffurfio rhan o drefniadau asesu risg a rheoli risg ffurfiol. Rhaid i unrhyw drefniadau, cyn belled ag y bo modd, gynnal urddas unigolion a dylid codi ymwybyddiaeth am y trefniadau.
- 8.9 Mae'r Cyngor yn darparu mannau parcio cyhoeddus drwy'r sir. Rhaid darparu digon o fannau parcio hygyrch ar gyfer deilyddion bathodynau glas yn unol â deddfwriaeth. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithredu ar faterion iechyd a diogelwch drwy sicrhau goleuadau addas a delio a gordyfiant planhigion a

materion eraill sy'n effeithio hygyrchedd. Byddwn yn ystyried unrhyw anghenion eraill sy'n dod i'n sylw.

- 8.10 Mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn darparu manau parcio hygyrch ar gyfer pobl anabl yn ei fannau parcio staff yn unol â deddfwriaeth. Rydym hefyd yn ystyried unrhyw faterion eraill fel yn 8.9.

9. Isadeiledd a Cheisiadau Cynllunio

- 9.1 Mae'r Llawlyfr Rheoli a Datblygu (Mai 2017) yn amlinellu pryd mae angen cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS) gyda cheisiadau cynllunio. Ymysg materion eraill, mae'n rhaid i'r DAS a gyflwynir gyda chais cynllunio egluro'r polisi neu'r dull gweithredu a fabwysiadwyd o ran mynediad, a sut y rhoddwyd sylw i bolisiâu sy'n ymwneud â mynediad yn y cynllun datblygu ac hefyd egluro sut y rhoddwyd sylw i faterion penodol a allai effeithio ar fynediad i'r datblygiad.
- 9.2 Mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladau yn gweithredu i sicrhau cydymffurfiaid a gofynion Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu. Mae'n ofynnol i ddatblygwyr gwneud darpariaeth resymol o safbwynt mynediad a defnydd cyffredinol o'r adeiladau, cyfleusterau ac offer glanweithiol mewn adeiladau domestig a masnachol.
- 9.3 Bydd y Cyngor yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr holl waith a wneir ar lecynnau i gerddwyr – llecynnau newydd neu'r rhai sy'n cael eu huwchraddio – yn cael eu dylunio i gwrdd ag anghenion pawb, gan roi ystyriaeth arbennig i olau a mynediad.
- 9.4 Sicrhawn fod gwybodaeth, e.e. arwyddion, rhybuddion ac ati, yn glir, dwyieithog ac wedi eu gosod mewn manau hwylus.
- 9.5 Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl waith stryd a gwaith ffordd yn ddiogel a rhoddir gwybod i yrwyr a cherddwyr ymhell o flaen llaw ynglŷn â natur unrhyw rwystrau. Byddwn yn rhoi sylw penodol i anghenion pobl anabl.
- 9.6 Yn ogystal, bydd y Cyngor yn asesu unrhyw anghenion eraill sy'n gysylltiedig â gwaith isadeiledd e.e. cyrbau gostyngol a chroesfannau a bydd yn ceisio cynnwys y nodweddion hyn yn yr isadeiledd os yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny.
- 9.7 Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau diogelwch pawb drwy ymgymryd ag archwiliadau a chynnal a chadw'r isadeiledd i'r safon briodol.

10. Cludiant Cyhoeddus

- 10.1 Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl systemau cludiant cyhoeddus yn y sir yn hwylus a hygyrch i holl aelodau'r gymuned.
- 10.2 Bydd yn defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael, sef trwyddedau ac ati, i sicrhau bod y sawl sy'n darparu gwasanaethau cludiant, boed hynny'n fws neu'n dacsï, yn hollol ymwybodol o anghenion ychwanegol rhai grwpiau a bod darpariaeth resymol yn cael ei gwneud ar eu cyfer drwy gynnwys y gofynion yn Amodau'r Contract a'u monitro..
- 10.3 Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pawb, beth bynnag eu hanghenion cyfathrebu, yn cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt (gweler uchod). Mae hyn yn unol â Safon Ansawdd Bysiau Gwirfoddol Cymru 2016 sy'n anelu at gynyddu'r defnydd o nodweddion fel system clyweledol i roi gwybod y safle bws nesaf a gwybodaeth hygyrch o'r gwasanaeth amserlen.
- 10.4 Mae'r Safon Ansawdd Bysiau Gwirfoddol Cymru hefyd yn hybu ymwybyddiaeth o anabledau drwy gynnig hyfforddiant i yrwyr ac mae'r Cyngor yn mynnu ar hynny
- 10:5 Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu, dan Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000[PSVAR], fod angen i phob bws a ddefnyddir ar gyfer cludiant cyhoeddus gyda mwy na 22 sedd gydymffurfio'n llawn gan ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn o 1 Ionawr 2020. Byddwn yn sicrhau fod cludiant ysgolion a cholegau yn cydymffurfio ar rheoliadau erbyn Medi 2021. Mae'r newidiadau yma wrth gwrs wedi gafael ac mae'r bysiau ar gyfer cludiant cyhoeddus wedi bod yn rhai sy'n cyd-fynd gyda'r rheolau hyn ers peth amser bellach.
- 10.6 Mae'n hynod bwysig bod unrhyw strategaethau cludiant newydd yn cynnwys darpariaethau llawn ar gyfer pob aelod o'r gymdeithas. Rhaid i hyn gynnwys yr holl isadeiledd trafnidiaeth e.e. mynediad i'r pwyntiau codi a gollwng ar gyfer yr holl gerbydau cludiant cyhoeddus, gan gynnwys llecynnau penodedig i dacsï sy'n agos i ganol y trefi ac ati. Byddwn yn sicrhau hyn drwy wneud asesiad o'r effaith ac ymgynghori gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig penodol.
- 10.7 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r mudiadau cludiant cymunedol lleol er mwyn darparu gwasanaeth cludiant cyhoeddus hyblyg ac addas ar gyfer ardaloedd gweledig Gwynedd.

11. Addysg

- 11.1 Mae Cyngor Gwynedd yn darparu o leiaf un ysgol gynradd ymhob dalgylch ysgol uwchradd sydd yn addas i blant gydag amhariadau corfforol (ysgol ddynodedig).
- 11.2 Os yw rhieni'n dymuno i blentyn fynd i ysgol arall yn y dalgylch bydd y Cyngor a'r ysgol yn edrych ar yr achos yn unigol i weld os yw'n bosib gwneud addasiadau rhesymol sy'n addas ar gyfer y plentyn.
- 11.3 Mae Cyngor Gwynedd yn darparu o leiaf un ysgol uwchradd ym mhob ardal sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
- 11.4 Bydd yr ysgolion hefyd yn cael eu cefnogi i fanteisio ar unrhyw gyfle i wella hygyrchedd yr ysgolion trwy wneud Cynllun Hygyrchedd i leihau rhwystrau o fewn yr ysgol.
- 11.5 Mae gan bob ysgol eu polisïau gwrth-fwlio er mwyn diogelu plant sydd â nodweddion cydraddoldeb penodol.

12. Gofal Cymdeithasol

- 12.1 Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ymrwmo i weithredu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 12.2 Un o brif egwyddorion y ddeddf yw rhoi unigolyn a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddyn nhw er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n creu llesiant.
- 12.3 Mae egwyddorion eraill yn cynnwys yr angen i ddiogelu unigolion rhag camdriniaeth, cynorthwyo pobl i hybu eu llesiant eu hunain, ac annog unigolion i gymryd mwy o ran mewn cynllunio gwasanaethau.
- 12.4 Mae'r egwyddorion yma yn gydnaws gyda egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn greiddiol i sicrhau tegwch i bawb

13. Tai

- 13.1 Mae ein gwasanaeth Tai ac Eiddo wedi ymrwmo i sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

- 13.2 Byddwn yn mynd ati i ceisio cyfarch yr amcanion hyn drwy gynyddu mynediad at dai fforddiadwy.
- 13.3 Byddwn yn paratoi llety a chefnogaeth i unigolion a theuluoedd digartref er mwyn eu cefnogi i gynnal tenantiaethau parhaol.
- 13.4 Yn ogystal, byddwn yn addasu adeiladau i wneud tai yn gartrefi addas i oedolion a phlant sydd ag anableddau.

Rhan 3 - Cyflogaeth

- 14.1 Mae'r Cyngor yn datgan ei ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb mewn cyflogaeth, ac yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldeb i sicrhau cydraddoldeb i'w holl weithwyr ac ymgeiswyr am swyddi, ac i feithrin cyfle cyfartal o fewn y Cyngor.
- 14.2 Mae'r Cyngor yn cymryd camau positif i sicrhau nad oes unrhyw un sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor, neu sydd yn gwneud cais am swydd â ni, yn dioddef gwahaniaethu'n eu herbyn ar sail unrhyw nodwedd cydraddoldeb.
- 14.3 Mae gan staff y Cyngor yr hawl i gael eu trin gyda parch ac urddas yn y gwaith. Nid yw'r Cyngor yn derbyn camwahaniaethu na throstedd casineb o unrhyw fath gan y gyfundrefn, cyd-weithwyr, derbynwyr gwasanaeth nag aelodau eraill o'r Cyngor. (arfer bod yr hen 14.7)
- 14.4 Rhaid i bob polisi a threfn cyflogaeth a hyfforddiant gael ei adolygu'n rheolaidd a'i asesu am effaith ar unigolion sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb. Mae hynny'n bwysig er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac nad oes gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp, boed hynny mewn modd uniongyrchol neu anuniongyrchol.
- 14.5 Rydym yn rhoi gwybod i staff fod ganddynt gyfrifoldeb personol yn y maes cydraddoldeb, a'u bod yn arddangos hynny yn eu perthynas â'u cydweithwyr a thrwy hybu diwylliant o barch yn gyffredinol. Mae gan y Cyngor Gôd Ymddygiad Staff a Pholisi Urddas yn y Gwaith sydd yn gosod allan beth yw'r disgwyliadau o bawb sydd yn gweithio iddo. Rydym hefyd yn rhoi hyfforddiant cyflwyno i bob aelod o staff newydd, yn ogystal â hyfforddiant cyffredinol ar gydraddoldeb a hyfforddiant ychwanegol ar agweddau penodol. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth ddefnyddiol ar y mewnrwyd. (hwn yn cynnwys pwyntiau o'r hen 14.4 ac 14.7)

- 14.6 Rydym yn cynhyrchu canllawiau ymarfer da ar gyfer y meysydd penodol o gyflogaeth, gan gynnwys sicrhau ystyriaeth i faterion cydraddoldeb. Fel enghreifftiau rydym wedi cyhoeddi polisi ar gefnogi merched sydd yn mynd trwy'r menopôs, a hefyd wedi datblygu polisi i gefnogi unigolion trawsryweddol. Mae ein prif flaenoriaethau ar hyn o bryd yn cynnwys:
- Symud unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag datblygu eu gyrfaedd o fewn y Cyngor, gyda ffocws benodol ar ddatblygu merched mewn arweinyddiaeth o fewn y gyfundrefn.
 - Cynnal archwiliadau tâl – yn archwiliad yn y bwlch sydd yn y rhywiau (*gender pay gap*) ac archwiliad cyflog cyfartal.
 - Cymryd camau i wella sut rydym yn recriwtio staff o'r newydd i'r gweithlu.
- 14.7 Rydym yn defnyddio gwybodaeth fonitro i baratoi proffiliau gweithlu i'w cymharu â'r Farchnad Ardal Cyflogaeth Leol a chynlluniau gweithredu. Yn ogystal byddwn yn mabwysiadu camau positif pe bai'n ymddangos nad yw'r polisi yn effeithiol.
- 14.8 Mae'r Cyngor yn ymrwymo i baratoi hyfforddiant cydraddoldeb sy'n addas ar gyfer holl weithwyr y Cyngor.

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1 Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas y polisi yw sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar ei ddyletswydd i sicrhau hygyrchedd i bawb. Bydd yn cynnwys Polisi Cydraddoldeb a Pholisi Mynediad a fabwysiadwyd beth amser yn ôl rŵan ac mae llawer o bethau, gan gynnwys y Ddeddfwriaeth, wedi newid erbyn hyn. Mae felly'n amser ei ddiwygio.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

04/05/2017. Hwn yw'r trydydd fersiwn

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau etholedig
Penaethiaid gwasanaeth
Mudiadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb
Unigolion â nodweddion cydraddoldeb

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Yn 2017 anfonwyd drafft o'r ddogfen at fudiadau sy'n cynrychioli pobl hefo nodweddion penodol ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Felly rydym wedi defnyddio sylwadau grŵp arbenigol Grŵp Craidd Cydraddoldeb a sylwadau o ymgynghoriadau eraill mae'r Cyngor wedi ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys yr ymgynghoriadau ar y Cynllun Cydraddoldeb a Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi sydd wedi digwydd. Roeddem hefyd yn gobeithio cael mwy o wybodaeth o'r ymgynghoriad sy'n rhan o Amcan 2 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diweddaf ond ni adnabuwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol o'r cam cyntaf. Rydym wedi penderfynu gweithredu gyda'r wybodaeth sydd gennym gan adolygu'r ddogfen yn aml.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Roedd y sylwadau a'r materion a godwyd yn yr amrywiol ymgynghoriadau yn cadarnhau ein bod ar y trywydd iawn a bod angen i ddarparu Polisi fel hyn. Bu i ni ystyried yr holl sylwadau wrth greu'r ddogfen

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae gennym ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i dalu sylw dyledus i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl hefo nodwedd cydraddoldeb a phobl sydd heb y nodwedd yna
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodwedd cydraddoldeb a phobl sydd heb y nodwedd yma.

Mae talu sylw dyledus i hybu cyfle cyfartal yn golygu

- cael gwared ar neu leihau anfanteision mae pobl yn profi oherwydd eu nodwedd cydraddoldeb
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- annog pobl gyda nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus

Mae meithrin perthynas dda yn golygu taclo gwahaniaethu a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd cydraddoldeb a gweddill cymdeithas. Gall hyn olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf wedi ei haddasu'n ddiweddar i gynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ac rydym wedi cynnwys pennod ar y canllawiau yna.

Ystyriwyd hefyd yr wybodaeth yn y ddogfen "A yw Cymru'n Decach 2018?" wrth addasu'r drafft.

Yn ychwanegol ystyriwyd yr holl ddata sydd wedi dod i mewn yn sgil Covid-19 a'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'r ymgynghoriad sy'n cael ei wneud dan Amcan 2 Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 er mwyn addasu'r Polisi ymhellach yn 2022 (yn ddibynnol ar yr amserlen ddiwygiedig oherwydd COVID-19).

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae'r polisi yn cyfarch nifer o faterion yn ymwneud â hil e.e. yr angen i ystyried ieithoedd gwahanol a bod yn ymwybodol o anghenion diwylliannol. Mae cyfarch trosedd casineb, stereoteipio a chamwahaniaethu yn faterion sy'n cael eu hystyried hefyd. Mae sôn yn y polisi am ystyried pobl o hil sipswyn, Roma a theithwyr.</p> <p>Mae ystyriaethau hil yn arbennig o bwysig yn sgil y pandemig Covid-19 a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi roi cymorth i'r Cyngor i sicrhau tegwch i'n staff a gwella amrywiaeth ein gweithlu.</p>
Anabledd	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae hygyrchedd o bob math yn bwysig iawn ar gyfer pobl anabl gydag amhariadau gwahanol ac mae'r polisi'n blaenoriaethu hynny.</p>

		<p>Mae cyfarch trosedd casineb, stereoteipio a chamwahaniaethu yn faterion sy'n cael eu hystyried hefyd. Mae'r polisi'n glir fod angen ystyried pobl hefo bob math o anabledd a pheidio meddwl fod hygyrchedd yn ymwneud â mynediad ffisegol yn unig.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi roi cymorth i'r Cyngor i sicrhau tegwch i'n staff a gwella amrywiaeth ein gweithlu.</p>
Rhyw/ Rhywedd	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae materion rhyw yn cael eu cyfarch yn arbennig yn y bennod cyflogaeth.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi roi cymorth i'r Cyngor i sicrhau tegwch i'n staff a gwella amrywiaeth ein gweithlu. Mae hyn yn enwedig o bwysig wrth i ni ystyried y ffaith fod data'n dangos fod merched wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau gofalu yn ystod y pandemig.</p>
Oedran	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae materion hygyrchedd yn greiddiol i annibyniaeth pobl hŷn ac felly mae'r polisi'n cyfarch nifer o faterion sy'n bwysig iddynt.</p> <p>Mae pobl ifanc hefyd yn wynebu stereoteipio a chamwahaniaethu ac felly mae'r neges i drin pawb yn ôl eu hangen yn bwysig iddynt hwy hefyd.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi gryfhau'r angen i sicrhau tegwch i'n staff yn unol â'u hanghenion ac i wella amrywiaeth ein gweithlu.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Disgwylir i staff drin pawb yn ôl eu hangen felly mae hynny'n bwysig i bobl beth bynnag eu cyfeiriadedd rhywiol.</p> <p>Mae cyfarch trosedd rhyw, stereoteipio a chamwahaniaethu yn bwysig hefyd.</p>

		<p>Disgwylir hefyd i'r polisi gryfhau'r angen i sicrhau tegwch i'n staff yn unol â'u hanghenion ac i wella amrywiaeth ein gweithlu</p>
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli.</p> <p>Mae cyfarch trosedd casineb, stereoteipio a chamwahaniaethu'n bwysig hefyd.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi gryfhau'r angen i sicrhau tegwch i'n staff yn unol â'u hanghenion ac i wella amrywiaeth ein gweithlu</p>
Ailbennu rhywedd	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae neges y polisi i drin pawb yn ôl eu hangen yn arbennig o bwysig yma.</p> <p>Mae'n sôn penodol am yr angen i drin pobl trans hefo parch ag urddas.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi gryfhau'r angen i sicrhau tegwch i'n staff yn unol â'u hanghenion ac i wella amrywiaeth ein gweithlu</p>
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae darparu cyfle cyfartal i ferched ar gyfnod mamolaeth yn bwysig.</p> <p>Mae hefyd yn bwysig darparu ar gyfer aelodau o'r cyhoedd yn ystod yr amser yma.</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi gryfhau'r angen i sicrhau tegwch i'n staff yn unol â'u hanghenion ac i wella amrywiaeth ein gweithlu</p>
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli.</p>

		<p>Wedi dweud hynny nid oes sôn penodol yn y polisi am briodas a phartneriaeth sifil</p> <p>Disgwylir hefyd i'r polisi gryfhau'r angen i sicrhau tegwch i'n staff yn unol â'u hanghenion ac i wella amrywiaeth ein gweithlu</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif / negyddol / dim	<p>Disgwylir i'r polisi atgoffa staff o'r angen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pawb a lleihau unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Mae'r polisi yn cyfarch yr angen i ystyried iaith o dan y nodwedd hil e.e. yr angen i ystyried ieithoedd gwahanol a bod yn ymwybodol o anghenion diwylliannol.</p> <p>Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor hefyd i ystyried effaith ei benderfyniadau ar y Gymraeg dan ofynion Mesur y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, ac mae Polisi Iaith yn cael ei weithredu i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau a bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn ddwyieithog.</p>

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Pwrpas y polisi yn atgoffa staff o'r angen i gael gwared ar gamwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Y ffyrdd o wneud hyn ydi arfogi staff hefo'r wybodaeth gywir er mwyn trin pobl yn ôl eu hangen gyda pharch ac urddas.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Eto mae hyn yn un o brif bwrpasau'r polisi. Bydd y polisi'n atgoffa staff o'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb drwy sicrhau fod ganddynt yr

		wybodaeth gywir, ac i drin pobl yn ôl eu hangen a gyda pharch ac urddas.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Trwy lleihau rhwystrau bydd y polisi yn hybu perthynas da rhwng pobl gyda nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Mae'r polisi'n annog cynnwys pobl hefo nodweddion cydraddoldeb wrth ddarparu a newid gwasanaethau.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae gan y Cyngor Bolisi Iaith sydd cael ei weithredu ochr yn ochr â'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant ac yn sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau a gwybodaeth yn unol ag angen a gofyn y boblogaeth o safbwynt iaith. Mae egwyddorion Mesur y Gymraeg o peidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'r polisi hwnnw. Mae'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn ymwneud a materion sydd yn mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth ddwyieithog ac yn ystyried anghenion ychwanegol.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Gan fod Polisi Iaith y Cyngor yn sefyll ar ei ben ei hun ac yn gosod yr arweiniad ar gyfer mynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, ni ystyrir bod angen gwneud newidiadau i'r polisi penodol hwn i gyfarch yr angen i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae Polisi Iaith y Cyngor wrthi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd cyfle i edrych ar welliannau a chyfleoedd i gael effaith fwy cadarnhaol wrth gynnal asesiad ar y diwygiadau hynny.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Wrth sicrhau tegwch pan yn derbyn gwasanaethau.

Mae gwella amrywiaeth a thegwch ein gweithlu byddwn hefyd yn rhoi cymorth i bobl â nodweddion cydraddoldeb penodol, sy'n ystadegol yn fwy tlawd na gweddill cymdeithas, i gael gwell swyddi.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd--Gymdeithasol?

Rydym wedi ystyried yr holl ffactorau wrth greu'r polisi.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ydi. Bwriad y polisi yw cael gwared ar rwystrau i bobl sydd ag unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb ac i hyrwyddo cyfle cyfartal. Os fydd holl weithwyr y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r polisi gallwn sicrhau tegwch i drigolion Gwynedd.

Bydd y polisi hefyd yn helpu i sicrhau cyfleoedd cyfartal i'n gweithlu ac i'r rhai sydd eisiau ymgeisio am swydd o fewn y Cyngor.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nac ydi

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Dim yn berthnasol. Bwriad y cynllun yw lleihau neu liniaru effeithiau negyddol ar bobl Gwynedd

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Amherthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddwn yn adolygu'r defnydd o'r Polisi yn flynyddol.

Eitem 8

CYFARFOD	Cabinet
DYDDIAD	6 Gorffennaf 2021
TEITL	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
PWRPAS	Cymeradwyo trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd Cabinet er cyfarch gofynion newydd yn Rhan 3 o'r Deddf.
AELOD CABINET	Cyng. Nia Jeffreys
AWDURON	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ac Iwan Evans, Swyddog Monitro

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn mabwysiadu trefniadau a'r Protocol ar gyfer parhau i gyfarfod yn rhithiol hyd eu hadolygir yn unol a'r adroddiad.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Adran 47 o Ddeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn sefydlu trefniadau sydd yn caniatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell. Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu trefniadau ar gyfer cyflawni hyn a'u cyhoeddi. Gellir gweld y rhan perthnasol o'r rhaglen waith yn Atodiad A.

Gan fod y materion yma ynglŷn a threfnu cyfarfodydd y Cabinet gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnal eu cyfarfodydd.

3. Mynediad i'r Cyhoedd

1. Mae hawl mynediad y cyhoedd a'r wasg i gyfarfodydd y Cabinet yn egwyddor statudol sylfaenol yn Neddfwriaeth Llywodraeth Leol. Yn flaenorol roedd hyn yn seiliedig ar sicrhau mynediad y cyhoedd a'r wasg i'r ystafell/ siambr lle cynhaliwyd y cyfarfod (heblaw am faterion Eithriedig). Dylid nodi, er fod yr egwyddorion bron yr un peth, mae trefniadau Cabinet mewn cyfundrefn benodol ar wahân.

2. Mae Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn addasu y ddeddfwriaeth yma drwy ganiatáu i'r Awdurdod gynnal cyfarfodydd yn rhithiol. Hynny yw, fod mynediad y cyhoedd a'r wasg yn cael ei ddarparu yn rhithiol. Gall hyn fod drwy we-ddarlledu y cyfarfod ond gall fod drwy ddulliau electroneg eraill sydd yn caniatáu iddynt weld a chlywed y cyfarfod. Felly, lle mae cyfarfod sydd yn llwyr drwy drefn rhithiol, yn hytrach na datgan amser a lleoliad y cyfarfod ar flaen y rhaglen, rhaid datgan sut y gellir cael mynediad i'r cyfarfod.

Cynnal y Cyfarfod

3. Mae rhaid i'r Cyngor yn ôl Adran 47 o'r Ddeddf fabwysiadu a chyhoeddi trefniadau sydd yn golygu fod modd cynnal cyfarfodydd drwy gyfrwng cyfarpar sydd yn caniatáu i bersonau nad ydynt yn yr un lle fynychu'r cyfarfod. Gall cyfarfodydd o'r fath fod yn llwyr drwy drefniadau rhithiol neu yn

gyfuniad o gyfarfod sydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad gyda rhai yn mynychu o bell. Er y gellir cynnal cyfarfod sydd yn llwyr mewn ystafell gyfarfod neu siambr rhaid sicrhau fod modd i'r rhai sydd yn cymryd rhan fynychu o bell. Mae'r term "hybrid" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer disgrifio cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn y modd yma, er mae'n debyg y bydd yn cynrychioli trefn lled arferol i'r dyfodol.

4. Mae'r ddarpariaeth yma mewn grym ers 1af o Fai eleni. Fel rhan o'r gwaith mae gofyn fod yr Awdurdod yn mabwysiadu a chyhoeddi eu trefniadau ar gyfer cyflawni y gofynion yma a'i ail gyhoeddi os cyfyd newidiadau.

5. Ar hyn o bryd rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig. Mae gwaith prosiect penodol wedi ei sefydlu sy'n edrych ar y gwaith i ddatblygu'r dechnoleg angenrheidiol er mwyn cynnig cyfarfodydd hybrid - cyfarfodydd sy'n caniatáu mynediad o bell ac mewn lleoliad penodol. Mae'r datblygiadau hyn yn symud yn eu blaen. Bydd yn angenrheidiol sicrhau bod y ddarpariaeth yn dechnegol rhwydd i'w ddefnyddio ac yn ateb gofynion dwyieithrwydd, materion pleidleisio, gwe ddarlledu ayyb.

6. Mae hyn yn hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau Coronafeirws sydd yn berthnasol i'n penderfyniadau ynglŷn a mynychu swyddfydd.

Deddf Cydraddoldeb 2010

7. Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswydd dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddal sylw priodol at yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a gormesu anghyfreithlon, ynghyd ag ymddygiadau eraill a waherddir dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn ogystal mae angen cynyddu cyfle cyfartal a hyrwyddo perthnasau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad oes ganddynt (y Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol). Yn unol â'r gofyn yng Nghymru, ac er cyfarch y dyletswydd yma, mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi. Mae wedi ei atodi yn Atodiad Ch ac nid yw wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad.

8. Felly, er mwyn ymateb i'r gofynion uchod, awgrymir y dylid sefydlu a chyhoeddi ein trefniadau dros dro tra bo'r gwaith datblygol uchod yn digwydd. Bydd angen adolygu'r trefniadau yn gyson. Byddwn hefyd yn adrodd diweddariad i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2021.

9. Mae dau opsiwn ar gyfer galluogi mynediad i'r cyhoedd yn y tymor byr:

- Gwe ddarlledu byw
- Rhannu dolen i'r cyfarfod fydd yn cael ei gynnal fel webinar.

Cyfansoddiad

10. Bydd angen addasu y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r Ddeddfwriaeth yma. Bydd hyn yn cynnwys:

1. Newid y diffiniad o Cworwm er cyfarch mynychu o bell
2. Addasu hawliau mynediad y cyhoedd a'r wasg er cydnabod y cyd-destun electroneg newydd a'r trefniadau statudol amgen.

Mae Atodiad B er gwybodaeth yn adrodd ar y newidiadau yma sydd yn berthnasol i'r Cabinet."

Trefniadau Interim

11. Y bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig yn ystod y cyfnod o fis Mai 2021 ymlaen hyd oni nodir yn wahanol. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid ac yn sicrhau diogelwch dychwelyd i'r siambrau. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn gyson

12. Noder fod y protocol ar gyfer cyfarfodydd rhithiol wedi ei gynnwys fel atodiad C i'r adroddiad hwn ac yn rhan annatod o'n trefniadau.

Sylwadau Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

Cyd awdur yr adroddiad

Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIADAU

Atodiad A - Rhaglen waith

Atodiad B – Newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i'r Cabinet

Atodiad C – Protocol Cyfarfodydd rhithiol

Atodiad Ch - Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb

Atodiad A

(Cyng. = Cyngor Lawn , Cab=Cabinet , PALI = Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, PGD =Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd PS= Pwyllgor Safonau)

Tud. 116

Darpariaethau	Disgrifiad	Darpariaeth Mewn Grym	Swyddog Cyfrifol	Camau Paratoi / Adnoddau	Amserlen
Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,	<ol style="list-style-type: none"> 1. Hawl i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar sail "hybrid" a rhithiol ond mae angen mabwysiadu Polisi 2. Rhoi hawl mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol 3. Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau. 4. Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau 6. Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad 7. Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau 8. Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd. 9. Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad 	<p>1,2,3 Mewn Grym Mai 1 2021</p> <p>4- 9 Mewn grym Mai 2022</p>	<p>Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</p>	<p>Gwasanaeth Democraetiaeth ac laith i arwain ar faterion yn ymwneud â mynediad o bell, cyfranogiad a chyhoeddi rhaglenni ayyb</p> <p>Gwasanaethau Cyfreithiol i arwain ar adolygu Cyfansoddiad a pharatoi Canllawiau .</p>	<p>Adrodd ar 1,2,3 i PGD a Cab Mehefin 2021 gyda adroddiad i'r Cyng. Mis Gorffennaf gyda argymhelliad Polisi cyfarfodydd rhithiol.</p> <p>4- 7 adroddiad i Cab Hydref 2021.</p> <p>8 Adroddiad PGD Hydref 2021 gyda cais am adnoddau i'r cylch bidio ar gyfer 2022.</p> <p>9. Drafft i'r Pwyllgor PALL Hydref 2022.</p>

Atodiad B – Appedix B

Tud. 117

<p>Part 5 Cabinet 5.8.7 Cworwm (a) Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Cabinet fydd chwarter yr aelodau gan gynnwys yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd. (b) Y cworwm ar gyfer cyfarfod un o bwyllgorau'r Cabinet fydd dau. Bydd presenoldeb yn cynnwys presenoldeb drwy ddarpariaeth electroneg sydd yn caniatáu i'r aelod glywed a siarad yn y cyfarfod. Ni fydd unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth dechnolegol (pa un ai yw hynny'n arwain at golli cysylltiad yn llwyr neu'n rhannol) yn annilysu unrhyw ran o'r trafodaethau nac yn amharu ar unrhyw bleidlais a gymerir. Caiff y sawl sydd yn llywyddu ohirio'r cyfarfod os yw o'r farn fod hynny'n briodol.</p>	<p>Rhan 5 Cabinet 5.8.7 Quorum (a) The quorum for a meeting of the Cabinet shall be one quarter of the members including the Leader or Deputy Leader. (b) The quorum for a meeting of a committee of the Cabinet shall be 2. Presence shall include presence through electronic means which allow the member to hear and speak at the meeting. The failure of any technological provision whether that leads to a partial or complete loss of contact shall not invalidate any part of the deliberations or affect any vote taken. Whoever is presiding may postpone the meeting if they deem that appropriate.</p>
<p>Rheolau Sefydlog Mynediad i Wybodaeth 14.3 <u>Hawliau i Fynychu Cyfarfodydd</u> Caiff aelodau'r cyhoedd gael mynychu mynediad i bob cyfarfod yn amodol ar yr eithriadau i'r rheolau hyn yn unig .</p>	<p>Access to Information Procedure Rules 14.3 <u>Rights to Attend Meetings</u> Members of the public may attend access all meetings subject only to the exceptions in these rules.</p>

CYNGOR GWYNEDD

Y PROTOCOL AR GYFER CYFARFODYDD RHITHIOL

1. CYFFREDINOL

- 1.1 Paratowyd y Protocol hwn yn unol ag Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd awdurdodau lleol, tra mae Rhan 1, Atodlen 4 yn addasu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau awdurdodau lleol, gan gynnwys mynediad gan y wasg a'r cyhoedd a'r gofyniad i gyhoeddi rhai dogfennau cyfarfod penodol yn electronig.
- 1.2 O 1 Mai 2021, bydd gofyn ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau bod modd cynnal eu cyfarfodydd yn rhithiol, yn rhannol rhithiol neu fel cyfarfodydd ffisegol. Nid yw Adran 47 yn rhagnodi sut y dylid cynnal cyfarfodydd, ac mae hyn yn fater i bob awdurdod.
- 1.3 Dilynir trefniadau Rheolau Sefydlog Cyfansoddiad y Cyngor wrth gynnal cyfarfodydd. Mae'r Protocol wedi'i ddylunio i gynghori a chefnogi'r Cyfansoddiad a phan fo gwrthdaro rhwng darpariaethau, y Cyfansoddiad fydd yn trechu.
- 1.4 Mae cyfarfod "rhithiol" yn wahanol ac mae'n gofyn am ddull gweithio amgen. Ychwaith, nid yw'r ffordd y mae'r drafodaeth yn gweithio, na'r amgylchedd lle y gwneir cyfraniad, yr un fath â'r hyn sy'n digwydd mewn cyfarfod arferol. Diben y Protocol yma yw arwain cyfranogwyr drwy gyfarfodydd a rhoi arweiniad ar arferion gorau.
- 1.5 Mae'r Protocol hwn yn darparu gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd rhithiol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn dull priodol a theg ac yn sicrhau hyder y cyhoedd yn nhrefniadau democrataidd Cyngor Gwynedd dros gyfnod yr argyfwng.

2. Y CYFNOD CYN Y CYFARFOD

HYSBYSIAD, RHAGLEN AC ADRODDIAD

- 2.1 Bydd y Rhaglen a'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi a'u cylchredeg i aelodau yn ôl yr arfer. Fel arfer, bydd dyddiad ac amser y cyfarfod yn cael eu nodi ar y rhaglen.
- 2.2 Anfonir gwahoddiad electronig i'r cyfarfod ac ynddo bydd linc i hwyluso mynediad i'r cyfarfod.
- 2.3 Bydd Hysbysiad y cyfarfod hefyd yn cynnwys manylion ynghylch amser y cyfarfodydd a sut gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod.
- 2.4 Bydd modd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod drwy un o'r dulliau a ganlyn:
 - (a) Gwe-ddarllediad byw, neu
 - (b) Cyfleusterau webinar, neu
 - (c) Dull amgen mewn amgylchiadau priodol.

3. DIWRNOD Y PWYLLGOR

3.1 PROFI'R SYSTEM A PHARATOI

Disgwylir i'r holl aelodau a swyddogion fewngofnodi i'r system o leiaf 20 munud cyn y cyfarfod i sicrhau bod y cysylltiadau'n gweithio. Gan fod pob un o'r 75 aelod yn cael eu gwahodd i gyfarfod y Cyngor Llawn, disgwylir i aelodau fewngofnodi i'r system 30 munud cyn y cyfarfod. Mae'r capasiti i ddatrys problemau technegol yn ystod y cyfarfod yn gyfyngedig.

Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn profi'r cysylltiadau ar unwaith yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau:

1. Bod y ddarpariaeth yn gweithio
2. Bod gan yr holl aelodau a swyddogion sy'n cymryd rhan fynediad i'r system
3. Os oes problem dechnegol, bod datrysiad yn cael ei adnabod a'i weithredu.
4. Bod y gwasanaeth cyfieithu yn gweithio ar gyfer yr aelodau di-Gymraeg.

Bydd aelod o'r Tîm Democratiaeth yn gweithredu fel '*Host*' ac yn rheoli mynediad i'r cyfarfod. Hefyd, i hwyluso'r trefniadau, bydd cefnogaeth dechnegol ar gael mewn rhai cyfarfodydd i weithredu fel "Rheolwr Technegol" er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau technegol.

Bydd y swyddog cyfreithiol neu brif swyddog arall yn cadarnhau bod cworwm yn bresennol ac y gall y cyfarfod gychwyn, a bydd yn hysbysu'r cadeirydd o hynny.

Mae cworwm yn cael ei ddiffinio fel yr aelodau sy'n bresennol (wedi mewngofnodi i'r cyfarfod) drwy ddulliau electronig ac sy'n medru siarad a chael eu clywed yn y cyfarfod.

3.2 Y CADEIRYDD YN AGOR Y CYFARFOD

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod drwy egluro'r drefn a sut fydd popeth yn gweithio mewn cyfarfod rhithiol (gan nodi'r drefn ar gyfer caniatáu i aelodau lleol a thrydydd partïon i siarad, cynigion, ceisiadau i siarad gan aelodau'r pwyllgor a phleidleisio). Yn benodol, rhaid egluro'r hyn a ganlyn:

- Gwneir cais i siarad drwy "godi" y law rithiol ac yna aros i gael gwahoddiad i siarad gan y Cadeirydd.
- Rhaid i'r microffonau fod wedi'u tawelu bob amser, oni bai bod cyfranogwr wedi cael gwahoddiad i siarad gan y Cadeirydd. Rhaid diffodd y microffon ar unwaith ar ôl siarad.
- Egluro'r drefn o ran colli cysylltiad, ac ati (hyn yn cael ei egluro isod) a bod y rheolau o ran bod yn bresennol i wrando ar y datganiadau yn gymwys.
- Ni fydd y ddarpariaeth sgwrsio ('*chat*') ar gael yn ystod cyfarfod.

3.3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

- Bydd y Cadeirydd yn gofyn a oes unrhyw un yn datgan buddiant. Dylai aelodau nodi eu bwriad i ddatgan drwy ddefnyddio'r eicon Codi Llaw ('*Raise Hand*'), fel y gall y Cadeirydd eu gwahodd i ddatgan i'r Pwyllgor.
- Dylai aelodau nodi'r eitem a'r rheswm am ddatgan diddordeb (dylai aelodau gysylltu â'r Swyddog Cyfreithiol ymlaen llaw am gyngor er mwyn hwyluso'r broses).
- Os yw'r aelod yn datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw eitem: Pan fo'r eitem yn cychwyn, rhaid iddynt "adael" y cyfarfod. Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy 'symud' yr aelodau i 'ystafell aros'. Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod yr aelod yn ail-ymuno ar ddiwedd yr eitem drwy eu gwahodd yn ôl i'r prif gyfarfod o'r 'ystafell aros'.

3.4 TRAFODAETH

- Bydd aelodau'n nodi eu dymuniad i wneud neu eilio cynnig neu welliant neu siarad fel arall drwy ddefnyddio'r eicon Codi Llaw ('*Raise Hand*'). Ni ddylai aelodau roi eu microffon ymlaen hyd nes y mae'r Cadeirydd wedi'u gwahodd i siarad. Er mwyn cynnal trefn ac i gynorthwyo'r Cadeirydd, ar ôl siarad, bydd angen i bob aelod ostwng eu llaw drwy glicio ar yr eicon Gostwng Llaw ('*Lower Hand*') a chofio i dawelu eu microffon ar unwaith.
- Bydd y Cadeirydd yn mynd drwy'r rhain yn eu tro. I gadw trefn, dylai aelodau gyfyngu eu cyfraniad i un datganiad. Bydd y Cadeirydd yn cadw ei ddisgrisiwn i ganiatáu cwestiynau ychwanegol.

3.5 SWYDDOGION PRIODOLDEB

Rhaid i'r Cadeirydd fod yn ymwybodol o unrhyw geisiadau gan Swyddog Statudol i dynnu sylw'r Cadeirydd i fater o drefn neu briodoldeb sydd angen ei ddwyn i sylw'r cyfarfod. Felly, os yw'r Swyddog Priodoldeb yn gwneud cais i siarad, **dylent gadarnhau p'un a yw'r swyddog yn dymuno siarad ar unwaith** mewn perthynas â mater o drefn neu p'un a fyddent yn fodlon aros eu tro. Os nad yw'r Cadeirydd yn gweld cais y Swyddog Statudol i siarad, bydd angen i'r swyddog darfu ar y cyfarfod i ddatrys y mater.

3.6 PLEIDLAIS

- Gellir cymryd pleidlais yn y dull a ganlyn:
 - Lle mae system bleidleisio electronig ar gael a'i bod ar gael i'w defnyddio;
 - Drwy ofyn i bob aelod sydd â'r hawl i bleidleisio, i ddatgan ar lafar sut maent am bleidleisio, h.y. o blaid y cynnig, yn erbyn y cynnig neu atal eu pleidlais.

- Mewn cyfarfod gyda 12 neu lai o aelodau gyda phleidlais, gellir defnyddio'r dull llaw electronig i bleidleisio os yw ar gael i aelodau, a bod modd gweld eu pleidlais.
- Os yw'r bleidlais yn gyfartal, bydd y Cadeirydd yn defnyddio ei bleidlais/phleidlais fwrw drwy ddatgan ar lafar yn y Pwyllgor a datgan y canlyniad yn ffurfiol.

3.7 MATERION TECHNEGOL

- Os, ar unrhyw adeg yn ystod y Pwyllgor, bod materion technegol yn golygu bod cyswllt sain ac/neu fideo yn cael ei golli ag aelodau neu swyddogion, bydd y Cadeirydd yn atal y cyfarfod er mwyn ceisio datrys y broblem a chaniatáu i'r aelod barhau i gymryd rhan, boed hynny gyda fideo a sain, neu gyda sain yn unig.
- Mae angen i aelodau gysylltu â'r Rheolwr Technegol neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn cael anawsterau. Cyhyd ag y bo modd, rhaid i aelodau a swyddogion gael dull amgen i gysylltu â hwy, e.e. ar y ffôn, drwy e-bost neu ddull arall.
- Os yw'r problemau technegol yn parhau i'r graddau lle nad yw'r aelodau sy'n dymuno cymryd rhan yn medru gwneud hynny, a bod hyn yn cael effaith arwyddocaol ar eitem neu eitemau neu ar briodoldeb parhau, bydd y Cadeirydd yn ystyried p'un a ddylid gohirio eitem neu weddill y cyfarfod hyd ddyddiad ac/neu amser diweddarach.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Prosiect Mynediad o Bell a mynediad i'r cyhoedd.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ar gyfer galluogi mynediad o bell i gynghorwyr a sicrhau mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed trafodaethau mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Yn wreiddiol bu i'r prosiect edrych ar sicrhau fod modd

- cynnal cyfarfodydd yn rhithiol llwyr (neb mewn ystafell gyfarfod)
- sicrhau fod modd i Gynghorwyr gysylltu o bell gydag unrhyw gyfarfod o bwyllgorau'r Cyngor petaent yn dymuno gwneud hynny.

Erbyn mis Medi 2020 bu i'r prosiect edrych ar sicrhau mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed trafodaethau ym mhrif bwyllgorau'r Cyngor gan ei fod yn flaenoriaeth gennym.

Bellach, yn sgil gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae angen gweithio tuag at

- Sicrhau mynediad o bell i gynghorwyr pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lleoliad (yn ddibynnol ar gyfyngiadau covid-19)
- Mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed y drafodaeth mewn cyfarfodydd cyhoeddus

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith - ar ran Bwrdd Prosiect Mynediad o Bell

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Cafodd yr asesiad ei gychwyn ym mis Mehefin 2020 wrth baratoi at gynnal cyfarfodydd rhithiol llwyr am y tro cyntaf yn sgil argyfwng covid. Dyma'r ail fersiwn, sy'n ymgorffori'r datblygiadau pellach i'r prosiect. Adolygwyd Mehefin 2021.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cynghorwyr
Gwasanaeth TG
Adran Eiddo
Staff

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

1. Ymgynghorwyd yn anffurfiol gyda Chynghorwyr Gwynedd cyn cynnal cyfarfodydd rhithiol llwyr drwy Teams a chyn cynnal cyfarfodydd rhithiol llwyr drwy Zoom – defnyddwyr di-gymraeg yn benodol.
2. Ymgynghorwyd ar drefniadau cynnal cyfarfodydd pwyllgorau (ac eraill) i'r dyfodol gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 18/02/2021 a rhoi cyfle i'r holl aelodau gyflwyno sylwadau fel rhan o holiadur bodlonrwydd ym Mehefin 2021.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

1. Addaswyd y ddarpariaeth wreiddiol o ddefnyddio Teams i ddefnyddio zoom yn sgil sylwadau yr aelodau gan fod y ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd drwy zoom yn cynnig gwasanaeth mwy syml a theg i'r rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai di-gymraeg, gyda phawb yn rhan o'r un cyfarfod. Gwnaethpwyd yr addasiad ar ôl cael sicrwydd o'r elfennau diogelwch yn ymwneud â thechnoleg.
2. Mae nifer fawr o aelodau wedi tynnu sylw at y buddion i drefniadau cynnal cyfarfodydd yn rhithiol, yn arbennig
 - Wrth gyfrannu at yr agenda lleihau carbon trwy leihau teithio
 - Er mwyn hybu amrywiaeth mewn democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd rhithiol gan ddenu mwy o bobl sy'n gweithio a rhieni ifanc
 - Trwy ddefnyddio amser Cynghorwyr yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion teithio
 - A lleihau costau teithio i'r Cyngor
3. Yn ychwanegol cyflwynwyd nifer o sylwadau ar gyfer trefniadau pwyllgorau i'r dyfodol gan Gynghorwyr mewn amrywiol gyfarfodydd, gyda rhan fwyaf yn datgan yr angen am gyfarfodydd rhithiol mewn cyfuniad gyda chyfarfodydd hybrid.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Gweithredwyd yn wreiddiol mewn ymateb i'r argyfwng pandemig covid-19 a'r angen i barhau gyda threfniadau democratiaeth o fewn y cyfyngiadau o beidio a mynychu swyddfeydd (yn cynnwys siambrau'r Cyngor).

Mae'r cyfyngiadau yn parhau o safbwynt "gweithio o adref lle'n bosib". Yn ychwanegol, mae angen ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i

- Sicrhau mynediad o bell i gynghorwyr pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lleoliad (yn ddibynnol ar gyfyngiadau covid-19)
- Mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed y drafodaeth

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae angen ymgynghori gyda charfan sydd ag anghenion ychwanegol ee anghenion golwg a nam ar y clyw i sicrhau fod y ddarpariaeth yn briodol ar eu cyfer.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>a) Cynnal cyfarfodydd Rhithiol Mae effaith positif ar y Gymraeg a'r Saesneg trwy gynnig y ddarpariaeth i gyfarfodydd rhithiol dros zoom gan fod cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal drwy'r Gymraeg a'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd ei angen.</p> <p>b) Mynediad o bell Bydd yn ofynnol sicrhau gallu darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw un sy'n mynychu (mewn ystafell gyfarfod neu o bell). Rydym yn gweithio ar ddarpariaeth hybrid yn gyfredol.</p> <p>c) Mynediad i'r cyhoedd Mae mynediad i'r cyhoedd trwy we-ddarlledu, sy'n digwydd yn y ddwy iaith.</p>
Anabledd	Positif / negyddol / dim	<p>Awtistiaeth – Gall fod yn effaith positif i rai trwy leihau gor-bryder o gymharu a bod mewn siambr. Ar y llaw arall, gall fod ag effaith negyddol os yw'r amser ar y sgrin yn ormodol, er y gall unigolyn ddewis gadael y sgrin.</p> <p>Cyflyrau iechyd meddwl – gall fod ag effaith positif i rai sy'n dioddef cyflyrau megis gor-bryder trwy ei gwneud yn haws iddynt gymryd rhan mewn cyfarfod drwy ddiffodd eu camerâu neu beidio teimlo pwysau ychwanegol. Gall effeithio yn negyddol trwy beidio cael cyswllt gydag unigolion eraill a'r gor-bryder yn cynyddu.</p> <p>Amhariadau golwg – gall fod effaith negyddol o amser gormodol ar sgrin.</p>

		<p>Amhariadau clyw – Gall fod effaith positif gan fod mynediad o bell yn caniatáu addasu lefel sain neu ddefnyddio clustffonau i hepgor sain cefndirol.</p> <p>Amhariadau corfforol – effaith positif gan fod y gofyn am leoliad penodol a gofynion teithio yn cael eu dileu.</p>
Rhyw	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Oedran	Positif / negyddol / dim	Mae'n debyg fod effaith positif am fod i rai o fod yn gallu mynychu o bell heb orfod gadael cartref.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Ailbennu rhywedd	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif / negyddol / dim	<p>Effaith positif i alluogi merched beichiog a mamau sy'n bwydo o'r fron i ymuno o gartref os ydynt yn dewis, a pheidio gorfod teithio i safle penodol.</p> <p>Effaith positif ar rieni trwy leihau'r amser teithio i leoliad a galluogi rhieni i ymuno o bell.</p>
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod.

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	<p>Cyfarfodydd Rhithiol. Effaith positif – mae mwy o ddisgyblaeth mewn cyfarfodydd rhithiol ac felly cyfle cyfartal i bawb gael siarad. Gall unigolion ddewis cymryd rhan heb gael eu gweld hefyd.</p> <p>Ymuno o bell. Ydi, effaith positif fel uchod. Fodd bynnag, hyd y bydd y ddarpariaeth yn ei le nid ydym yn gwybod os bydd cyfle cyfartal i bawb ynteu a fydd y rhai sy'n ymuno o bell yn teimlo eu bod yn cael eu anwybyddu.</p> <p>Mynediad i'r cyhoedd – mae'r trefniadau newydd am wella mynediad i'r cyhoedd i weld a chlywed cyfarfodydd y cyngor gan sicrhau tryloywder yn ein trefniadau democratiaeth. Nid oes gofyn i unigolion deithio i leoliad arbennig ar amser arbennig.</p> <p>Ar y llaw arall gall fod effaith negyddol gan fod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn ddibynnol ar unigolyn â mynediad i gyfrifiadur ac i'r we. Gall unigolyn sydd heb ddarpariaeth ddefnyddio'r llyfrgell leol fel arall (yn amodol i gyfyngiadau covid).</p>
Meithrin perthnasau da	Ydi a nac ydi	<p>Gall cyfarfodydd rhithiol a mynychu o bell fod yn bositif mewn meithrin perthnasau da gan fod lleihad mewn gofynion amser yn caniatáu i rai na fyddai'n gallu mynychu fel arall i wneud hynny.</p> <p>Ar y llawr arall, mae amheuaeth ei bod yn anoddach meithrin perthynas dda wrth ddechrau dod i adnabod rhywun trwy gyfrwng rhithiol ac yn fwy o sialens ar gyfer</p>

		y rhwydweithio anffurfiol.
--	--	----------------------------

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'r newidiadau sydd wedi eu hamlinellu uchod wedi galluogi i drefniadau democrataidd y Cyngor, sy'n cynnwys cynnal pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, i barhau yn ystod y cyfnod argyfwng.

Mae'r newidiadau i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol neu'n hybrid, a galluogi i Aelodau etholedig fynychu o bell yn debygol o gael effaith bositif ar amryw o'r nodweddion cydraddoldeb fel a amlygwyd yn 3.1 – yn bennaf ar gyfer merched beichiog, merched sy'n bwydo o'r fron neu unigolion sydd ag amhariad corfforol neu gyflwr iechyd meddwl.

Yn ogystal, mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau mynediad i'r cyhoedd trwy we-ddarllediadau neu drefniadau amgen yn galluogi mwy o bobl Gwynedd i gael mynediad at ein trefniadau democratiaeth gan olygu ein bod yn agored a thryloyw.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Rydym yn cydnabod fod dwy ochor i bob ceiniog, ac wedi amlinellu rhai effeithiau negyddol posib yn 3.1 uchod.

Fodd bynnag, nid yw'r Aseiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	√
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	

Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
---	--

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r effeithiau negyddol posib sydd wedi eu amlinellu yn 3.1 uchod yn cael ystyriaeth gyson wrth i'r datblygiadau yn y gwaith fynd yn eu blaenau.

Byddwn yn adolygu'r gwaith yn gyson gan adrodd ar y diweddariadau i'r Cyngor llawn.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i fod yn cyhoeddi ein trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd a'n trefniadau ar gyfer mynediad i'r cyhoedd. Bydd trefniadau interim yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2021, gydag adolygiad o'r trefniadau i'w gyflwyno ym mis Hydref 2021.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	6 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Debbie Anne Williams Jones
Rhif Ffôn Cyswllt:	32489
Teitl yr Eitem:	Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth "Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt", ac ei weithredu, gan gynnwys buddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd yn Nhywyn a Bangor, ynghyd â gwella'r cyfleusterau presennol ym Mhorthmadog yn unol â'r adroddiad.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gweledigaeth newydd yr Adran Addysg ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt er cymeradwyaeth y Cabinet. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo buddsoddiad o £1.1 miliwn o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, gan sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd yn Nhywyn a Bangor, ynghyd â gwella'r cyfleusterau presennol ym Mhorthmadog.

3 CYFLWYNIAD

- 3.1 Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i newydd-ddyfodiaid er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog.
- 3.2 Agorwyd y Ganolfan Iaith gynradd gyntaf yng Nghaernarfon ym mis Medi 1984, ac erbyn hyn, ceir tair canolfan iaith gynradd arall yn Nolgellau, Llanybyddi a Phenrhyndeudraeth, ynghyd â Chanolfan Iaith Uwchradd a sefydlwyd ym Mhorthmadog yn 2004.
- 3.3 Does dim amheuaeth fod y Canolfannau Iaith wedi bod yn llwyddiannus dros y degawdau diwethaf yn sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo i gaffael y Gymraeg gan lwyddo i ymdoddi yng nghyfundrefn addysg ddwyieithog Gwynedd.
- 3.4 Er hynny, mae'r Adran Addysg yn credu bod achos dros newid i'r ddarpariaeth drochi gyfredol yng Ngwynedd, gan adeiladu ar lwyddiant y Canolfannau Iaith.
- 3.5 Gweledigaeth newydd yr Adran Addysg ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw eu bod yn cael:

“Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o’r radd flaenaf sy’n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy’n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â’r wybodaeth a’r sgiliau yn Y Gymraeg i’w galluogi i symud ymlaen.

Darparu trosglwyddiad effeithiol o’r addysg drochi i’r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd ac yn gyfrwng i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”

3.6 Y nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i’r ddarpariaeth. Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o’r radd flaenaf i’r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i’w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

3.7 Ceir copi cyflawn o’r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt yn Atodiad 1.

3.8 Arian Cyfalaf

3.8.1 Er mwyn cyflawni’r weledigaeth, y pwrpas, y nod a’r amcanion, ein bwriad yw buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o’r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif. Mae’r grant cyfalaf hwn yn grant 100% gan Lywodraeth Cymru, ac felly nid yw’n gofyn am unrhyw arian cyfatebol gan y Cyngor.

3.8.2 Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o’r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella’r cyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd, sydd eto wedi ei lleoli’n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.

3.8.3 Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llanybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

3.8.4 Yn sgil y buddsoddiad, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â’r galw.

3.9 Cyllideb Refeniw

3.9.1 Bwriedir i’r Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt gael ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- Grant Gwella Addysg (GGA)
- Ysgolion (canolog)
- Adran Addysg

3.10 Grant GGA

3.10.1 Dyma’r grant craidd ar gyfer cyllido’r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, fel y gwyddom, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw’r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido’r ddarpariaeth yn llawn.

3.11 Ysgolion

- 3.11.1 Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyd-berchnogaeth, ynghyd â sicrhau cyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.
- 3.11.2 Yn seiliedig ar gyllideb 2021-22, rhagwelir y bydd costau referniw y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt yn costio £162,000 yn ychwanegol.

3.12 Adran Addysg

- 3.12.1 Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:
- Arian cyfatebol i'r grant GGA
 - Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.
- 3.12.2 Bydd yr Adran Addysg yn ymgynghori gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar yr egwyddor y bydd ysgolion yn cyfrannu'n ariannol tuag at y gyfundrefn addysg drochi ar 28 Mehefin 2021.
- 3.12.3 Yn dilyn hynny, petai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt, yna bwriedir ymgynghori gyda Chyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd yn nhymor yr Hydref 2021 ar y bwriad y bydd ysgolion yn gwneud cyfraniad ariannol blynyddol i gyllido'r gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd o Ebrill 2022 ymlaen.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1 Gellir crynhoi'r prif achos dros newid a'r angen am weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd fel a ganlyn:
- 4.2 **Rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog**
- Yr angen i'r gyfundrefn hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg tra ar yr un pryd gadw cysylltiad gyda'u hysgol leol a'u cyfoedion.
 - Yr angen i'r gyfundrefn allu cynorthwyo rhieni a gofalmwyr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.
- 4.3 **Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth**
- Yr angen i'r gyfundrefn ymateb i anghenion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
 - Yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiledd ar gyfer y gyfundrefn gan gynnwys adnoddau digidol.
- 4.4 **Gweithio mewn partneriaeth**
- Yr angen i'r Adran Addysg ac ysgolion fod yn gweithio mewn partneriaeth gan gyd-berchnogi'r gyfundrefn addysg drochi.
 - Yr angen i'r gyfundrefn addysg drochi allu rhoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.
- 4.5 **Cyfle i greu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf**
- Cyfle i fuddsoddi £1.1 miliwn o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y gyfundrefn addysg drochi gan wella'r amgylchedd dysgu a'r is-adeiledd.
- 4.6 **Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19**

- Darpariaeth addysg gyfunol h.y. bu i'r Canolfannau Iaith ddarparu addysg gyfunol yn sgil y cyfnodau clo niferus, sef dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â gwaith ar Google Classrooms. Bu i hyn gael ei gydnabod fel arfer rhagorol gan Estyn.
- Yr ysgolion yn galw am arbenigedd addysg drochi ac adnoddau i gefnogi'r Gymraeg i gael ei ledaenu ar draws y gyfundrefn.

4.7 Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot

- 4.7.1 Yn sgil polisi'r Cyngor o beidio cyfarch cynnydd mewn chwyddiant unrhyw swyddi a gyllidir drwy grant, ynghyd â chynnydd mewn costau, ddwy flynedd yn ôl, roedd yr Adran Addysg yn wynebu gorfod ail-strwythuro'r gwasanaeth i gwrdd â'r toriad yn y gyllideb.
- 4.7.2 Ar 2 Ebrill 2019, cyflwynwyd adroddiad ar ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith gerbron y Cabinet ble penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo cyllid pontio er mwyn galluogi'r Adran i weithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd mewn un Canolfan Iaith gan fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.
- 4.7.3 Ar 1 Medi 2019, gweithredwyd cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd yng Nghanolfan Iaith Maesincla yng Nghaernarfon. Lluniwyd briff a methodoleg ar gyfer yr ymchwil a sefydlwyd tîm ymchwil a oedd yn cynnwys staff mewnol yr Adran a oedd yn meddu ar arbenigedd ym maes y Gymraeg a Chymraeg ail-iaith, ynghyd ag ymgynghorydd llawrydd a chyn-bennaeth ysgol gynradd yng Ngwynedd a dderbyniodd ragoriaeth gan Estyn.
- 4.7.4 Cynhaliwyd yr ymchwil yn ystod tymor yr Hydref 2019, ynghyd â thymor y gwanwyn 2020 gyda'r bwriad o fynd yn ôl i Gabinet wedi hynny gyda chanfyddiadau'r ymchwil fyddai'n llywio'r penderfyniad am strwythur y Canolfannau Iaith i'r dyfodol.
- 4.7.5 Fodd bynnag, yn sgil COVID-19, ni fu modd cwblhau'r ymchwil fel y bwriadwyd, gan y bu i'r ysgolion ynghyd â phob uned a chanolfan a oedd yn darparu addysg gau cyn diwedd tymor y gwanwyn, gyda'r ysgolion yn cael eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol.
- 4.7.6 Er i gyfnod yr ymchwil i fesur effaith y cynllun peilot ym Maesincla gael ei dorri'n fyr yn sgil COVID, yn sgil ail-bwrpasu'r gwasanaeth mewn ymateb i'r pandemig, gellir cadarnhau fod y cynllun peilot bellach wedi dod i ben, ac yn Atodiad 2 cyflwynir adroddiad crynodedol ar ganfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1 Pe byddai'r Cabinet yn cefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt, byddai'r Adran Addysg yn gweithio ymhellach ar y manylder ar gyfer gwireddu'r weledigaeth, gyda'r bwriad y byddai'r gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd gyda'r buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn yn dod i rym erbyn Medi 2022.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt gyda rhan-ddeiliaid allweddol rhwng 27 Mai 2021 a 28 Mehefin 2021.

6.2 Yn ystod y cyfnod ymgysylltu anffurfiol hwn, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu gyda:

- Staff Canolfannau Iaith Gwynedd
- Cynrychiolwyr Undebau yr Athrawon a'r Cymhorthyddion
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd
- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Iaith
- Dysgwyr

6.3 SYLWADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI A'R PWYLLGOR IAITH

6.3.1 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt ar 10 Mehefin 2021, ynghyd â'r Pwyllgor Iaith ar 22 Mehefin 2021.

6.3.2 Derbyniwyd yr adroddiad yn cyflwyno'r weledigaeth newydd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Iaith, ynghyd â chais i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau'r pwyllgor yn ystod y drafodaeth, sef:

- Cydnabyddiaeth i lwyddiant y Canolfannau Iaith dros y blynyddoedd i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.
- Cytunwyd gyda'r bwriad i gryfhau'r atebolrwydd fel rhan o'r weledigaeth newydd.
- Cefnogwyd y bwriad i arfogi gweithlu'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr i wneud cynnydd pellach i feithrin hyder a chaffael y Gymraeg.
- Cefnogwyd y bwriad i sefydlu darpariaeth addysg drochi ym Mangor.
- Gofynnwyd i'r Adran Addysg gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.
- Cafwyd amrywiaeth barn ar ffynhonnell gyllido'r gyfundrefn addysg drochi, gyda rhai aelodau yn gefnogol i'r bwriad y byddai ysgolion yn cyfrannu gan gynyddu atebolrwydd a chyd-berchnogaeth o'r gyfundrefn rhwng yr Adran Addysg a'r ysgolion, ond mynegwyd hefyd ddymuniad i'r Cyngor yn gorfforaethol i ariannu'r bwch cyllidol yn sgil y ffaith fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

6.3.3 Ar ddiwedd y drafodaeth cafwyd pleidlais unfrydol o blaid y weledigaeth newydd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Iaith, gyda chais i gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.

6.4 SYLWADAU STAFF CANOLFANNAU IAITH GWYNEDD

6.4.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron staff Canolfannau Iaith Gwynedd ar 27 Mai 2021, gyda chyfle iddynt gyflwyno sylwadau erbyn 21 Mehefin 2021.

6.4.2 Mewn ymateb i'r weledigaeth newydd, bu i'r staff gyflwyno'r sylwadau canlynol:

- Croesawyd y buddsoddiad cyfalaf o £1.1m er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, ynghyd â chynnydd yn nifer y safleoedd addysg drochi.
- Croesawyd y bwriad o benodi pennaeth a dirprwy ar gyfer y gwasanaeth, fyddai'n fodd o arwain at wasanaeth llawer mwy effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â sicrhau cysondeb y gwasanaeth. Byddai hefyd yn gyfrwng i sicrhau partneriaeth glos rhwng y gyfundrefn a'r ysgolion, gan allu ymateb yn bositif ac effeithlon i anghenion yr ysgolion. Serch hynny, nodwyd y byddai staffio pob safle gydag athro a chymhorthydd yn peri pryder os mai dyna'r bwriad.

- Nodwyd pryderon am ostwng hyd y cwrs trochi cynradd o 12 wythnos i 8-10 wythnos, ynghyd â gostwng nifer y dyddiau o 5 diwrnod i 4 diwrnod yr wythnos, o safbwynt effaith hynny ar gynnydd ieithyddol y dysgwyr.
- Nodwyd pryder am yr her o sicrhau cynhaliath briodol i'r dysgwyr wrth fynychu'r ysgol am 1 diwrnod bob wythnos, er bod y staff yn cytuno gyda phwrpas yr 1 diwrnod yma o alluogi dysgwyr i gadw mewn cysylltiad gyda'u hysgol leol, eu cyfoedion a sicrhau eu lles.
- Er bod dysgu cyfunol yn cynnig nifer o bosibiliadau, cydnabu'r staff fod dysgu cyfunol yn dod â nifer o heriau yn ei sgil hefyd o safbwynt y dechnoleg ei hun, gofod pwrpasol ac addas yn yr ysgolion, gosod amserlen, ynghyd ac anghysondeb rhwng dysgwyr. Nodwyd nad yw dysgu cyfunol cyfwerth â'r profiad o ddysgu wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth ymarfer iaith lafar ac ystum.
- Nodwyd pryder am yr amrediad oedran o uno dysgwyr cynradd ac uwchradd o flynyddoedd 5-9 ar 3 o'r safleoedd trochi.
- Nodwyd hefyd yr angen am ragor o fanylder ar rai elfennau o'r weledigaeth, ac y byddai'n fuddiol i'r staff dderbyn eglurder buan ar rai o'r materion hyn.

6.5 SYLWADAU PENAEITHIAID YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD GWYNEDD

6.5.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron penaethiaid uwchradd Gwynedd ar 16 Mehefin 2021, a gerbron y penaethiaid cynradd ar 17 Mehefin 2021.

6.5.2 Mewn ymateb i'r weledigaeth newydd, bu i'r penaethiaid nodi'r canlynol:

- Cydnabuwyd yr her o daro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau trochi dwys er mwyn galluogi'r dysgwyr i gaffael y Gymraeg cyn gynted â phosibl, ynghyd â galluogi newydd-ddyfodiaid i setlo a pharhau yn eu hysgol newydd a chreu cyfoedion, ond croesawyd y bwriad i barhau a'r cyswllt efo'r ysgol leol.
- Nodwyd bod cyfle i Gydlynwyr Iaith a Phenaeithiaid Adrannau Cymraeg yr ysgolion uwchradd gyfrannu eu harbenigedd wrth ddatblygu'r manylder ar gyfer gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.
- Croesawyd y bwriad i uno dysgwyr cynradd ac uwchradd o flynyddoedd 5-9 ar 3 o'r safleoedd trochi.
- Croesawyd y weledigaeth a'r buddsoddiad gan y penaethiaid cynradd, ac yn arbennig y bwriad o sefydlu safleoedd addysg drochi newydd yn Nhywyn a Bangor.
- Cefnogwyd y bwriad i gyd-ariannu'r gyfundrefn newydd, gan bwysleisio i hynny beidio digwydd ar draul adnoddau yn yr ysgolion.

6.6 SYLWADAU DYSGWYR

6.6.1 Cynhaliwyd 2 grŵp ffocws gyda dysgwyr presennol y Canolfannau Iaith ar 22 Mehefin 2021. Bu i gynrychiolaeth o flynyddoedd 5 a 6 Canolfan Iaith Cefn Coch a chriw o ddysgwyr y Ganolfan Iaith Uwchradd gyfrannu'n wych mewn sesiwn a oedd yn trafod cyfres o gwestiynau mewn ymateb i gyflwyniad ar y weledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

6.6.2 Bu i'r dysgwyr ateb cyfres o gwestiynau oedd yn gofyn eu barn ar y cynnig i fuddsoddi ac agor safleoedd trochi newydd, yr amserlen wythnosol newydd, dysgwyr cynradd ac uwchradd gyda'i gilydd ar un safle, ynghyd â rôl technoleg yn y maes dysgu Cymraeg.

6.6.3 Bu i'r dysgwyr i gyd (15 ohonynt) wneud cyfraniad gwerthfawr i'r sgwrs, ac mae'n bwysig nodi bod eu gallu ieithyddol yn destun clod i'r Canolfannau Iaith presennol.

6.6.4 Isod crynhoir sylwadau'r dysgwyr:

- O'r holl ddysgwyr (cynradd ac uwchradd), bu i 8 o'r dysgwyr nodi eu bod yn cytuno gyda'r weledigaeth. Bu i 5 o'r uwchradd nodi barn niwtral, gyda dim ond 1 yn anghytuno gyda'r weledigaeth newydd.
- Nododd un dysgwr yn benodol bod elfennau da i'r syniad o fynychu'r safle trochi am 4 diwrnod yr wythnos, ac yna 1 diwrnod bob wythnos yn yr ysgol leol, ond roedd y syniad o deimlo yn 'overwhelmed' gyda gwaith dieithr ar yr un diwrnod ysgol yn peri pryder.
- Bu i'r dysgwyr uwchradd sy'n teithio ar draws y sir i Ganolfan Iaith Uwchradd Eifionydd nodi bod agor safleoedd trochi ym Mangor a Thywyn yn syniad da. Pleidleisiodd 5 o blaid hynny, a bu i 2 nodi barn niwtral. Yn y grŵp ffocws cynradd doedd y newid yma ddim yn un a oedd o ddiddordeb mawr i'r dysgwyr. Nododd 3 ohonynt fod agor safleoedd newydd yn syniad da, bu i 1 aros yn niwtral, tra bod 3 yn anghytuno.
- Derbyniwyd sylwadau brwdfrydig am y cynnig o blaid amserlen wythnos lle byddai'r dysgwyr yn treulio 1 diwrnod bob wythnos yn eu hysgol leol gan y dysgwyr cynradd - byddai hynny yn caniatáu iddynt barhau i wneud ffrindiau a dysgu'r iaith ar yr un pryd. Yn yr uwchradd roedd gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig, a chafwyd sylwadau yn nodi bod hi'n bwysig dysgu'r iaith yn iawn cyn mynd yn ôl i'r ysgol leol er mwyn gallu bwrw iddi yn syth gyda gweddill y pynciau.
- Roedd y dysgwyr uwchradd o'r farn bod dysgwyr cynradd yn anaeddfed a byddai cael brodyr a chwiorydd ar yr un safle yn broblem, ac y byddai cael dysgwyr ifanc yn ei gwneud hi'n anodd i'r athrawon baratoi ar gyfer pawb. Bu i'r 7 aelod o'r grŵp ffocws uwchradd anghytuno gyda'r cynnig o uno dysgwyr cynradd ac uwchradd. Yn y grŵp ffocws cynradd bu i 5 gytuno, 2 aros yn niwtral ac 1 anghytuno gyda'r cynnig.

6.7 ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

- 6.7.1 Lluniwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt. Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Gweler yr asesiad llawn yn Atodiad 3.
- 6.7.2 Mae'r asesiad yn nodi effeithiau cadarnhaol i'r weledigaeth newydd ar nodweddion cydraddoldeb, gyda mwy o safleoedd yn darparu addysg drochi yn y gyfundrefn newydd, fydd yn arwain at fwy o ddysgwyr yn cael mynediad i'r darpariaeth, a llai o deithio i'r dysgwyr yn gyffredinol. O ganlyniad, bydd yr un cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr o ran cael mynediad i'r gwasanaeth.
- 6.7.3 Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth y gyfundrefn newydd â'r nodweddion cydraddoldeb.

6.8 ASESIAID LLESIANT

- 6.8.1 Fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau, mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ymysg dysgwyr y sir. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i unrhyw effaith yn deillio o'r weledigaeth newydd yn erbyn 7 nod llesiant y ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor, gan gynnwys cynnal asesiad ardrawiad. Daethpwyd i'r casgliad fod y gyfundrefn newydd yn galluogi darpariaeth addysg drochi fyddai'n parhau i gyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni amcanion y ddeddf. Datblygwyd y cynllun gan gyfarch y 5 ffordd o weithio.

7. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn amlygu gwaith sylweddol ac ystod o ymgysylltu ynglŷn â'r gyfundrefn newydd. Adroddir hefyd ar fewnbwn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Mae'n bwysig fod y Cabinet wrth ddod i benderfyniad yn rhoi sylw i'r adborth yma a chanlyniadau'r asesiadau a gynhaliwyd."

Y Pennaeth Cyllid:

"Nodaf yn rhan 3.11.1 - 3.12.3 o'r adroddiad fod yr Adran Addysg yn bwriadu gofyn i ysgolion Gwynedd gyfrannu cost ychwanegol y cynllun (amcangyfrifir i fod yn £162,000), gan ymgynghori gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a chyrff llywodraethol ysgolion ar yr egwyddor hon. Os yw'r Gyfundrefn Addysg Drochi yn flaenoriaeth i'r ysgolion, rwyf yn cymryd y byddant yn cefnogi'r cais ac yn cytuno i gyfrannu i'r cynllun fel bo'n briodol. Os ddim, diau bydd yr Adran Addysg yn torri côt yn ôl y brethyn."

ATODIADAU

- ATODIAD 1: Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt
- ATODIAD 2: Adroddiad Crynodol Cynllun Peilot
- ATODIAD 3: Aseiad Effaith Cydraddoldeb



Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

tuag at 2032 a thu hwnt



Rhagair

Cemlyn Rees Williams

Aelod Cabinet Addysg



“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.”

Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd ac yn gyfrwng i’w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”

CYMRAEG 2050

“Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.”

Nod Llywodraeth Cymru yw... creu system addysg statudol sy’n cynyddu’r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050



Pwrpas y **gyfundrefn addysg drochi** tuag at 2032 a thu hwnt yw:

- **Hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg.**
- Cefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol.
- **Arfogi a chefnogi gweithlu ysgolion Gwynedd i weithredu egwyddorion addysg drochi yn y Cyfnod Sylfaen.**
- Darparu arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i weithlu ysgolion Gwynedd i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.
- **Cynorthwyo rhieni a gofalwr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.**





Y weledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw:

Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o'r radd flaenaf sy'n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i symud ymlaen.

Darparu trosglwyddiad effeithiol o'r addysg drochi i'r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w galluogi i lwyddo a ffynnu.

Y Weledigaeth

Ein nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.

Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.



Ein Nod





Dyma'r amcanion fydd yn sail i'r gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt:

1. ADDYSGU A DYSGU

1. Cyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn seiliedig ar arbenigedd ac yn cyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu yn ogystal ag annog rhagoriaeth yn y maes.
2. Y deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hynny eu gwneud yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu yng nghyfundrefn addysg ddwyieithog Gwynedd a thrwy gydol eu hoes.
3. Cyfundrefn addysg drochi gyfoes sydd yn dathlu hunaniaeth, ymwybyddiaeth o iaith a threftadaeth, gan ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

2. AMGYLCHEDD DYSGU

1. Amgylchedd Dysgu o'r radd flaenaf, gyda chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.
2. Amgylchedd Dysgu gynhwysol sydd yn ymateb i anghenion amrywiol gan gynnwys dysgwyr bregus a dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
3. Amgylchedd Dysgu sydd yn manteisio ar y dechnoleg fwyaf cyfoes gan roi profiadau a sgiliau amrywiol i ddysgwyr wrth gaffael iaith.

3. CWRICWLWM

1. Cyfundrefn addysg drochi gadarn a gwydn sy'n gallu addasu i gyfarch unrhyw newidiadau perthnasol ym myd addysg.
2. Darpariaeth addysg drochi gyfoes sydd yn addas i bwrpas ar gyfer 2032 a thu hwnt sy'n adlewyrchu gofynion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gefnogi a darparu'r cwricwlwm.





4. CEFNOGAETH I DDYSGWYR

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n cynnig darpariaeth fugeiliol ragorol gan roi anghenion y dysgwr yn ganolog.
2. Cyfundrefn addysg drochi sy'n sicrhau mynediad at gymorth a chefnogaeth o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio o amgylch y dysgwr.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i sicrhau cymorth a chefnogaeth priodol i'r dysgwr, rhieni a gwarcheidwaid yng nghyd-destun y Gymraeg.

5. ADNODDAU CYLLIDOL

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau cyllidol, gan sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr.
2. Cyfundrefn addysg drochi hyfyw tuag at 2032 a thu hwnt wedi ei seilio ar grwpiau dysgu gwydn, cyllideb a chynllun busnes cadarn.
3. Cyfundrefn sydd wedi manteisio ar y cyfle i ddenu buddsoddiad o £1.1m ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg drochi trwy Grant Cyfalaf Addysg Gymraeg.

Cyflawni'r Nod, Y Weledigaeth a'r Amcanion

Byddwn yn buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd er mwyn sicrhau amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.


Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r cyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.


Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

Yn sgil y buddsoddiad cyfalaf, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd, gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.

O ganlyniad, yn y drefn newydd bydd modd cynnig y ddarpariaeth i fwy o ddysgwyr.

Yn sgil yr uchod, bydd cyfundrefn addysg drochi newydd Gwynedd yn cynnwys 6 safle fel a ganlyn:





Dalgylchoedd a wasanaethir

Mae'r tabl isod yn nodi pa ddalgylchoedd y byddai safleoedd Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn eu gwasanaethu'n gyffredinol. Bydd hyblygrwydd rhwng yr holl safleoedd o ran derbyn dysgwyr o wahanol ddalgylchoedd yn ddibynnol ar niferoedd, ac yn arbennig y dalgylchoedd hynny sydd yn ffinio gyda sawl safle e.e. Ardudwy a Dyffryn Nantlle.

Dalgylchoedd	Bangor BI 5-9	Eifionydd BI 5-9	Tywyn BI 5-9	Maesincla BI 2-4	Llangybi BI 2-4	Dolgellau BI 2-4
Dyffryn Ogwen	Orange			Grey		
Bangor	Orange			Grey		
Brynrefail	Orange			Grey		
Syr Hugh Owen	Orange			Grey		
Dyffryn Nantlle	Orange			Grey	Grey	
Botwnnog		Orange			Grey	
Glan y Môr		Orange			Grey	
Eifionydd		Orange			Grey	
Y Moelwyn		Orange				Grey
Ardudwy		Orange	Orange			Grey
Bro Idris			Orange			Grey
Y Berwyn			Orange			Grey
Tywyn			Orange			Grey

Y Ddarpariaeth

Bydd y ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Bydd hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.

Bydd dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a bydd hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.


Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi yn fwy cyffredinol.

Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliadaeth ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol. Bydd modd darparu addysg gyfunol ar unrhyw adeg i ddysgwyr sydd yn parhau i fod angen cymorth ychwanegol wedi iddynt dychwelyd i'w hysgol leol ar ôl treulio 8-10 wythnos yn y ddarpariaeth addysg drochi.

Modelu'r ddarpariaeth



Dysgwyr yn mynychu'r ddarpariaeth Addysg Drochi gyfagos am 4 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos




Dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos cyn dychwelyd i'w hysgol leol yn llawn amser.





Strwythur Staffio



Ariannu

Caiff y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- **Grant GGA**
Dyma'r grant craidd ar gyfer cyllido'r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw'r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn llawn.
- **Ysgolion**
Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.
- **Adran Addysg**
Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:
 - Arian cyfatebol i'r grant GGA
 - Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.



Mesur Llwyddiant:

Byddwn yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi yn benodol drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:
Nifer / % newydd-ddyfodiaid sydd yn cyrraedd Lefel 2 (llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod trochi dwys.

Byddwn hefyd yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi o ystyried cyfraniad y gyfundrefn i ddeilliannau canlynol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod:

- Mwy o blant dosbarth derbyn/ 5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 2)
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. (CSGA: Deilliant 3)
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 4)
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. (CSGA: Deilliant 5)
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (CSGA: Deilliant 6)



Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA):

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Mae'r CSGA yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun addysg Gymraeg. Yng Ngwynedd, caiff y CSGA ei ddehongli yng nghyd-destun Polisi Iaith Addysg y Sir. Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed berthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pwrpas y Gyfundrefn Addysg Drochi yw hyrwyddo cyflawniad dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg drwy ddarpariaeth trochi dwys, ynghyd â darparu cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen hwb ychwanegol o safbwynt eu hyder neu eu sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol. Mae darpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol, ynghyd â chyfrannu at ffyniant ein dysgwyr yn y gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd.



*“Rwy'n falch o gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.*

Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hi'n gyfnod hynod o gyffrous i'r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd, ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo'r sgiliau hynny'n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams,
Aelod Cabinet Addysg.





ADRODDIAD CRYNODOL:

Cynllun Peilot Canolfannau Iaith Gwynedd.



Cefndir

Ar 2 Ebrill 2019 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd weithredu cynllun peilot mewn un Canolfan Iaith o strwythur staffio o athro a chymhorthydd er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

Briff yr ymchwil

Lluniwyd briff ar gyfer yr ymchwil ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Hydref 2019 am sylwadau.

Roedd y briff yn nodi'r gofynion canlynol, gyda phob Canolfan Iaith yn rhan o'r ymchwil fyddai'n sail i fesur effaith y cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla.

1.1. a) Strwythur Dyddiol y Canolfannau Iaith

Bydd gofyn i'r tîm ymchwil ystyried trefniadau dydd i ddydd y dysgu a'r addysgu ymhob Canolfan Iaith, sef ar ba gyfnodau yn ystod y diwrnod gwaith y mae pob Canolfan yn cynnal:

- un grŵp dysgu gyda 2 athro (uchafswm ratio 2:16)
- un grŵp dysgu gydag athro a chymhorthydd (uchafswm 2:16)
- un grŵp dysgu gydag 1 athro (uchafswm ratio 1:16)
- un grŵp dysgu gyda chymhorthydd (uchafswm ratio 1:16)
- dau grŵp dysgu (uchafswm ratio 1:8)
- arall

1.2 Mae niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r Canolfannau Iaith yn gallu amrywio hyd at uchafswm o 16 disgybl. Golyga hyn y gall niferoedd y disgyblion yn y grwpiau dysgu ymhob Canolfan amrywio ar sail cyfanswm niferoedd y plant, a gofynnir i'r tîm ymchwil roddi ystyriaeth briodol i hynny fel rhan o'r ymchwil.

1.3 b) Gwybodaeth Gefndirol

Yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol a gesglir am bob disgybl, bydd y tîm ymchwil hefyd yn ystyried gwybodaeth gefndirol ychwanegol am y plant a'u teuluoedd sydd wedi symud i Wynedd ynghyd â'u cysylltiad a'u profiadau blaenorol neu bresennol gyda'r Gymraeg cyn mynychu'r Ganolfan Iaith. Bydd y wybodaeth yma'n cynnwys:

- Pryd y bu iddynt symud i Wynedd?
- A ydynt wedi byw yng Ngwynedd yn flaenorol?
- Prif resymau dros symud i Wynedd?
- A oes unrhyw aelodau o'r teulu neu'r teulu estynedig yn gallu siarad Cymraeg?
- A ydynt yn mynychu gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?
- A ydynt yn credu ei bod yn fanteisiol dysgu'r Gymraeg?
- A oes gan y plentyn brofiad o'r iaith Gymraeg cyn symud i Wynedd?
- A oes gan y plentyn gyswllt gyda rhywun y tu allan i'r ysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg?
- Beth mae'r plentyn yn obeithio ei gyflawni o ddysgu'r iaith Gymraeg?





- 1.4 Bydd y wybodaeth yma'n fodd o sefydlu gwaelodlin o gefndir y plant, oedran, blwyddyn ysgol, eu hagweddau ynghyd â'u cysylltiad blaenorol efo'r Gymraeg, fydd yn sail i'r ymchwil ar draws y Canolfannau Iaith.
- 1.5 **c) Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith**
Bydd y tîm ymchwil yn cynnal ymweliadau i'r Canolfannau Iaith er mwyn ystyried, gweld a mesur y cynnydd ieithyddol a wneir gan y plant yn ystod eu cyfnod mewn Canolfan. Bydd y tîm ymchwil yn mynychu'r Canolfannau Iaith ar dri chyfnod penodol yn ystod y cwrs i allu mesur cynnydd ieithyddol y plant, sef oddeutu:
- Cynradd: Wythnos 4, 8 a 12
 - Uwchradd: Wythnos 3, 6, 8
- 1.6 Bydd y Canolfannau Iaith yn llunio meini prawf ar sail cynnwys y cwrs o'r cynnydd a'r patrymau iaith y dylai'r plant fod wedi eu meistroli erbyn y cyfnodau allweddol cytunedig hynny yn ystod y cwrs.
- 1.7 Bydd gofyn i'r tîm ymchwil ddod i farn a yw'r plant wedi cyflawni'r cynnydd disgwyl-iedig ai peidio, a hynny mewn trafodaeth gydag athrawon a chymorthyddion y Canolfannau Iaith er sicrhau cyd-destun llawn i'r farn.
- 1.8 Yn unol â Chynllun Busnes y Canolfannau Iaith, bydd y tîm ymchwil yn mesur i ba raddau mae'r Canolfannau Iaith yn cyflawni eu pwrpas drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:

Nifer/ % plant sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith gan ystyried hynny, ochr yn ochr â:

- Strwythur dyddiol y Canolfannau Iaith
- Gwybodaeth gefndirol a phroffil y plant
- Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith

2. Y Tîm Ymchwil

2.1. Penodwyd aelodau'r tîm ymchwil ar sail eu profiadau a'u harbenigedd ym maes addysg drochi ac addysg ail-iaith. Aelodau'r tîm ymchwil Dr Diane Jones, Swyddog Addysg, Sian Eirug, Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd, a Nia Williams, Cyn-bennaeth Ysgol Morfa Nefyn. Cafwyd hefyd fewnbwn proffesiynol ac anffurfiol gan Dr Enlli Thomas, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.

Dr Diane Jones

Swyddog Addysg

Mae Diane yn Swyddog Addysg gydag Awdurdod Gwynedd ers pum mlynedd. Fel aelod o Dîm Rheoli'r Adran Addysg mae'n cyfrannu at, ac yn arwain ar, gynlluniau gwella addysg, gynlluniau cyfalaf mewn perthynas â'r stâd ysgolion a datblygiadau ym maes Addysg, yn cyd arwain ar ymyriaethau a chynlluniau datblygu ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i arweinwyr ysgolion mewn amrywiaeth o feysydd. Mae ei chefnidir ym maes datblygu cymunedol a diwylliannol, a dysgu Cymraeg i ddysgwyr o amrywiol hyfedredd yn y Sector Uwchradd a'r Sector Addysg Uwch. Bu iddi ennill doethuriaeth mewn iaith a Llenyddiaeth Gymraeg am ei hymchwil ym maes y ddrama yng Nghymru.

Sian Eirug

Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd

Cyn ymgymryd a'i rôl bresennol fel Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd o fewn yr Awdurdod, bu Sian Eirug yn Bennaeth Adran Y Gymraeg mewn ysgol Uwchradd yng Ngheredigion, ac yna'n Gyfarwyddwr y Cwrs TAR ym Mhrifysgol Aberystwyth, am dros ddeng mlynedd, gyda chyfrifoldeb am Y Gymraeg fel pwnc. Bu'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith i athrawon dan hyfforddiant, a chyfrannu'n gyson i ddarpariaeth y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, gan arbenigo mewn addysgu dwyieithog.

Bu'n cyfrannu'n ogystal at gwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol, Prifysgol Caerdydd, ac yn Arolygydd Cymheiriad gyda Estyn. Mae ganddi brofiadau eang o weithio fel safonwr i CBAC.





Nia Williams

Cyn-bennaeth Ysgol Morfa Nefyn

Bu Nia yn Bennaeth Ysgol Morfa Nefyn am 10 o flynyddoedd cyn ymddeol yn 2018. O dan ei harweiniad bu i'r ysgol dderbyn safon Rhagoriaeth gan Estyn ar ddau achlysur. I grynhoi gyrfa lwyddiannus ym myd Addysg bu i Nia dderbyn gwobr 'Teilyngwr' yng ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn 2017 am ei chyfraniad i ddatblygu'r Gymraeg i Safon Uchel.

Yn rhan o'i rhôl fel Pennaeth bu wrthi'n ddyfal yn creu adnoddau dysgu, arwain a chynnal cyrsiau ar godi safonau yn y Gymraeg yn enwedig mewn gwaith llafar ar draws Cymru i amrywiaeth o sefydliadau fel ysgolion, CBAC a chynadleddau amrywiol.

Yn ddiweddar wedyn mae Nia wedi bod yn Anogwr Llafaredd Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect 'Miliwn o Siaradwyr 2050' Llywodraeth Cymru.

3. Yr Ymchwil

- 3.1. Cynhaliwyd yr ymchwil i'r Canolfannau Iaith rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, bu i amodau di-gynsail pandemig Covid-19 amharu ar yr amserlen a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer cwblhau'r gwaith.
- 3.2. Isod cyflwynir grynodeb gan y tîm ymchwil o'u canfyddiadau ar sail yr ymweliadau a gynhaliwyd ganddynt i bob Canolfan Iaith yn ystod Tymor yr Hydref 2019 a rhan o Dymor y Gwanwyn 2020.

4. Canfyddiadau'r Ymchwil

4.1. Arferion da:

Profiad braf i'r Tîm Ymchwil oedd bod yn dyst i'r ffaith fod y disgyblion a oedd yn bresennol yn y Canolfannau yn ystod ein hymweliadau yn cael pleser o fod yno. Rhaid canmol y cyd-weithio ymysg aelodau staff y Canolfannau unigol i sicrhau profiadau cadarnhaol i'r disgyblion oedd yn eu mynychu, a braf oedd tystio i werthfawrogiad Penaethiaid yr ysgolion o'r gwaith oedd yn digwydd yno i arfogi'r disgyblion gyda sgiliau iaith Gymraeg. Mae'n amlwg fod y disgyblion sydd yn mynychu yn gwneud cynnydd yn eu gallu i siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg – does dim amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth sydd yn bodoli o fewn y cynnydd hwnnw yn rhywbeth y dylid ei ystyried ymhellach.

4.2. Strwythur y Gwasanaeth:

Ceir pedair Canolfan Iaith Cynradd ac un Ganolfan Uwchradd. Er y gwelwyd tystiolaeth o ychydig o gydweithio yn ddiweddar ar draws y Canolfannau, fe weithredant fel canolfannau unigol. O ganlyniad, teimlir fod anghysondeb yn y ddarpariaeth a ddarperir i ddisgyblion y sir, a gwelwyd enghreifftiau o ddyblygu swyddogaethau, ac fe ellid rheoli hynny'n dynnach. Credir y byddai hynny'n dylanwadu'n gadarnhaol ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Teimlwyd nad oedd staff y Canolfannau yn cael eu cefnogi'n ddigonol ar faterion addysgu a dysgu e.e mynediad at gefnogaeth Swyddogion Addysg, athrawon mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol a Swyddogion Gwe.

4.3. Trefn Mynediad:

Roedd amrywiaeth yn hyd y cyfnodau oedd yn cael eu treulio yn y Canolfannau gan y disgyblion oedd yn eu mynychu. Roedd disgyblion yn mynychu'r Canolfannau Cynradd am ddeuddeg wythnos, a'r Ganolfan Uwchradd am wyth wythnos. Nid oedd y drefn o dderbyn disgyblion i'r Canolfannau cynradd yn glir, ac fe welwyd fod y drefn yr adroddwyd amdani yn y Canolfannau unigol yn amrywio'n fawr. Roedd rhai yno am eu bod yn hwyrddyfodiaid pur, eraill yno er mwyn derbyn ychydig o hwb gyda'u sgiliau darllen ac ysgrifennu, ond yn gwbl rhugl eu hiaith lafar. Roedd eraill mewn Canolfan arall eisoes wedi bod yn y Ganolfan yn y flwyddyn addysgol flaenorol, ond wedi mynd yn ôl i'r ysgol bryd hynny a chael cyfle i ddod yn ôl. Nododd un Ganolfan fod rhai plant yn mynd yno gan eu bod "yn gyffredinol wan" yn addysgol. Nid oedd trefn bendant o osod gwaelodlin ar gyfer dysgwyr yn unigol yn cael ei harddel er mwyn gallu mesur cynnydd yn ei erbyn. Nid oedd unrhyw broses gyson ar draws y Canolfannau Cynradd o wirio ceisiadau ysgolion i ddysgwyr gael eu mynychu. Teimlwyd wrth siarad gyda staff yr ysgolion oedd yn anfon disgyblion i'r Canolfannau bod diffyg dealltwriaeth amlwg o'r drefn gyfeirio ac wrth benderfynu pwy oedd yn gymwys i fynychu ai peidio. O ganlyniad i'r diffyg eglurder yn y drefn o dderbyn disgyblion i'r Ganolfan, mae'n anodd dod i farn gadarn wrth fesur cynnydd y disgyblion.

O ganlyniad i'r amrywiaeth yn yr amodau derbyn disgyblion i'r Canolfannau, amlyga hyn yr angen am ddarpariaeth sydd yn fwy gwahaniaethol ac sy'n cynnig her briodol i allu ieithyddol ac addysgol y mynychwyr.





4.4. Strwythur Staffio:

Nid oedd rhesymeg glir na chysondeb i strwythur staffio'r Canolfannau Iaith. Ni cheir unrhyw enghraifft arall o fewn ysgolion y Sir o ddsbarthiadau'n cael eu harwain gan ddau athro/athrawes, ond yn hytrach, athro/athrawes a chymhorthydd. Mewn dwy o'r Canolfannau Cynradd, roedd Arweinydd ac Athrawes. Mewn Canolfan arall, un athrawes a chymhorthydd (sef y cynllun peilot), ac yn y llall, Arweinydd a chymhorthydd. Yn y Ganolfan Uwchradd, roedd arweinydd ac athrawes. Gwelwyd arferion da iawn o gyd-weithio effeithiol ym mhob canolfan, ac ni theimlwyd o gwbl fod unrhyw ddisgybl o dan anfantais o ganlyniad i strwythur staffio amrywiol y Canolfannau Iaith. Gwelwyd rhai enghreifftiau rhagorol o gydweithio rhwng athrawes a chymhorthydd mewn un ganolfan gynradd. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran y defnydd o gymorthyddion a/neu athrawon ar draws y Canolfannau, gyda rhai enghreifftiau o athrawon a chymorthyddion yn cymryd grwpiau dysgu ar adegau, neu'n cefnogi'r dysgu o dan arweiniad athro neu arweinydd arall. Nid oedd dull yr athrawon o grwpio ac addysgu disgyblion yn ystod y dydd yn glir. Roedd aml i enghraifft mewn Canolfannau dwy athrawes neu arweinydd ac athrawes o un aelod o staff yn cymryd y grwpiau i gyd am gyfnodau estynedig yn ystod y dydd. Teimlwyd fod cyfleoedd yn cael eu colli i wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol er mwyn cynnig rhagor o gefnogaeth neu her fel bo'n briodol.



4.5. Strwythur yr addysgu ac ansawdd y dysgu:

Er bod *Cynllun y Llan* yn gynllun strwythuredig ar gyfer y Canolfannau cynradd, roedd amrywiaeth mawr yn y dull yr oedd yn cael ei ddefnyddio a'i gyflwyno o un safle i'r llall. Roedd amrywiaeth yn yr hyn oedd yn cael ei gyflwyno ar lafar – ambell enghraifft o dreigladau'n cael eu cyflwyno'n naturiol ac enghraifft o hynny ddim yn cael ei gyflwyno o gwbl mewn canolfan arall. Y teimlad cyffredinol, o siarad gyda staff y Canolfannau, ac o arsylwi ar y dysgu, oedd fod y Cynllun wedi dyddio, a theimlwyd fod seilio'r holl raglen addysgu ar bentref dychmygol fel sydd yn y Cynllun, yn amherthnasol i gylch profiad y disgyblion oedd yn mynychu'r Canolfannau laith. Yn bendant, roedd technegau trochi effeithiol yn cael eu hymarfer ar adegau, ond teimlir bod gwir angen am ddiweddarau'r cyd-destun y cyflwynir yr iaith ynddo, heb os nac onibai. Mae Cynllun tebyg, sef cynllun *Cefyn Cŵl* yn bodoli yn y Ganolfan Uwchradd, ond fe deilwir peth darpariaeth bynciol yn ogystal yno, er mwyn rhoi elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig i'r dysgwyr sydd yn mynychu, ble'r edrychir ar themâu megis y *Welsh Not*, hanes y gwledydd Celtaidd, Hanes yr iaith ac ati. Teimlwyd bod hyn yn arfer dda y dylid ei efelychu yn y Canolfannau Cynradd. Fodd bynnag gyda'r disgyblion Uwchradd yn benodol, tybed a yw eu datblygiad yn eu pynciau craidd yn dioddef o ganlyniad i fethu cyfnod estynedig o fewnbwn addysg prif lif yn eu hysgolion? Nod y Canolfannau laith yw sicrhau bod y disgyblion sydd yn eu mynychu yn cyrraedd Lefel 2 (Llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod yno er mwyn ymdopi yn ôl yn eu hysgolion gyda'r ddarpariaeth ddwyieithog a ddarperir yno. Fe welwyd arferion da yng nghyd-destun y Cynllun Peilot, ond gan nad oes trefn gyson yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth i osod gwaelodlin ac i fesur cynnydd, mae'n anodd dod i farn a yw hyn yn cael ei gyflawni gyda phob disgybl. Yn ogystal, gan nad yw'r ddarpariaeth yn gwahaniaethu'n ddigonol i anghenion gwahanol ddisgyblion unigol, nid oes modd gwybod i sicrwydd faint o'r disgyblion hynny oedd yn hwyrdyffodiaid pur oedd yn cyflawni disgrifyddion Lefel 2 (Llafaredd) yn y Gymraeg. Cwestiynir, felly, ddibynadwyedd y data hwn. Fodd bynnag, gellir nodi gyda sicrwydd bod y dysgwyr i gyd yn gwneud cynnydd ac yn llwyddo i gaffael rhywfaint ar y Gymraeg, ond bod amrywiaeth amlwg yn y cynnydd hwnnw ar gyfer disgyblion unigol ym mhob Canolfan.

4.6. Ôl-ofal:

Ni theimlwyd y cafwyd darlun cwbl glir o'r ddarpariaeth ôl-ofal gan na fu'n bosib ym weld yn y trydydd tymor o ganlyniad i'r pandemig. Gwelwyd nifer fach o ddysgwyr oedd wedi mynychu'r Ganolfan yn ystod tymor yr Hydref, a gellid gweld fod dilyn y ddarpariaeth addysgol yn y dosbarth yn profi'n heriol i ambell un, yn ogystal â'r gallu i gymysgu'n naturiol gyda'u cyfoedion. O siarad gyda staff y Canolfannau, darlun annelwig a gafwyd o'r drefn o gynig ôl-ofal yn dilyn dychweliad y disgyblion i'r ysgolion. Nid oedd y Canolfannau laith Cynradd (yn sgil penderfyniad Cabinet 2 Ebrill 2019) eto wedi gweithredu'r drefn newydd o ddarparu ôl-ofal i'r dysgwyr yn y trydydd tymor yn uniongyrchol eu hunain, serch hynny, hyd at 20 Mawrth 2020, doedd dim






cynllun amlwg mewn lle i ymateb i'r gofyn newydd hwn. Teimlir y gallai'r ysgolion cynradd fanteisio ymhellach ar arbenigedd staff y Canolfannau Iaith gan rannu arferion da a rhoi cynhaliaeth i grwpiau ehangach o blant allai fod yn elwa o'r hwb ychwanegol i'w sgiliau llafar. Byddai hynny yn fodd i gryfhau'r cydweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion cynradd a'r uwchradd ymhellach, ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berchnogaeth yn y daith o gyflwyno'r iaith i'r disgyblion. Byddai datblygu'r ôl-ofal presennol i gynnig cefnogaeth a ffurfio Grwpiau Ymyrraeth posib yn yr ysgolion cynradd yn cael effaith gadarnhaol ar gyraeddiadau'r disgyblion ac yn fodd iddynt weld perthnasedd yr iaith i'w datblygiad addysgol ehangach, yn hytrach na chyfyngu hynny'n unig i ffiniau pentref dychmygol Llanfairgogoch (Cynllun y Llan).

5. Meysydd sydd angen sylw pellach:

Argymhellir y dylid edrych yn ofalus ar y canlynol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth bresennol:

1. Polisi a threfn mynediad clir i gael ei sefydlu a'i fonitro'n ofalus.
2. Strwythur presennol y ddarpariaeth: a oes ffyrdd amgenach i gynnig y ddarpariaeth fydd yn galluogi'r disgyblion allu setlo'n eu hysgolion ochr yn ochr â mynychu'r Canolfannau Iaith?
3. Cysoni gweinyddiaeth ddyddiol y Canolfannau e.e dyddiau HMS yr ysgolion y lleolir y Canolfannau ynddynt, trefn ac amserau'r tacsis sy'n cludo'r disgyblion.
4. Cysoni'r drefn o adrodd ar gynnydd y dysgwyr.
5. Rhannu arferion da ar draws y Canolfannau ac ysgolion.
6. Cryfhau'r berthynas gyda'r ysgolion cynradd i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.
7. Mabwysiadu dull o gynllunio gwaith sy'n nodi deilliannau clir ac amserol i hwyluso'r monitro a wneir o gynnydd.
8. Cynllun ôl-ofal clir.
9. Cryfhau dulliau Sicrhau Ansawdd wrth anelu at ragoriaeth
10. Ystyried ymhellach strwythur amserlennu'r tymhorau presennol i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr, sy'n ateb anghenion y dysgwyr ac yn rhoi gwerth am arian.



Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r Adran Addysg wedi llunio gweledigaeth newydd ar gyfer darpariaeth addysg drochi yng Ngwynedd.

Bydd dysgwyr sy'n newydd i Wynedd, nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref, yn mynd drwy broses o drochi iaith, sef dilyn cwrs dwys o ddysgu'r Gymraeg a gynhelir gan y Canolfannau Iaith ar hyn o bryd. Mae'r Canolfannau Iaith presennol yn gyfrifol am drochi dysgwyr yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gaffael yr iaith yn ddigonol i'w galluogi i ffynnu yn ein cyfundrefn addysg ddwyieithog wedi hynny. Mae'r drefn o drochi dysgwyr sy'n hwyrddyfodiad i Wynedd yn digwydd mewn un o 5 Canolfan Iaith sydd wedi eu lleoli ar safleoedd rhai o'n hysgolion Cynradd ac Uwchradd. Agorwyd y Ganolfan Iaith gynradd gyntaf yng Nghaerdydd ym mis Medi 1984, ac erbyn hyn, ceir tair canolfan iaith gynradd arall yn Nolgellau, Llanybyddwy a Phenrhyndeudraeth, ynghyd â Chanolfan Iaith Uwchradd a sefydlwyd ym Mhorthmadog yn 2004.

Does dim amheuaeth fod y Canolfannau Iaith wedi bod yn llwyddiannus dros y degawdau diwethaf yn sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo i gaffael y Gymraeg gan lwyddo i ymdoddi yng nghyfundrefn addysg ddwyieithog Gwynedd.

Er hynny, mae'r Adran Addysg yn credu bod achos dros newid i'r ddarpariaeth drochi gyfredol yng Ngwynedd, gan adeiladu ar lwyddiant y Canolfannau Iaith.

O ganlyniad, dyma weledigaeth yr Aelod Cabinet Addysg ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt:

“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.

Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael Y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd, ac yn gyfrwng i’w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”

Mae’r dysgwyr o dan y drefn bresennol yn mynychu’r Canolfannau Cynradd am ddeuddeng wythnos, a’r Ganolfan Uwchradd am wyth wythnos. Yn ôl adroddiad crynodol ar gynllun peilot diweddar a gynhaliwyd yn un o ganolfannau trochi cynradd y Sir, nodwyd nad oedd y drefn o dderbyn disgyblion i’r Canolfannau cynradd yn glir, ac fe welwyd fod y drefn yr adroddwyd amdani yn y Canolfannau unigol yn amrywio’n fawr. Roedd rhai yno am eu bod yn hwyrddyfodiaid pur, eraill yno er mwyn derbyn ychydig o hwb gyda’u sgiliau darllen ac ysgrifennu, ond yn gwbl rhugl eu hiaith lafar. Roedd eraill mewn Canolfan arall eisoes wedi bod yn y Ganolfan yn y flwyddyn addysgol flaenorol, ond wedi mynd yn ôl i’r ysgol bryd hynny a chael cyfle i ddod yn ôl. Mae’r adroddiad yn manylu bod rhai dysgwyr yn cyrraedd y canolfannau am eu bod “yn gyffredinol wan” yn addysgol.

Amlyga’r adroddiad crynodol bod diffyg dealltwriaeth amlwg o’r drefn cyfeirio dysgwyr ac wrth benderfynu pwy oedd yn gymwys i fynychu ai peidio. O ganlyniad i’r diffyg eglurder yn y drefn o dderbyn disgyblion i’r Ganolfan, mae’n anodd ar hyn o bryd dod i farn gadarn wrth fesur cynnydd y disgyblion yn erbyn eu gallu ar gychwyn a diwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith.

Gellir crynhoi’r prif achos dros newid a’r angen am weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd i’r meysydd canlynol, ac ymhelaethir arnynt ymhellach isod (Pwynt 2.4):

- Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog
- Cyfoesi a moderneiddio’r ddarpariaeth
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyfle i greu amgylchedd ddysgu o’r radd flaenaf
- Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19
- Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

Yn seiliedig ar yr achos dros newid felly, ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw eu bod yn cael:

“Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o’r radd flaenaf sy’n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy’n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â’r wybodaeth a’r sgiliau yn Y Gymraeg i’w galluogi i symud ymlaen.

Darparu trosglwyddiad effeithiol o’r addysg drochi i’r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd ac yn gyfrwng i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Debbie A W Jones, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mai 2021

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Staff Canolfannau Iaith Gwynedd
- Cynrychiolwyr Undebau yr Athrawon a'r Cymhorthyddion
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd
- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Fforwm Undebau
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Iaith
- Dysgwyr

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Mae'r Adran Addysg wedi cynnal cyfnod o ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid allweddol ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno'r weledigaeth newydd gyda'r Undebau Athrawon a Chymorthyddion ynghyd â chyfarfod arbennig gyda staff y Canolfannau Iaith ar 27 Mai 2021, gyda chyfle i'r staff ystyried y weledigaeth a chyflwyno sylwadau erbyn 21 Mehefin 2021.

Fel rhan o'r ymgysylltu hefyd, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Mehefin 2021, ynghyd a'r Pwyllgor Iaith ar 22 Mehefin 2021 er mwyn derbyn barn yr

aelodau etholedig ar y weledigaeth, ynghyd â chyfle i graffu arno.

Fel rhan o'r ymgysylltu, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron penaethiaid holl ysgolion uwchradd Gwynedd ar 16 Mehefin 2021, ynghyd â holl bennaethiaid ysgolion cynradd Gwynedd ar 17 Mehefin 2021 er mwyn derbyn eu sylwadau.

Fel rhan o'r ymgysylltu, cynhaliwyd 2 grŵp ffocws gyda dysgwyr presennol y gyfundrefn addysg drochi yn ein Canolfannau Iaith ar 22 Mehefin 2021 er mwyn canfod eu barn hwy fel defnyddwyr y gwasanaeth ar y weledigaeth newydd.

Fel rhan o'r ymgysylltu, cyflwynwyd y weledigaeth newydd gerbron y Fforwm Cyllideb Ysgolion i bwrpas ymgynghori â hwy ar y drefn newydd o ariannu'r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn sgil cynnal cyfnod o ymgysylltu ar y weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd tuag at 2032 a thu hwnt, derbyniwyd y sylwadau canlynol fel rhan o'r ymgysylltu a gynhaliwyd:

Sylwadau Staff Canolfannau Iaith Gwynedd

Rhodddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron staff Canolfannau Iaith Gwynedd ar 27 Mai 2021, gyda chyfle iddynt gyflwyno sylwadau erbyn 21 Mehefin 2021.

Mewn ymateb i'r weledigaeth newydd, bu i'r staff gyflwyno'r sylwadau canlynol

- Croesawyd y buddsoddiad cyfalaf o £1.1m er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, ynghyd â chynnydd yn nifer y safleoedd addysg drochi.
- Croesawyd y bwriad o benodi pennaeth a dirprwy ar gyfer y gwasanaeth, fyddai'n fodd o arwain at wasanaeth llawer mwy effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â sicrhau cysondeb y gwasanaeth. Bydd hefyd yn gyfrwng i sicrhau partneriaeth glos rhwng y gyfundrefn â'r ysgolion, gan allu ymateb yn bositif ac effeithlon i anghenion yr ysgolion. Serch hynny, nodwyd y byddai staffio pob safle gydag athro a chymhorthydd yn peri pryder.
- Nodwyd pryderon am ostwng hyd y cwrs trochi cynradd o 12 wythnos i rhwng 8-10 wythnos, ynghyd â gostwng nifer y dyddiau o 5 diwrnod i 4 diwrnod yr wythnos, o safbwynt effaith hynny ar gynnydd ieithyddol y dysgwyr.
- Nodwyd pryder am yr her o sicrhau cynhalieth briodol i'r dysgwyr wrth fynychu'r ysgol am 1 diwrnod bob wythnos, er bod y staff yn cytuno gyda phwrpas yr 1 diwrnod yma o alluogi dysgwyr i gadw mewn cysylltiad gyda'u hysgol leol, eu cyfoedion a sicrhau eu lles.
- Er bod dysgu cyfunol yn cynnig nifer o bosibiliadau, nodwyd bod dysgu cyfunol yn dod â nifer o heriau yn ei sgil hefyd o safbwynt y dechnoleg ei hun, gofod pwrpasol ac addas yn yr ysgolion, gosod amserlen, ynghyd ac anghysondeb mewn sefyllfa dysgwyr. Nid yw dysgu cyfunol cyfwerth â'r profiad o ddysgu wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth ymarfer iaith lafar ac ystum.
- Nodwyd pryder am yr amrediad oedran o uno dysgwyr cynradd ac uwchradd o flynyddoedd 5-9.
- Nodwyd hefyd yr angen am ragor o fanylder ar rai elfennau o'r weledigaeth, ac y byddai'n fuddiol i'r staff dderbyn eglurder buan ar rai o'r materion hyn.

Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd

Rhodddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron penaethiaid uwchradd Gwynedd ar 16 Mehefin 2021, a gerbron penaethiaid cynradd ar 17 Mehefin 2021. Mewn ymateb i'r weledigaeth

newydd, bu i'r penaethiaid gyflwyno'r sylwadau canlynol:

- Cydnabuwyd yr her o daro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau trochi dwys er mwyn galluogi'r dysgwyr i gaffael y Gymraeg cyn gynted â phosibl, ynghyd â galluogi newydd-ddyfodiaid i setlo a pharhau yn eu hysgol newydd a chreu cyfoedion.
- Nodwyd bod cyfle i Gydlynwyr Iaith a Phenathiaid Adrannau Cymraeg yr ysgolion uwchradd gyfrannu eu harbenigedd wrth ddatblygu'r manylder ar gyfer gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.
- Croesawyd y bwriad o uno dysgwyr cynradd ac uwchradd o flynyddoedd 5-9 ar 3 o'r safleoedd trochi.
- Croesawyd y weledigaeth a'r buddsoddiad gan y penaethiaid cynradd, ac yn arbennig y bwriad o sefydlu safleoedd addysg drochi newydd yn Nhywyn a Bangor.
- Cefnogwyd y bwriad i gyd-ariannu'r gyfundrefn newydd, gan bwysleisio na ddylai hynny ddigwydd ar draul adnoddau yn yr ysgolion.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Iaith

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt ar 10 Mehefin 2021, a'r Pwyllgor Iaith ar 22 Mehefin 2021.

Derbyniwyd yr adroddiad yn cyflwyno'r weledigaeth newydd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Iaith, ynghyd â chais i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau'r pwyllgor yn ystod y drafodaeth, sef:

- Cydnabyddiaeth i lwyddiant y Canolfannau Iaith dros y blynyddoedd i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.
- Cytunwyd gyda'r bwriad i gryfhau'r atebolrwydd fel rhan o'r weledigaeth newydd
- Cefnogwyd y bwriad i arfogi gweithlu'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr i wneud cynnydd pellach i feithrin hyder a chaffael y Gymraeg.
- Cefnogwyd y bwriad i sefydlu darpariaeth addysg drochi ym Mangor.
- Gofynnwyd i'r Adran Addysg gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.
- Cafwyd amrywiaeth barn ar ffynhonnell gyllido'r gyfundrefn addysg drochi, gyda rhai aelodau yn gefnogol i'r bwriad y byddai ysgolion yn cyfrannu gan gynyddu atebolrwydd a chydberchnogaeth o'r gyfundrefn rhwng yr Adran Addysg a'r ysgolion, ond mynegwyd hefyd ddymuniad i'r Cyngor yn gorfforaethol ariannu'r bwlch cyllidol yn sgil y ffaith fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth cafwyd pleidlais unfrydol o blaid y weledigaeth newydd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, a'r Pwyllgor Iaith gyda chais i gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.

Dysgwyr

Cynhaliwyd 2 grŵp ffocws gyda dysgwyr presennol y Canolfannau Iaith ar 22 Mehefin 2021. Bu i gynrychiolaeth o flynyddoedd 5 a 6 Canolfan Iaith Cefn Coch a chriw o ddygwyr y Ganolfan Iaith Uwchradd gyfrannu yn wych mewn sesiwn oedd yn trafod cyfres o gwestiynau mewn ymateb iddynt dderbyn cyflwyniad ar y weledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

Bu i'r dysgwyr ateb cyfres o gwestiynau oedd yn gofyn eu barn ar y cynnig i fuddsoddi ac agor safleoedd trochi newydd, yr amserlen wythnosol newydd, dysgwyr cynradd ac uwchradd gyda'i gilydd

ar un safle, ynghyd â rôl technoleg yn y maes dysgu Cymraeg.

Bu i'r dysgwyr i gyd (15 ohonynt) wneud cyfraniad gwerthfawr i'r sgwrs, ac mae'n bwysig nodi bod eu gallu ieithyddol yn destun clod i'r Canolfannau Iaith presennol.

Cytuno gyda'r weledigaeth ai peidio

- O'r holl ddysgwyr (cynradd ac uwchradd), bu i 8 o'r dysgwyr nodi eu bod yn cytuno gyda'r weledigaeth. Bu i 5 o'r uwchradd nodi barn niwtral, gyda dim ond 1 yn anghytuno gyda'r weledigaeth newydd.
- Nododd un dysgwr yn benodol bod elfennau da i'r syniad o fynychu'r safle trochi am 4 diwrnod yr wythnos, ac yna 1 diwrnod bob wythnos yn yr ysgol leol, ond roedd y syniad o deimlo yn 'overwhelmed' gyda gwaith dieithr ar yr un diwrnod ysgol yn peri pryder iddi.
- Bu i ddysgwr arall nodi bod technoleg yn gymorth i ddysgu iaith, ond bod buddsoddi mewn adnoddau caled megis llyfrau a gemau yn parhau i fod yn syniad da.

Syniadau'r dysgwyr fyddai o gymorth iddynt wrth ddysgu Cymraeg

- Bu i un dysgwr yn y grŵp ffocws cynradd nodi pwysigrwydd i'w rieni ddysgu Cymraeg ar yr un pryd, ac y byddai hynny'n lot fawr o help iddo.
- Nododd dysgwyr yn y grŵp ffocws cynradd bod y syniad o dreulio 4 yn y safle addysg drochi, ac un diwrnod yn y ysgol yn syniad 'grêt'. Byddai yn golygu gallu parhau gyda dysgu Cymraeg a pharhau i wneud ffrindiau yn eu hysgol leol.
- Bu i un ferch yn y grŵp ffocws cynradd nodi ei hawydd i weld hyd diwrnod yn y safle trochi yn cael ei ymestyn.
- Bu i sylwadau'r dysgwyr yn y Ganolfan Iaith Uwchradd ganolbwyntio ychydig ar y profiad yn ystod COVID a'r cyfnodau clo. Bu i ni dderbyn sylwadau am ddiffyg cysylltiad da gyda WIFI, ac ystafelloedd anaddas yn cael eu rhoi i'r dysgwyr yn eu hysgolion lleol wrth geisio ymuno gyda gwersi ar TEAMS.
- Er hynny bu i ni dderbyn sylwadau am ba mor dda ydy adnoddau technolegol fel Google Classroom ar gyfer gwaith cartref a chefnogi dysgu iaith.
- Mae technoleg yn caniatáu i ddysgwyr sydd heb Saesneg allu ymuno mewn yn syth drwy apiau fel Google translate ayyb.
- Bu i 10 o'r dysgwyr bleidleisio yn nodi bod cynnwys adnoddau a thechnoleg fel rhan o ddysgu iaith yn syniad da. Roedd 2 yn anghytuno gan nodi bod well ganddynt adnoddau caled, canu ac actio.

Barn y dysgwyr ar agor canolfannau newydd ym Mangor a Thywyn

- Bu i'r dysgwyr uwchradd sy'n teithio ar draws y sir i Ganolfan Iaith Uwchradd Eifionydd nodi bod agor rhai ym Mangor a Thywyn yn syniad da. Pleidleisiodd 5 o blaid hynny, a bu i 2 nodi barn niwtral.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod agor rhai newydd yn cynnig cyfleoedd i deithio llai mewn tacsis. Cafwyd sylw hefyd yn nodi bod sefydlu rhai newydd yn gwneud dim gwahaniaeth i rywun yn Nefyn neu Aberdaron sydd yn parhau i orfod teithio ymhell.
- Yn y grŵp ffocws cynradd doedd y newid yma ddim yn un a oedd o ddiddordeb mawr i'r dysgwyr. Nododd 3 ohonynt fod agor rhai newydd yn y lleoliadau newydd yn syniad da, bu i 1 aros yn niwtral, tra bod 3 yn anghytuno.

Cynnig amserlen newydd wythnosol i'r Canolfannau Iaith

- Derbyniwyd sylwadau brwdfrydig am y cynnig o blaid amserlen wythnos lle byddai'r dysgwyr yn treulio 1 diwrnod bob wythnos yn eu hysgol leol gan y dysgwyr cynradd.
- Byddai hynny yn caniatáu iddynt barhau i wneud ffrindiau a dysgu'r iaith ar yr un pryd.
- Er hyn cafwyd sylw craff iawn gan un dysgwr: *"We're here for 8-9 weeks, if we go back 1 day a*

week, that's 8 or 9 days we loose learning Welsh".

- Cytunodd 5 ohonynt gyda'r amserlen newydd, ond bu i 3 nodi eu bod yn anghytuno gyda'r cynnig.
- Yn yr uwchradd roedd gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig. Roedd hyn yn cael ei amlygu yn eu hoffter o drefn ac effeithiau COVID ar y dysgwyr. Cafwyd sylwadau yn nodi bod hi'n bwysig dysgu'r iaith yn iawn cyn mynd yn ôl i'r ysgol leol er mwyn gallu bwrw iddi yn syth gyda gweddill y pynciau.
- Roedd pawb yn deall mai bwriad yr amserlen newydd oedd rhoi cyfle i ddysgwyr setlo a gwneud ffrindiau newydd, ond roedd trefn sefydlog yn bwysicach i'r dysgwyr uwchradd.

Barn y dysgwyr ar safleoedd fyddai'n cynnwys dysgwyr cynradd ac uwchradd

- Roedd y dysgwyr uwchradd o'r farn bod dysgwyr cynradd yn anaeddfed a byddai cael brodyr a chwirydd ar yr un safle yn broblem.
- Byddai cael dysgwyr ifanc yn ei gwneud hi'n anodd i'r athrawon baratoi ar gyfer pawb.
- Bu i'r 7 aelod o'r grŵp ffocws uwchradd anghytuno gyda'r cynnig.
- Yn y grŵp ffocws cynradd bu i 5 gytuno, 2 aros yn niwtral ac 1 anghytuno gyda'r cynnig.
- Byddai pobl Tywyn a Bangor ddim yn gorfod teithio mor bell i Ganolfan Iaith Uwchradd Eifionydd.
- Byddai brodyr a chwirydd yn gallu aros efo'i gilydd, er yn cael eu gwahanu yn ystod amser gwersi o bosib.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Gellir crynhoi'r prif achos dros newid a'r angen am weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd i'r meysydd canlynol, ac ymhelaethir arnynt ymhellach isod:

- Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog
- Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyfle i greu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf
- Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19
- Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Pilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

Dyma fanylu mwy ar y weledigaeth yma:

Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog

- Yr angen i'r gyfundrefn hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg tra ar yr un pryd gadw cysylltiad gyda'u hysgol leol a'u cyfoedion.
- Yr angen i'r gyfundrefn allu cynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.

Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth

- Yr angen i'r gyfundrefn ymateb i anghenion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
- Yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiledd ar gyfer y gyfundrefn gan gynnwys adnoddau digidol.

Gweithio mewn partneriaeth

- Yr angen i'r Adran Addysg ac ysgolion fod yn gweithio mewn partneriaeth gan gydberchnogi'r gyfundrefn addysg drochi.
- Yr angen i'r gyfundrefn addysg drochi allu rhoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.

Cyfle i greu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf

- Cyfle i fuddsoddi £1.1miliwn o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y gyfundrefn addysg drochi gan wella'r amgylchedd dysgu a'r is-adeiledd.

Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19

- Darpariaeth addysg gyfunol h.y. bu i'r Canolfannau Iaith ddarparu addysg gyfunol yn sgil y cyfnodau clo niferus, sef dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â gwaith ar Google Classrooms. Bu i hyn gael ei gydnabod fel arfer rhagorol gan Estyn.
- Yr ysgolion yn galw am arbenigedd addysg drochi ac adnoddau i gefnogi'r Gymraeg i gael ei ledaenu ar draws y gyfundrefn.

Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot

- Bu i'r peilot amlygu'r angen i ystyried lles y dysgwyr, a chadw cysylltiad gyda'u cyfoedion; nifer yn ei chael hi'n anodd i ymdoddi'n ôl i'w hysgol leol ar ôl cyfnod mewn Canolfan.
- Yr angen i gryfhau'r berthynas gydag ysgolion i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.

Manylir ar yr amcanion fydd yn sail i'r weledigaeth yn **Atodiad 1**, sef:

- Addysgu a Dysgu
- Amgylchedd Ddysgu
- Cwricwlwm
- Cefnogaeth i Ddysgwyr
- Adnoddau Cyllidol

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, y pwrpas, y nod a'r amcanion, ein gobaith yw buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein gyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.


Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r chyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi

Eifionydd, sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.

Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

Yn y gyfundrefn newydd, ni fydd Canolfan Iaith yn parhau ar safle Ysgol Cefn Coch fodd bynnag, bydd newydd-ddyfodiaid yr ardal honno yn cael eu dyrannu i safleoedd y gyfundrefn addysg drochi yn Nhywyn, Dolgellau, Eifionydd neu Llangybi, yn seiliedig ar y safle sydd agosaf i'r dysgwyr.

Yn sgil y buddsoddiad, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.



Manylu ar y weledigaeth ar gyfer y ddarpariaeth drochi newydd

Yn y gyfundrefn newydd, byddai'r ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd ar safle yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Byddai hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.

Byddai dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a byddai hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, byddai staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi

yn fwy cyffredinol.

Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliath ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol.

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Rydym wedi ymgysylltu ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

Os bydd y Cabinet yn cefnogi'r weledigaeth newydd, bydd yr Adran Addysg yn gwneud gwaith pellach ar fanylder gweithredu'r weledigaeth o Medi 2022 ymlaen.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	<p>Nodwyd yn y weledigaeth newydd bod bwriad i'r gyfundrefn newydd fod ar gael mewn mwy o leoliadau gyda mwy o ddysgwyr yn cael mynediad at addysg drochi yn fwy lleol na'r ddarpariaeth bresennol. Rhagwelir felly y bydd y deiliant yn well, ac felly ni ragwelir effaith negyddol ar hwyrddyfodiaid di-Gymraeg o weddill Prydain neu wledydd eraill.</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Nid oes newid i bwrpas a hanfod y Canolfannau Iaith presennol yn sgil y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt. Mae'r weledigaeth yn ymdrech i adeiladu ar y seiliau cadarn sydd eisoes mewn lle.</p> <p>Bwriedir cynyddu nifer y safleoedd fydd yn darparu addysg drochi fydd yn gyfrwng i sicrhau bod dysgwyr yn gallu mynychu'r ddarpariaeth drochi sy'n agosach i'w cartref a'i hysgol leol.</p> <p>Mae'r gyfundrefn newydd yn cynnig amserlen wythnosol newydd fydd yn golygu bod dysgwyr yn mynychu'r safle addysg drochi agosaf 4 diwrnod yr wythnos, gan dreulio 1 diwrnod yn eu hysgol leol.</p> <p>Mae hyn yn ymdrech i sicrhau gwell perthynas rhwng y safleoedd trochi a'r ysgolion gan gyd-berchnogi addysg a chaffael iaith y dysgwyr hynny sy'n newydd i Wynedd.</p>
Anabledd	Positif	<p>Un o egwyddorion yr weledigaeth newydd yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i newydd-ddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Rhagwelir felly y bydd y deiliant i newydd-ddyfodiaid yr un fath, boed gydag anabledd ai peidio.</p> <p>Elfen positif o'r weledigaeth newydd yw sefydlu dwy safle</p>

		<p>newydd ym Mangor a Thywyn fydd yn cynnig gwasanaeth drochi cynradd ac uwchradd ar y ddwy safle. Yn ychwanegol i hyn bydd y Ganolfan Iaith Uwchradd bresennol sydd wedi eu lleoli mewn caban ar safle Ysgol Eifionydd yn symud i gyfleuster newydd ar safle Ysgol Eifionydd.</p> <p>Ein bwriad yw gwario £1.1miliwn o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru fydd yn ein galluogi i uwchraddio a buddsoddi yn ei hadeiladau. Bydd cyfleoedd i sicrhau bod pob dysgwr, beth bynnag fo eu anghenion yn cael eu cofio wrth uwchraddio a buddsoddi yn yr adeiladau a'r adnoddau newydd.</p> <p>Gall agor Safleoedd Trochi newydd ym Mangor a Tywyn ar gyfer dysgwyr uwchradd a chynradd gael effaith bositif ar amser teithio dysgwyr ar gludiant boed yn fregus neu gydag anabledd ai peidio.</p>
Rhyw	Dim	<p>Ni rhagwelir unrhyw effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth.</p> <p>Nodwyd mewn asesiad cydraddoldeb blaenorol pan y bu i'r Canolfannau Iaith wynebu proses ail-strwythuro mai merched yw staff y Canolfannau Iaith i gyd. Bu i'r ymgynghoriad blaenorol awgrymu yr angen i ail-strwythuro yn sgil diffyg yn y gyllideb, ac felly roedd sylw yn yr ymgynghoriad blaenorol i'r posibilrwydd y gallai arwain at golli swyddi arbenigol sy'n talu'n dda i ferched, gan roi swyddi sy'n talu llai yn eu lle.</p> <p>Ymgysylltu a cheisio penderfyniad ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi a wneir ar hyn o bryd, a phetai'r Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r weledigaeth newydd, byddai hynny'n galluogi'r Adran Addysg i ychwanegu manylder pellach er mwyn gwireddu'r weledigaeth erbyn Medi 2022.</p> <p>Er y diffyg manylder ar hyn o bryd, mae posibilrwydd y bydd swyddi newydd yn cael eu creu yn sgil agor dau ganolfan iaith ychwanegol ym Mangor a Tywyn.</p>
Oedran	Positif a negyddol	<p>Rhagwelir y bydd y deilliant i newydd-ddyfodiaid yr un fath neu ychydig yn wahanol i'r hyn y maent yn ei brofi ar hyn o bryd. Cydnabyddir mai plant a phobl ifanc yw defnyddwyr gwasanaeth y Canolfannau Iaith presennol, a'r gyfundrefn addysg drochi arfaethedig a dyma ydi'r unig nodwedd y sonnir amdano gan ddefnyddwyr.</p> <p>Bydd cael cyfundrefn newydd sy'n cynyddu nifer y safleoedd a nifer y dysgwyr fyddai'n cael mynediad at</p>

		<p>gyfuniad o addysg drochi Cynradd ac Uwchradd wedi eu cyd-leoli ar rai o'r safleoedd yn golygu bod dysgwyr yn teithio llai ac o bosib yn gallu cael eu grwpio gyda dysgwyr o ystod oed a gallu ieithyddol tebyg a/neu wahanol. Mae'r gyfundrefn newydd yn galluogi'r gwasanaeth i fod yn hyblyg i anghenion y gwasanaeth a'r dysgwyr yn ôl yr angen.</p> <p>Byddai cael mwy o safleoedd sy'n cynnig addysg drochi uwchradd ym Mangor a Thywyn yn golygu bod hi'n decach ar y rheiny o oed uwchradd, gan leihau'n sylweddol amser teithio y dysgwyr rheiny ar gludiant.</p> <p>Cryfder posib y gyfundrefn ar ei newydd wedd ydy'r gallu i fod yn hyblyg drwy wahanu neu gyd-leoli dysgwyr sy'n frodyr a chwiorydd. Gall brodyr a chwiorydd heriol gael eu gwahanu mewn dosbarthiadau eraill ar hyn o bryd, ond mae sefydlu dau safle uwchradd (a chynradd) newydd yn rhoi'r cyfle i wahanu yn ddibynnol ar y sefyllfa. I'r gwrthwyneb gall y gyfundrefn newydd gyd-leoli'r teulu mewn un safle os y dymunir i'r dysgwyr beidio cael eu gwahanu oherwydd rhesymau megis swilder a hyder.</p> <p>Bu i staff a dysgwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori nodi ei bod hi'n heriol weithiau cael brodyr a chwiorydd o oedran gwahanol yn yr un dosbarth drwy'r dydd bob dydd mewn Canolfan Iaith. Mae diffyg aeddfedrwydd dysgwyr cynradd yn cael ei nodi fel rheswm dros beidio cyd-leoli'r plant ar un safle yn ôl y dysgwyr uwchradd.</p> <p>Mae hyblygrwydd a mwy o safleoedd trochi o fewn pellter teithio rhesymol yn galluogi gwahanu er lles y dysgwyr unigol os oes angen, neu i'r gwrthwyneb.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	<p>Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma.</p> <p>Gan y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau i ddilyn y polisiau gwrth fwlio, polisiau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisiau perthnasol eraill.</p>
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	<p>Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma.</p> <p>Gan y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau i ddilyn y polisiau gwrth fwlio, polisiau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisiau perthnasol eraill.</p>
Ailbennu rhywedd	Dim	<p>Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma.</p> <p>Gan y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau i ddilyn y polisiau gwrth fwlio, polisiau cydraddoldeb, cyfle cyfartal</p>

		ac unrhyw bolisiau perthnasol eraill.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. Gan y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau i ddilyn y polisiau gwrth fwlio, polisiau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisiau perthnasol eraill.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Rhagwelir dim effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth efo'r nodwedd cydraddoldeb yma. Gan y bydd y gwasanaeth newydd yn parhau i ddilyn y polisiau gwrth fwlio, polisiau cydraddoldeb, cyfle cyfartal ac unrhyw bolisiau perthnasol eraill.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Un o egwyddorion y weledigaeth newydd ydy sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i newydd-ddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth). Mae'r weledigaeth newydd yn cynnig cynyddu nifer y safleoedd. Byddai rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Yn y weledigaeth newydd gwelir rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth iaith, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg. Nodwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol ar ail-

		<p>strwythuro'r Canolfannau Iaith yng Ngwynedd y bydd colli swydd arbenigol sy'n talu'n dda i ferched (yn y cyd-destun blaenorol), gan roi swyddi sy'n talu llai yn eu lle yn cael effaith negyddol ar ferched. Nid ydy'r weledigaeth newydd yn manylu ar drefn staffio'r gyfundrefn newydd ar y pwynt yma.</p> <p>Ond gellir rhagdybio bod agor dau safle newydd yn Nhywyn a Bangor yn galluogi cyfle i greu swyddi newydd arbenigol. Yn ychwanegol i hyn, byddai'r weledigaeth newydd yn fuddsoddiad mewn rhannau strategol ac ieithyddol heriol o'r sir.</p>
Meithrin perthnasau da rhwng eu gilydd (dysgwyr)	Ydi	<p>Un o egwyddorion y weledigaeth newydd yw sicrhau nad yw'n cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i newydd-ddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth), ni fyddai'r newid felly yn cael effaith andwyol, gan y byddai cyfle cyfartal o hyd i newydd-ddyfodiaid. Byddai'r weledigaeth newydd yn golygu bod rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad i'r gwasanaeth, ac yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gymhathu i'r gymdeithas ddwyieithog yng Ngwynedd, a manteisio'n llawn ar ddarpariaeth a phrofiadau addysgol yn unol â'r Polisi Iaith Addysg. Byddai galluogi'r newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn sicrhau eu bod yn gallu meithrin perthnasau da gyda chyfoedion a'r gymuned ddwyieithog yng Ngwynedd.</p> <p>Mae'r weledigaeth newydd yn awgrymu bod dysgwyr yn treulio 4 diwrnod yr wythnos yn y safle addysg drochi, ac yna 1 diwrnod yn eu hysgol leol. Gall hyn gael effaith positif iawn a'r eu gallu i barhau i setlo a gwreiddio yn eu hysgolion lleol, tra yn parhau i ddyfnhau eu sgiliau caffael iaith yn y safleoedd trochi weddill yr wythnos. Bu i'r dysgwyr cynradd ac uwchradd nodi gwahaniaeth barn ar y drefn newydd yma, gan nodi bod dychwelyd i'r ysgol uwchradd am un diwrnod yr wythnos yn peri iddynt bryderu am y llwyth gwaith y byddai'n eu hwynebu wrth dychwelyd yn wythnosol. Nodwyd y pryder, ond wrth ychwanegu manylder i'r ddarpariaeth maes o law, byddai modd lliniaru'r pryderon hyn o bosib.</p>

* I'w ddileu yn ôl yr angen

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Credwn bod y weledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt yn debygol o gael effaith bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol, yn sgil y ffaith fod argaeledd y ddarpariaeth i'r dysgwyr o bosib yn gwella neu yn aros yr un fath.

Mae ymdrech sylweddol yn cael ei neud i geisio sicrhau gwell cyd-weithio a chyd-berchnogi addysg Gymraeg y dysgwyr hynny sy'n newydd i Wynedd rhwng yr ysgolion a'r gyfundrefn addysg drochi.

Ein egwyddor pwysicaf yw sicrhau bod lles y dysgwyr yn ganolog i bopeth. Ac felly mae buddsoddi a sicrhau gwell adnoddau sy'n gwella profiad pob dysgwr, agor safleoedd newydd a newid amserlen wythnosol y dysgu yn ymdrech i wella'r amgylchedd dysgu a'r profiad dysgu Cymraeg i'r newydd ddyfodiad yma i Wynedd, beth bynnag fo eu cefndir, oedran, gallu, rhyw, hil a chenedligrwydd.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw gosod gweledigaeth newydd ar gyfer y Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol, yn sgil y ffaith fod argaeledd y ddarpariaeth i'r dysgwyr o bosib yn gwella neu yn aros yr un fath.

Ein bwriad yw gweld dysgwyr yn setlo, gwreiddio a caffael y Gymraeg yma yng Ngwynedd. Mae newid y gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i wella cyfleoedd i feithrin perthnasau o werth gyda chyfoedion ac athrawon yn barhaus, wrth i'r ysgolion a'r gyfundrefn berchnogi lles ac addysg y dysgwyr o'r cychwyn cyntaf.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn

✓

Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Yn sgil ymgysylltu gyda staff a'r undebau, ynghyd ag ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid ehangach, nodwyd bod yna ganmoliaeth hanesyddol tuag at lwyddiant y Canolfannau Iaith dros y degawdau diwethaf i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.

Cefnogwyd y weledigaeth newydd gyda phleidlais unfrydol o'i phlaid mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi a'r Pwyllgor Iaith. Cytunwyd bod y weledigaeth yn cynnig cyfle i gryfhau'r atebolrwydd ac mae'n cyfarch y bwriad i arfogi gweithlu'r ysgolion i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach yn eu hysgolion yn ystod a thu hwnt i'w hamser yn y safle addysg drochi. Gofynnwyd i'r Adran Addysg gyflwyno rhagor o pan fydd ar gael.

Cafwyd hefyd amrywiaeth barn ar ffynhonnell gyllido'r gyfundrefn addysg drochi, gyda rhai aelodau yn gefnogol i'r bwriad y byddai ysgolion yn cyfrannu gan gynyddu atebolrwydd a chyd-berchnogaeth o'r gyfundrefn rhwng yr Adran Addysg a'r ysgolion, ond mynegwyd hefyd ddymuniad i'r Cyngor yn gorfforaethol ariannu'r bwlch cyllidol yn sgil y ffaith fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Mewn cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda rhan ddeiliad gwahoddwyd sylwadau a barn ar y weledigaeth a'r datrysiadau posib o fewn y newid arfaethedig.

Mae'r weledigaeth newydd yn mynd rhagddo i geisio unioni ac adeiladu ar lwyddiannau'r Canolfannau Iaith fel ag y maent ar hyn o bryd.

Drwy fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf i sefydlu safleoedd addysg drochi newydd mewn lleoliadau megis Bangor a Tywyn, rydym yn rhagweld llai o deithio ar draws y Sir, ac rydym yn gobeithio gweld gwell cyd-weithio drwy gydol y tymor ysgol rhwng y gyfundrefn newydd a'r ysgolion sydd gyda'i gilydd yn allweddol i gefnogi'r newydd-ddyfodiad i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus ac yn hyderus.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Amherthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Yn sgil ymgysylltu gyda staff a'r undebau a dysgwyr presennol y ddarpariaeth, ynghyd ag ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid, rydym yn barod i wrando ac ystyried unrhyw sylwadau a syniadau a gyflwynir. Ar y pwynt yma, ein bwriad yw rhannu'r weledigaeth newydd gyda'n defnyddwyr, a phartneriaid eraill sydd yn ymwneud â'r Gymraeg ym myd Addysg a'n cymunedau.

Nid oes gennym dystiolaeth i brofi na gwrth-brofi effeithiau'r weledigaeth newydd ar y ddarpariaeth, ac felly byddwn yn gosod trefniadau cadarn mewn lle i gyfathrebu a monitro effaith unrhyw newid ar ansawdd darpariaeth y Canolfannau Iaith presennol yn sgil mabwysiadu a gweithredu'r weledigaeth newydd.

Byddwn hefyd yn cyrchu barn aelodau a defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd, a byddwn yn addasu'r asesiad effaith yn ôl yr angen i adlewyrchu'r farn ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbynnir.

Mae'n fwriad gennym ar gais rhan-ddeiliaid i adrodd ar unrhyw fanylder ychwanegol maes o law.

6. Y Gymraeg

6.1. Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r gyfundrefn newydd arfaethedig yma yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol. Ac felly, cryfhau a buddsoddi ym maes y Gymraeg ydi bwriad y weledigaeth newydd.

Mae'r buddsoddiad o £1.1M yn caniatáu moderneiddio'r gwasanaeth i'r 21ain Ganrif – elfen fydd yn gwella awyrgylch a phrofiad caffael y Gymraeg i newydd-ddyfodiaid Gwynedd.

6.2 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi dilyn yr ystyriaethau deddfwriaethol pwysig yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg

Mae'r weledigaeth yn cynnig agor dau safle trochi newydd mewn rhannau strategol o'r Sir. Mae hi hefyd yn fwriad uwchraddio'r ar safle Eifionydd.

Drwy gynyddu nifer y safleoedd trochi a chynnig addysg uwchradd mewn mwy nag un safle, credwn fod y weledigaeth newydd yn cynnig cyfle i fwy o newydd-ddyfodiaid gael addysg drochi sy'n agosach ac sy'n fwy cysylltiedig gyda'i hysgol leol.

Mae'r amserlen wythnosol newydd yn mynd ati 'n fwriadol i gynnig gwell cyfleoedd pontio a throsglwyddo'r dysgwyr gyda'i Cymraeg newydd o'r safle trochi i'w hysgol leol. Diben hyn yw cynyddu'r cyfleoedd i'r staff yn y safleoedd trochi a'r ysgolion berchnogi ac annog taith caffael iaith y dysgwyr yn llwyddiannus o'r safle trochi i'w haddysg prif lif.

Eitem 10

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	6 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Owen Owens
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679 169
Teitl yr Eitem:	Pris Cinio Ysgolion Cynradd, Arbennig a Dilydol Medi 2021

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Peidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol ym Medi 2021.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Byddai peidio cynyddu pris cinio ysgol yn unol â chwyddiant o Fedi 2021 yn golygu £22,890 o bwysau ar y gyllideb yn 2021/22 yr Adran Addysg. Felly, mae'n briodol i sicrhau cadarnhad ffurfiol y Cabinet fod peidio cynyddu pris cinio ysgol eleni yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Gan fod cyllideb arlwyo cynradd, arbennig a dilydol yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydau ysgolion cynradd, mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio mewn ysgolion cynradd, arbennig a dilydol gadw i fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.

Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol wedi cynyddu 1.16% yn 2021-22 ac er mwyn cwrdd a'r costau hynny byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.53. Wrth ei rowndio fyny byddai hyn yn £2.55 (cyfwerth â 2%).

Fodd bynnag, gan ystyried ein sefyllfa gymharol a'r blaenoriaeth sydd gennym o ran lleihau anghydraddoldeb dichon y bydd y Cabinet yn dymuno ystyried pris cinio ysgol yng nghyd destun hynny.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pan yn cymharu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol Gwynedd sef £2.50 gyda gweddill Cyngorau Cymru (Atodiad 1), mae 4 yn codi pris uwch, 4 yn codi run pris â Gwynedd a 13 yn codi pris îs.

Byddai codi'r pris cinio yn golygu codi'r pris o £2.50 i £2.55.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd y pris cinio yn weithredol o Fedi 2021.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf bod y ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad yma'n amcangyfrifon teg. Ynglŷn ag ariannu'r bwloch perthnasol yng nghyllideb yr Adran Addysg, cadarnhaf wrth lunio cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, neilltuwyd darpariaeth cyffredinol mewn cyllideb wrth gefn gellid ei ddefnyddio i'r perwyl hyn.

Prisiau Cinio Ysgolion

Ebrill 2021 - Prisiau Cyfredol

<u>CYNGOR</u>	Disgybl	Disgybl lau	Meithrin	Oedolyn (cynnwys TAW)	Pris Cinio am ddim Uwchradd
Ynys Mon	£2.50	£2.50	£2.50	£4.44	£2.60
Blaenau Gwent	£2.40	dyb	dyb	£3.50	£2.65
Pen y Bont ar Ogwr	£2.20	£2.20	£2.20	£3.48	£2.50
Caerffili	£2.10	£2.10	£2.50	£3.30	£2.35
Caerdydd	£2.50	£2.50	dyb	£3.60	£2.95
Caerfyrddin	£2.60	£2.60	£2.60	£4.06	£2.60
Ceredigion	£2.50	£2.50	dyb	£4.35	£2.50
Conwy	£2.75	£2.75	-	£3.63	£2.80
Dinbych	£2.20	£2.20	£2.20	£3.60	£2.35
Wrecsam	£2.40	£2.40	£2.40	£3.20	£2.45
Gwynedd	£2.50	£2.50	£2.50	£3.60	Gosod fesul ysgol
Merthyr	£2.30	£2.30	£2.30	£3.55	£2.70
Sir Fynwy	£2.50	-	-	-	-
Castell Nedd	£2.35	£2.35	£2.35	£3.30	Gosod fesul ysgol
Newport	£2.15	£2.15	dyb	£3.30	£2.40
Penfro	£2.65	£2.55	dyb	£3.28	£2.70
Powys	£2.35	£2.35	£2.35	£4.50	£2.45
Rhondda Cynnon Taf	£2.55	£2.55	£2.55	£3.36	£2.80
Abertawe	£2.40	-	-	£3.95	-
Torfaen	£2.40	£2.30		£4.00	£2.60
Bro Morgannwg	£2.40	£2.40		£3.20	£2.60
Fflint	£2.30	£2.30	£1.20	£3.10	£2.50

Eitem 11 CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad:	6 Gorffennaf 2021
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2021-22 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; materion a lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn nodi bod y materion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad Adrannol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, ac ar y trywydd i gyflawni yn erbyn ein haddewidion, a'u pwrpas. Mae rhai materion eraill wedi codi i sylw drwy ein herio perfformiad sy'n achosi pryder i ni ac rwy'n amlinellu'r rheiny isod.

2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael gyda phrif risgiau'r adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect ar hyn o bryd yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

2.2 Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd

Rwy'n falch o nodi fod y rhaglen Diogelu Plant yn Effeithiol, ymyrraeth Ffordd Gwynedd ar y cyd rhwng Adran Plant ac Addysg; a datblygu Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i gilydd yn symud ymlaen fel y rhagwelwyd. Mi fyddaf yn dod i'r Cabinet i gyflwyno'r Strategaeth honno yn fuan.

2.3 Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

Er fod y pandemig wedi oedi'r rhaglen trawsffurfio hon, gallaf nodi fod yr Adran ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd a Chyngor Mon wedi addasu ac ailgydio yn y prosiect. Mae'r broses recriwtio ar gyfer treialu Tim Aml-asiatnaethol wedi symud yn ei flaen; ac mae rhaglen hyfforddiant i gefnogi plant gydag anghenion dwys a cymhleth wedi cychwyn ers Ionawr, ac yn tynnu gweithlu addysg, gofal cymdeithasol a iechyd at ei gilydd.

2.4 Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

Mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu ac maent wedi cwblhau adolygiad o sefyllfa bresennol profiadau teuluoedd gyda phlant ag awtistiaeth. Mae'r Grŵp wedi tynnu Cynllun Awtistiaeth drafft ynghyd sy'n dangos be sydd angen i ni ei wneud i ymateb i argymhellion yr adolygiad. Byddaf yn dod a'r cynllun hwnnw i'r Cabinet yn fuan gan fod elfennau o'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael a chodi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a'i fod yn fusnes i bawb. Mae un pryder yn y maes y byddaf, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ei uchafu yn ffurfiol gyda'r Bwrdd Iechyd, sef rhestrau aros am asesiadau Niwro ddatblygiadol, ac effaith hynny ar blant a'u teuluoedd yma yng Ngwynedd.

2.5 Cefnogi Llesiant Pobl

Mae'r gwaith o gefnogi llesiant pobl dros y misoedd diwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil-ffeithiau'r pandemig. Yn bennaf mae'r gwaith yma wedi parhau o amgylch cefnogi darpariaeth tloedi bwyd, sefydlu'r peilot Hwb Help (Maesgeirchen) yn rhan o gynllun adfer Gogledd Cymru, a chanolbwyntio ar sefydlu trefniadau i'r ffrydiau gwaith sydd wedi eu blaenoriaethu gennym fel Cyngor. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith hynny yn symud ymlaen yn dda ee atal digartrefedd, gofalwyr, ac mae rhai o'r ffrydiau gwaith eraill angen eu cadarnhau ymhellach.

3. PERFFORMIAD A MESURAU

3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud a'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.

- 3.2 Capasiti y Gweithlu - Mae'r Adran yn gweithredu trefniadau dros dro er mwyn delio gyda diffyg yn y niferoedd angenrheidiol o weithwyr cymdeithasol, drwy ddargyfeirio gweithwyr i'r Timau Gwaith Cymdeithasol. Mae'r adran hefyd yn parhau i drïo recriwtio gweithwyr cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cystadlu gyda siroedd eraill am weithwyr, mewn cyd-destun o gyflogau uwch yn y siroedd eraill, prinder cyffredinol yn y maes, a'n angen am siaradwyr Cymraeg. Mae llwythi achos y gweithlu presennol yn cynyddu, a nifer o'r achosion hynny yn gymhleth ac felly angen mwy o amser, sylw a chefnogaeth. Mae'r risg o amgylch capasiti y gweithlu presennol os na allwn ymateb iddo yn effeithio ar weddill ein gallu i gyflawni'r prosiectau blaenoriaeth a'r gwaith dydd i ddydd; yn ategol a bod yn andwyol i iechyd a lles y staff eu hunain.
- 3.3 Methiant yn y systemau gwybodaeth – Mae gennym bryder ynghylch y system wybodaeth WCCIS sy'n dal cofnodion achosion a teuluoedd yr adran. Mae'r mater yn cael ei drafod ar lefel genedlaethol ar y cyd gydag awdurdodau eraill, Llywodraeth Cymru a'r cwmnïau meddalwedd, ond nid ydym yn hyderus ar hyn o bryd fod datrysiad cadarn mewn lle i ddiogelu y system honno na'i gwallau.
- 3.4 O ran mesurau'r adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perfformiad. Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at 2 yn benodol sy'n darlunio stori'r adran yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwnnw.
- 3.5 Mae niferoedd sy'n cysylltu gyda yr Adran am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn cynyddu yn 522 ym mis Ebrill a 575 ym Mis Mai o gymharu a 460 yr un, yn yr un misoedd flwyddyn diwethaf. Adlewyrchiad efallai o sgil-ffeithiau'r pandemig ac o'r hyn sydd i ddod i ni o ran angen trigolion am gymorth.
- 3.6 Mae hi hefyd yn braf cael adrodd mor gynnar yn y flwyddyn ar effaith ein hymdrechion i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, sydd fel y gwyddoch yn un o brosiectau blaenoriaeth yr adra. Gyda 857 o blant yn agored i'r adran ar y 31 o Fai, mae 45% ohonynt yn byw gyda rhieni /teulu / ffrindiau.

4 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

- 4.1 Mae'r Cabinet wedi trafod prif gynllun arbedion, Cynllun Dechrau i'r Diwedd, yr adran ym mis Ionawr 2021, pan ddilëwyd £1,149,000 o'r targed (£688,000 o'r targed hyd at 2020/21 a £460,000 pellach ar gyfer 2021/22). Fodd bynnag mae'r adran yn parhau i edrych ar gyflawni'r targed arbedion diwygiedig drwy wella effeithlonrwydd eu trefniadau gwaith.
- 4.2 Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 bu i'r Adran dderbyn cymorth ariannol o £1,261,000 i glirio eu gorwariant am y flwyddyn, oedd yn bennaf yn y maes lleoliadau all-sirol. Ar gyfer 2021/22, fel rhan o'r drefn bidiau bu i'r Adran dderbyn gwerth dros £1,824,000 o fidiau parhaol i gwrdd â phwysau anorfod yn bennaf ar leoliadau plant mewn gofal. Mae'r rhagolygon cynnar eleni yn awgrymu fod y cyfuniad o adnodd ychwanegol ynghyd â dileu gwerth £1,149,000 o arbedion, wedi cynorthwyo sefyllfa ariannol yr Adran ac felly yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, rhagwelir y bydd modd cadw o fewn y gyllideb.

5. Barn y Swyddogion Statudol:

- i. **Y Swyddog Monitro:** *"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

ii. **Y Pennaeth Cyllid:** *“Mae rhan 4 yr adroddiad perfformiad hwn yn ymhelaethu ar y risgiau sydd ynghlwm â’r materion ariannol perthnasol. Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio ag awdur yr adroddiad ac rwyf yn fodlon fod rhan 4 yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o’r sefyllfa”*

a. **Barn yr Aelod Lleol:**

i. Ddim yn fater lleol.

b. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

i. Dim i’w nodi.

Atodiadau

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad:	6 Gorffennaf 2021
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dafydd Meurig
Swyddog Cyswllt:	Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Statudol dros Wasanaethau Cymdeithasol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pwyllgor Craffu perthnasol.
- 1.3 Mae'n gynnar iawn yn y flwyddyn 2021/22 wrth i mi gyflwyno'r adroddiad hwn ond rwy'n falch iawn o nodi, yn enwedig o ystyried yr heriau sylweddol sydd wedi ac sy'n parhau i wynebu'r Adran yn sgil yr argyfwng, fod cynnydd yn digwydd yn barod ar y prosiectau blaenoriaeth. Mae'r mesurau 'a wnaethom yr hyn sy'n bwysig?' i'n trigolion hefyd yn argoeli'n dda am y flwyddyn i ddod a byddaf yn cadw golwg ar y mesurau hyn wrth i'r Adran adfer ac ail siapio ei wasanaethau. Maent hefyd yn awgrymu fod y camau mae'r Adran yn eu cymryd tuag at wella a thrawsnewid gwasanaethau yn gamau i'r cyfeiriad cywir ac edrychaf ymlaen at eich diweddarau ymhellach yn fy adroddiad nesaf.

2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

- 2.1 Mae bregusrwydd y sector gofal wedi bod o bryder sylweddol i'r Adran ers rhai blynnyddoedd ac yn risg i'n gallu i gynnal y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl Gwynedd. Yn anffodus, mae argyfwng Covid-19 wedi ychwanegu pwysau pellach ar y sector ac wedi

amlygu'r risg yma fwy fyth. Yr her fwyaf i'n wynebu ni felly ar hyn o bryd yw hyfywdra ariannol y sector gofal preswyl a nyrsio a'r sector gofal cartref ac effaith hynny ar ansawdd ein gwasanaethau gofal. Yn ogystal, mae gennym broblemau'n ymwneud â diffyg gwllâu nyrsio yn y Sir a phrinder gwelyau a darpariaeth gefnogol ar gyfer unigolion â dementia. Law yn llaw â hyn, mae angen moderneiddio ac addasu ein hadeiladau i fedru ymateb i'r anghenion arbenigol cynyddol ymysg ein trigolion. Yn ychwanegol i hyn oll mae denu a chadw gofalwyr a staff eraill yn y maes gofal yn heriol ers blynyddoedd lawer ac mae hyn hefyd wedi'i amlygu yn ystod yr argyfwng.

2.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae gan yr Adran dri prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 sef:

- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol – rhaglen i fynd i'r afael â'r ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd.
- Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal – rhaglen i drawsnewid ein gwasanaethau iechyd a gofal ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd er mwyn ymateb i anghenion gofal y Sir i'r dyfodol.
- Y Gweithlu a Recriwtio i'r Maes Gofal – rhaglen i fynd i'r afael â'r heriau denu a chadw staff yn y maes er mwyn medru ymdopi â'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Isod, darperir diweddariad ar y prosiectau hyn.

2.3 **Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol**

2.3.1 Mae'r Adran wedi dechrau ar y daith i geisio deall yn well beth yw 'gwir gost gofal' gyda'r ffocws i gychwyn ar y maes gofal Preswyl a Nyrsio. Mae grŵp tasg ranbarthol wedi'i sefydlu'n ddiweddar, ac mae'r gwaith lleol oedd wedi'i gychwyn cyn argyfwng Covid-19 bellach wedi gallu ailgychwyn. Byddaf yn diweddar ymhellach yn fy adroddiad nesaf ynglŷn â'r cynnydd.

2.3.2 Mae trafodaethau ar waith yn y Cyngor i amlinellu opsiynau a chostau rhagarweiniol i symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos a bydd yr Adran yn mynd ati i gynnal trafodaeth bellach gyda'r aelodau lleol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i baratoi amlinelliad manwl o gynlluniau ar sail ein hasesiad o angen, gyda phwyslais ar ddarpariaeth hyblyg. Mae hyn oll yn digwydd er mwyn ceisio cyfarch y prinder gwllâu nyrsio ym Mhen Llŷn. Mae'r Adran hefyd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu nifer y gwllâu dementia yn ein cartref ym Mangor, ac mae'r gwaith i uwchraddio ein cartrefi yn y Bermo a Dolgellau'n parhau. Mae'r Adran bron a chwblhau estyniad ar ein cartref preswyl anabledau dysgu ym Mhwlheli hefyd er mwyn ei gwneud yn haws i deuluoedd ymweld yn ddiogel yn sgil rheoliadau Covid-19. Mae'r lefelau galw presennol yn awgrymu'n gryf bod angen newid y gymysgedd o ran math o wllâu preswyl ar draws y Sir. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i gasglu data i gael darlun clir o'r angen trwy'r Asesiad Anghenion Poblogaeth ac fe fydd hynny'n arwain at adolygu ein rhaglen fuddsoddi yng nghartrefi preswyl y Cyngor.

2.3.3 Rydym wedi ymrwymo hefyd i gryfhau ein Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal wrth iddynt geisio cynnal gwasanaeth o safon i drigolion. Yn anffodus, mae 4 cartref yn y Sir wedi bod yn derbyn sylw mewn perthynas â

phryderon cynyddol yn ystod y misoedd diwethaf, sydd wedi golygu na ellir caniatáu unrhyw fynediadau newydd i'r cartrefi hynny yn y cyfamser. Wrth reswm mae hyn yn rhoi straen ar ein gwasanaethau ac ar y gallu i ryddhau unigolion o'r ysbyty yn amserol ac mae angen i ni allu cefnogi'n darparwyr i osgoi sefyllfaoedd o'r fath. Byddai cefnogaeth sicrwydd ansawdd ataliol yn gymorth i ddarparwyr reoli costau darparu gofal trwy gynnal safonau a gweithredu yn fwy effeithlon. Bydd yr Adran yn adrodd ar y sefyllfa yma i'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Medi ac mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi a chyflwyno bid i gynyddu capasiti'r Gwasanaeth.

2.4 Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal

- 2.4.1 Er mwyn arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal a staff iechyd) i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd, mae llawer o hyfforddiant wedi ei ddarparu. Pwrpas yr hyfforddiant yw i'w cynorthwyo i weithredu gweithdrefnau diogelu a rhoi'r person yn ganolog wrth wneud hynny, ac i ddarparu gwasanaethau adfocatiaeth er mwyn cryfhau llais yr unigolyn ynghylch eu taith gofal. Mae'r timau hefyd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cynnwys darparwyr gofal cartref yn y cyfarfodydd hynny. Mae hyn yn allweddol i sicrhau fod gwahanol broffesiynau'n cyd-gynllunio i wneud y gorau o'r adnoddau sy'n bodoli'n lleol, ac yn adnabod cyfleoedd i ddatblygu.
- 2.4.2 Mae'r gwaith o ddatblygu'r model newydd o ddarparu gofal cartref yn parhau a bellach mae nifer o dimau gofal cartref y Cyngor wedi symud i weithio patrymau shifft, sy'n cynnig gwell hyblygrwydd i'r unigolion sy'n derbyn gofal a gwell sefydlogrwydd i staff. Hefyd, mae rhai darparwyr allanol wedi parhau i arloesi drwy gynorthwyo aelodau o'r Tîm Adnoddau Cymunedol gyda thasgau sydd y tu hwnt i rôl arferol gofalwyr. Noder isod yn rhan 3.2 effaith ehangach posib y rhaglen waith yma ar berfformiad a rhaglenni gwaith eraill y maes.
- 2.4.3 Llwyddwyd hefyd i sicrhau cyllid parhaol i sefydlu Gwasanaeth Symud a Thrin arbenigol fydd yn cryfhau gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol. Bydd swyddi newydd yn cael eu hysbysebu o fewn yr wythnosau nesaf ac yn y cyfamser, mae adnodd therapi galwedigaethol ychwanegol mewn lle dros dro.
- 2.4.4 Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd, mae'r Hwb Iechyd Meddwl Cymunedol ym Mhwlheli wedi ailagor ddechrau Mehefin yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19. Mae'r gwasanaeth a roddir yn cynnwys rhannu gwybodaeth a chyfeirio unigolion am gymorth yn ogystal â chynnig gweithgareddau llesol megis grwpiau cerdded, arlunio ayb. Mae'r gwasanaethau wyneb i wyneb ar sail apwyntiadau am y tro i sicrhau diogelwch yr unigolion ac mae'r opsiwn o gefnogaeth rithiol yn parhau.
- 2.4.5 Mae ein gallu i lwyddo i drawsnewid gwasanaethau yn ddibynnol ar y berthynas cydweithio gyda'n partneriaid, ac yn arbennig y Bwrdd Iechyd. Er ein bod yn profi heriau wrth gydweithio a chyflawni blaenoriaethau, rydym yn ffyddiog ein bod yn parhau'n gytûn ar y weledigaeth. Mae'n galonogol clywed fod Prif Weithredwr newydd y Bwrdd Iechyd yn gefnogol i'r cyfeiriad hwn, ac rwyf yn awyddus i gynnal trafodaethau pellach i weld sut y gallwn gryfhau'r cydweithio rhyngom trwy roi'r ffocws ar newid diwylliant a newid y ffordd o weithio er budd ein trigolion.

2.5 Y gweithlu a recriwtio i'r maes gofal

- 2.5.1 Mae'r Adran wedi adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal gan ddarganfod ei fod wedi helpu i ddenu ymgeiswyr a gweithwyr newydd i'r maes. Er hynny,

mae dal angen i ni fedru denu llawer mwy ac mae cadw staff yn parhau'n her mewn rhai sefyllfaoedd. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar yn awgrymu fod cynnig telerau gwell a phatrymau gwaith mwy cyson yn helpu i leihau rhywfaint ar lefelau trosiant staff. De Meirionnydd (ac ardal Tywyn yn benodol) oedd yr ardal gyntaf i'r staff weithio patrymau shifft, ac mae hyn wedi cynnig gwell sicrwydd i staff o'u horiau cytundebol ac yn cynnig gwell cydbwysedd bywyd a gwaith wrth iddynt fedru cynllunio eu bywyd o amgylch eu shifftiau. Mae'r sefyllfa yn Ne Meirionnydd, o ganlyniad, yn llawer iawn mwy sefydlog nag y bu ac mae'r Adran wrthi'n mabwysiadu'r trefniadau hyn ar gyfer ardaloedd eraill hefyd. Mae'r newid wedi profi'n gadarnhaol i'r unigolyn trwy sicrhau cysondeb, ac wedi gwella'r berthynas rhwng y gofalydd a'r unigolyn sy'n derbyn cefnogaeth.

- 2.5.2 Er mwyn ymateb i fylchau arbenigeddau penodol, llwyddwyd i ddenu cyllideb ar gyfer 1 swydd hyfforddai gwaith cymdeithasol a dwy swydd hyfforddai therapi galwedigaethol. Cynhelir cyfweiliadau'n ystod yr wythnosau nesaf.
- 2.5.3 Mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, a fydd yn golygu y gall holl weithwyr gofal cartref y Sir gynorthwyo pobl i gymryd meddyginiaeth. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar rannau eraill o'r system iechyd a gofal ac yn help i sicrhau bod ansawdd bywyd yn cael ei wella wrth i bobl gael y feddyginiaeth gywir ar yr amser iawn ac yn ddiogel.

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Prif fesur y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyrdd** yw 'A wnaethom gyflawni'r hyn sy'n bwysig?' i'r unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau. Hyd yma yn 2021/22, mae'r data'n dangos fod y Gwasanaeth wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn 78% o'r achosion a gofnodwyd yn erbyn y mesur, a'u bod wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol yn 19% o achosion pellach. Mae hyn yn welliant hyd yma mewn cymhariaeth â'r ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer 2020/21 – sef 71% a 23% yn y drefn honno. Wrth ddadansoddi'r rhesymau pam nad ydi unigolion wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn llawn y prif reswm yw'r cyfyngiadau cymdeithasol o ganlyniad i Covid e.e methu mynd allan, mynychu'r capel, diffyg cyswllt teuluol. Mae enghreifftiau hefyd o unigolion yn aros am offer ac addasiadau yn amserol. Bydd yr Adran, wrth gwrs, yn cefnogi'r unigolion hyn i geisio gwella eu sefyllfa.
- 3.2 Dylwn gymryd y cyfle yn yr adroddiad hwn hefyd i amlygu a rhagrybuddio fod y newidiadau mawr sydd ar droed yn y maes, megis y gwaith o ddatblygu model gofal cartref newydd, yn ein gorfodi ar hyn o bryd i flaenoriaethu'r blaenoriaethau sydd gennym. Mae hyn yn debygol o arwain at lithriadau mewn rhai rhaglenni gwaith, yn ogystal o bosib a chael effaith negyddol ar berfformiad dros y 6 i 9 mis nesaf. Byddwn yn gwneud pop ymdrech bosib i sicrhau na fydd y newid yn cael effaith negyddol ar allu trigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn ystod y cyfnod hwn, ond ar yr un pryd credir y dylid bod mor agored a realistig ynglŷn ag effaith y newid sylweddol hwn sydd ar waith.
- 3.3 Mae'r **Gwasanaeth Anableddau Dysgu** yn defnyddio'r un mesur, a dengys hyd yma yn 2021/22 bod y Gwasanaeth wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn 91% o'r achosion a gofnodwyd yn erbyn y mesur, a'u bod wedi llwyddo i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol yn y 9% arall o achosion. Mae hyn hefyd yn welliant hyd yma mewn cymhariaeth â'r ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer 2020/21 – sef 85% ac 15% yn y drefn honno. Wrth gwrs, dylid cydnabod fod yr hyn sy'n bwysig i nifer o unigolion yn wahanol i'r arfer ar hyn o bryd

oherwydd effaith argyfwng Covid-19 a'r cyfyngiadau ar eu sefyllfaoedd personol. Bydd angen cadw hyn mewn cof wrth adfer gwasanaethau a monitro'r mesurydd yma i'r dyfodol.

- 3.4 Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth. Ers y 1af o Ebrill 2021 mae'r Gwasanaeth wedi derbyn 81 o ymholiadau diogelu, a llwyddwyd i ddelio â 75 ohonynt o fewn yr amserlen statudol. O'r rhai a benderfynwyd oedd yn achosion diogelu, llwyddwyd i reoli'r risg yn 92% ohonynt. Cafwyd tri achos lle bu i'r unigolyn wrthod ymyrraeth, ac un achos lle nad yw'r risg wedi'i reoli. Mae'n ymddangos nad yw risg wedi ei reoli pan nad oes deiliant clir wedi cael ei ddogfennu ar y ffurflen gau. Yn arferol byddai'r ymarferwyr yn gwirio'r wybodaeth yma ond nid yw hyn wedi cael ei wneud eto oherwydd pwysau gwaith a'r nifer uchel o adroddiadau diogelu.
- 3.5 Un o'r heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i hyfywdra'r sector gofal cartref a'r heriau recriwtio rydym wedi eu profi ers rhai blynyddoedd yw anallu i ddiwallu holl anghenion gofal cartref y Sir, ac effaith hynny wedyn ar ofalwyr di-dâl a gwasanaethau mwy dwys. Ar ddiwedd Mawrth eleni, roedd 38 o unigolion a oedd angen gofal cartref yng Ngwynedd ar y rhestr aros oherwydd nad oedd modd diwallu'i anghenion. Roedd hyn gyfystyr a 2.43% o'r holl oriau gofal cartref rydym yn eu comisiynu. Erbyn canol Mehefin roedd nifer yr unigolion wedi lleihau i 15, a'r canran o oriau nad oedd posib eu diwallu mewn cymhariaeth a'r holl oriau wedi gostwng i 0.63%. Mae'r lleihad yma er gwaethaf cynnydd o bron i 2% yn y galw am ofal yn yr un cyfnod. Wrth gwrs, rydym eisiau gweld sefyllfa lle nad oes unrhyw un yn gorfod bod ar restr aros am ofal ond mae'r lleihad yma'n galonogol ac yn arwydd cynnar fod ein gwaith i ddatblygu model newydd ar gyfer gofal cartref yng Ngwynedd yn dwyn ffrwyth. Yn bendant, mae adborth staff sydd wedi bod yn rhan o beilot yn ardal Tywyn yn galonogol ac yn rhoi ffydd bod y trefniadau gwaith newydd, fel gweithio patrymau shifft, yn ffafriol i bobl.
- 3.6 Mae'r Adran hefyd yn y broses o ddatblygu mesurau newydd yn sgil yr holl waith sy'n digwydd i integreiddio'n gwasanaethau. Bydd rhai o'r rhain yn adeiladu ar y mesurau uchod ynghylch a ydym yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion, gyda gwaith yn digwydd i ystyried unrhyw fesurau pellach er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig ac o'n gallu i gyflawni hynny. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i gyflwyno unrhyw ddata i chi mewn perthynas â'r mesurau newydd hyn ond gobeithiaf adrodd arnynt yn fy adroddiad nesaf ym mis Tachwedd.
- 3.7 Mae cyfran uchel o waith y Gwasanaeth Busnes yn parhau i fod yn delio gydag agweddau o'r argyfwng. Boed hynny wedi bod trwy ailgyfeirio staff, cefnogi darparwyr gyda'r trefniadau profi neu weinyddu cymorth cyllidol ychwanegol i'r maes. Mae'r gwaith craidd o gefnogi timau rheng flaen i gyflawni eu pwrpas yn parhau, ond dylid amlygu pryder yn benodol o ran y system genedlaethol sy'n cael ei ddefnyddio gan staff gofal cymdeithasol o ddydd i ddydd. Rydym yn profi risgiau i'r system ar lefel genedlaethol ac mae hynny'n creu problemau gweithredol ar lefel lleol o ran diogelu data, yn ogystal â rhwystrau sylweddol i weithrediad effeithiol gwasanaethau llinell flaen. Deillir hyn o ddiffyg cynnydd gan gyflenwyr y system i'w diweddarau ac i gynnal y system. Mae'r risgiau hyn yn effeithio awdurdodau ar draws Cymru ac mae ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol ar waith i geisio canfod datrysiadau. Mae ystyriaeth yn cael ei roi ar lefel lleol hefyd i liniaru effaith unrhyw risgiau ar wasanaethau'r Cyngor er bod y gallu i wneud hyn yn gyfyngedig.

- 3.8 Mae'r Adran hefyd yn cydnabod bod bwlch amlwg yn y mesurau mewn perthynas ag adrodd ar berfformiad yn y maes iechyd meddwl, ac wrth gwrs mae hyn yn broblem. Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan yr Adran eu bod yn edrych ar hyn fel mater o flaenoriaeth wrth ddatblygu mesurau newydd fel sydd wedi'i amlinellu uchod.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

- 4.1 Gwelwyd yr Adran yn tanwario yn erbyn y gyllideb y llynedd ond ar hyn o bryd mae'n rhyfuan yn y flwyddyn i allu adrodd ar y rhagolygon ar gyfer eleni.
- 4.2 Mae'r cynlluniau arbedion sydd fwyaf heriol i'r Adran yn ymwneud â rheoli'r galw ar ein gwasanaethau, gyda'r gallu i gyflawni yn ddibynnol ar lwyddiant y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau gofal ac iechyd ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Adroddir ar gynnydd y rhaglen hon trwy'r Flaenoriaeth Gwella 'Ail-ddylunio ein Gwasanaethu Gofal.
- 4.3 Penderfynodd y Cabinet ar y 26 o Ionawr i ail broffilio rhai o'r prif gynlluniau arbedion o ran hyn er mwyn iddynt gael eu cyflawni yn 2022/23. Mae hyn yn galluogi'r Adran i sicrhau bod Model Gweithredu newydd yn cael ei wreiddio o fewn y timau. Mae'r model hwn yn seiliedig ar Ffordd Gwynedd, ac mae'n canolbwyntio ar adnabod a gwireddu be' sy'n bwysig i bobl, deall natur y galw, adnabod gwastraff o fewn y system ac amlygu a gweithredu ar rwystrau. Rhan arall greiddiol o'r model yw sicrhau bod gennym fesuryddion sy'n caniatáu i ni fedru deall y berthynas rhwng ein penderfyniadau a'n hymarfer, a'r effaith ar gostau o fewn y system. Mae fframwaith fesur newydd ar gyfer y Gwasanaeth Oedolion yn cael ei datblygu, a chynlluniau ar waith i'w sefydlu dros y misoedd nesaf.
- 4.4 Rydym wedi profi llithriad yn erbyn rhai o gynlluniau arbedion eraill yr Adran yn ddiweddar a byddwn yn mynd ati yn ystod yr wythnosau nesaf i ail ymweld â rhai o'r cynlluniau hyn, er mwyn gweld beth sy'n bosib ei gyflawni eleni a lle mae angen i ni ystyried cynlluniau amgen.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Dim i'w nodi.

6.1 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau oi'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Mae rhan 4 yr adroddiad perfformiad hwn yn ymhelaethu ar risgiau ariannol y gwasanaeth a'r risgiau ynghlwm â chynlluniau arbedion; rwyf yn fodlon fod rhan 4 yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Bydd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid ar sefyllfa cyllideb refeniw 2021/22 fel y bydd ar ddiwedd Awst yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Hydref 2021.

6.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

6.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

6.3.1 Dim i'w nodi.
